BBC



RHAN 2

# AROLWG AC ASESIAD BWRDD GWEITHREDOL Y BBC

Dychwelodd y ddrama *Sherlock* gyda Benedict Cumberbatch a Martin Freeman, am ail gyfres ym mis Ionawr 2012.

# CHYNNWYS A MYNEGAI PWNC


**Cynnwys Rhan 2 Bwrdd Gweithredol y BBC**

**Trosolwg**

2-1 Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol
2-2 Deall cyllid y BBC
2-4 Perfformiad fesul gwasanaeth
2-8 Teledu
2-9 Radio
2-10 Newyddion
2-11 Cyfryngau'r Dyfodol
2-12 Y Gwledydd a'r Rhanbarthau

**Rhoi ein strategaeth ar waith**

2-14 Natur nodedig ac ansawdd
- 2-15 Y newyddiaduraeth orau yn y byd
- 2-16 Gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli
- 2-17 Drama a chomedi uchelgeisiol
- 2-20 Cynnwys eithriadol i blant
- 2-21 Cynnwys sy'n dod â'r gwledydd a chymunedau ynghyd

2-22 Gwerth am arian
2-23 Gwasanaethu pob cynulleidfa
2-26 Bod yn agored ac yn dryloyw

**Rheoli'r busnes**

2-28 Arolwg y Prif Swyddog Gweithredu
2-29 Cydweithio

**Llywodraethu**

2-40 Bwrdd Gweithredol
2-42 Risgiau a chyfleoedd
2-44 Adroddiad llywodraethu
2-47 Adroddiad cydnabyddiaeth
2-52 Adroddiad y Pwyllgor Archwilio
2-55 Adroddiad ar fasnachu teg

**Rheoli ein cyllid**

2-58 Arolwg y Prif Swyddog Ariannol
2-59 Crynodeb o berfformiad ariannol
2-60 Trosolwg ariannol
2-68 Casglu ffi'r drwydded
2-69 Edrych ymlaen yn hyderus
2-70 Adroddiad yr archwilydd
2-71 Geirfa
2-72 Cysylltu â ni/Mwy o wybodaeth



| Mynegai Pwnc | Rhan 1 | Rhan 2 |
|---|---|---|
| Cydnabyddiaeth y Bwrdd | 1-9/1-32 | 2-48 |
| Strategaeth fasnachol | 1-8 | 2-36 |
| Cwynion | 1-3/1-19 | 2-55 |
| Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf | 1-4/1-6 | 2-14 |
| Trosglwyddo i ddigidol | – | 2-25 |
| Dosbarthu | 1-17 | 2-25 |
| Blaenoriaethau golygyddol | – | 2-14 |
| Safonau golygyddol | 1-3/1-18 | 2-38 |
| Effeithlonrwydd | 1-6 | 2-59/2-61 |
| Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 1-16 | 2-31 |
| Cyfarwyddwyr y Bwrdd Gweithredol | – | 2-40 |
| Masnachu teg | 1-20 | 2-55 |
| Bod yn ddiduedd | 1-18 | 2-15 |
| Ffi'r drwydded | 1-7 | 2-3/2-62 |
| Pwrpasau cyhoeddus | 1-10 | 2-14 |
| Cyrhaeddiad fesul gwasanaeth | – | 2-4 |
| Cydnabyddiaeth uwch reolwyr | 1-7/1-33 | 2-30 |
| Perfformiad gwasanaethau | 1-11 i 1-15 | 2-4 i 2-7 |
| Gwariant fesul gwasanaeth | – | 2-64 |
| Amcanion strategol | 1-4 | 2-14 |
| – Gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa | 1-17 | 2-23 i 2-25 |
| – Gwella gwerth am arian | 1-2/1-6 i 1-9 | 2-22 |
| – Gwella natur nodedig ac ansawdd | 1-2/1-13 | 2-14 i 2-21 |
| – Gosod safonau newydd o fod yn agored a thryloyw | 1-22 | 2-26 |
| Syndicetio cynnwys y BBC | 1-3/1-17 | 2-11 |
| Costau talent | 1-7 | 2-33 |
| Gwariant yr Ymddiriedolaeth | 1-33 | 2-65 |
| Ymddiriedaeth yn y BBC | – | 2-15 |
| Ymddiriedolwyr | 1-26 | 2-49 |



Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Siarter Frenhinol y BBC 2006 (erthygl 45), sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/bbctrust/about/how_we_govern/charter_and_agreement/

# CYFLWYNIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL



**Mae'r haul yn machlud islaw ymyl y stadiwm. Am rai munudau mae'r dorf – degau o filoedd yma, ond biliynau o flaen sgriniau teledu, cyfrifiaduron, ffonau a thabledi ar bob cyfandir – yn mynd yn fud. Ac yna mae'r sioe yn dechrau. Dyma Lundain, mae BBC World Service yn atgoffa ei wrandawyr, a'r dyddiad yw dydd Gwener 27 Gorffennaf 2012: dechrau'r sioe orau yn y byd, heb sôn am y digwyddiad darlledu unigol mwyaf yn hanes y BBC.**

Mae Llundain 2012 yn cwmpasu sawl peth. Chwaraeon eithriadol, a ddarlledir ar y teledu a'r radio a'r we gyda mwy o awdurdod ac angerdd, mwy o syniadau creadigol a mwy o arloesedd technegol nag a welwyd mewn unrhyw Gemau Olympaidd o'r blaen. Digwyddiad a gynhelir mewn prifddinas sydd, ers y foment pan ddangosodd camerâu'r BBC y ffagl Olympaidd yn cyrraedd yng Nghernyw, wedi cynnwys ac ysbrydoli pobl ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig. Ymrwymiad i'r Olympiad Diwylliannol o'r Proms mwyaf uchelgeisiol erioed i benwythnos BBC Radio 1 yn Hackney i Shakespeare. Ond mae 2012 hefyd yn adlewyrchu'r gydberthynas unigryw rhwng y DU a'i darlledwr cenedlaethol.


Heddiw mae argraff gyffredinol y cyhoedd o'r BBC a'i ymddiriedaeth ynddo yn uwch nag erioed. Mae 96% o boblogaeth y DU yn defnyddio ein gwasanaethau bob wythnos ac yn treulio bron i 19 awr ar gyfartaledd yn ein cwmni. Er gwaethaf y datblygiadau digidol, er gwaetha'r myrdd o opsiynau amgen sydd ar gael i'n cynulleidfaoedd bellach, mae'r cyhoedd yn fwyfwy cefnogol o'r BBC a ffi'r drwydded. Mae hyn yn deillio o'r graddau y mae gwerthoedd sylfaenol y BBC a'i ymrwymiad i wasanaethu ei gynulleidfaoedd yma a ledled y byd yn fyw o hyd.

Yn 2011/12 gwnaethom gynnydd ar sawl un o'r nodau y gwnaethom eu gosod i ni ein hunain dros yr wyth mlynedd diwethaf. Parhaodd adfywiad creadigol drama ar draws teledu a radio, gyda *Life and Fate* ar BBC Radio 4 ac ail gyfres ragorol o *Sherlock* ar BBC One. Fel cyn Reolwr BBC Two, cefais fy mhlesio'n arbennig gan y gyfres ysblennydd o ddramâu ardderchog ar y sianel honno, yn cynnwys *The Shadow Line* a *The Hour* – rhan o don ehangach o adfywiad ac egni creadigol ar BBC Two a oedd yn cwmpasu rhaglenni dogfen a chomedi hefyd. Mewn blwyddyn gref iawn i Radio'r BBC, hoffwn roi sylw arbennig i BBC Radio 2 a Radio Lleol yn Lloegr: yn y ddau achos mae ansawdd a natur nodedig yn ennill y dydd ac yn canfod cynulleidfaoedd newydd yn ogystal â chadw'r rhai presennol. O'r achosion o hacio ffonau i'r Gwanwyn Arabaidd i'r argyfwng yn Ardal yr Ewro, roedd yn flwyddyn gofiadwy i'r byd newyddion a, thro ar ôl tro, ni wnaeth ein newyddiadurwyr ein siomi. Er bod Newyddion y BBC ar y teledu yn cynrychioli llai nag un rhan o dair o'r oriau o newyddion a ddarlledir ar y teledu yn y DU, mae'n cynrychioli bron i dri chwarter yr oriau o newyddion y *manteisir arno*, nid am ei fod yn llywodraethu'n strwythurol, ond am fod cynulleidfaoedd yn ymddiried ynddo yn fwy na newyddiaduraeth gan ddarparwyr eraill. Mae ein gwasanaethau digidol yn parhau i ffynnu gyda thwf anhygoel yn nifer y cynulleidfaoedd drwy ffonau symudol a BBC iPlayer a welodd bron i ddau *biliwn* o ffrydiau rhaglenni y llynedd i'r 26 miliwn o gartrefi yn y DU.

Y tu ôl i'r llenni, cyflymodd y gwaith o drawsnewid y BBC yn fenter hollol ddigidol. Sefydlwyd ein canolfan darlledu a chynhyrchu digidol newydd yn Salford a'r Pentref Drama newydd yng Nghaerdydd yn ddidrafferth, ar amser ac o fewn y gyllideb. Mae'r ddau yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod buddsoddiad a chyfleoedd creadigol yn symud i'r gwledydd ac i Ogledd Lloegr.

Mae Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf wedi golygu y bu'n rhaid i'r BBC wneud dewisiadau anodd. Yn fy marn i, hwn oedd yr ymarfer olaf o'i fath y gellir ei ystyried heb wneud y math o doriadau sylweddol i wasanaethau'r BBC y mae'r cyhoedd wedi nodi'n glir ei fod yn eu gwrthwynebu. Er hyn, ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus helaeth, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cymeradwyo cyfres resymol a chytbwys o gynigion a fydd yn cynyddu gwerth cyhoeddus i'r eithaf ac yn sicrhau'r difrod lleiaf posibl i amrywiaeth ac ansawdd y gwasanaeth a gynigiwn i'n cynulleidfaoedd.

Bob ychydig flynyddoedd mae arweinydd yn gadael, mae un arall yn cyrraedd, ac mae'r gwaith yn parhau. Rwyf yn falch iawn o'r hyn a gyflawnwyd gennym dros yr wyth mlynedd diwethaf yn y BBC a dymunaf bob llwyddiant i'm holynydd. Bûm yn ddigon ffodus i gael treulio 30 mlynedd yng nghwmni'r cydweithwyr gorau y gallai unrhyw un ddymuno eu cael – pobl wreiddiol, doniol, creadigol, amheugar, clyfar, caredig, dadleugar tu hwnt a, bron yn ddi-os, fel fi, yn credu'n gryf mewn darlledu cyhoeddus. Rwyf yn ddiolchgar iawn i Fwrdd Llywodraethwyr y BBC ac i Ymddiriedolaeth y BBC am fy mhenodi a'm cefnogi doed a ddelo. Hoffwn ddiolch iddynt am roi'r fraint i mi gael helpu'r BBC i'ch gwasanaethu chi.



**Mark Thompson**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol**
21 Mehefin 2012

# DEALL CYLLID Y BBC

Mae ffi'r drwydded yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r rhaglennu teledu a radio gwreiddiol a chynnwys ar-lein cyhoeddus yn y DU. Gan wynebu'r her ddeublyg bod ffi'r drwydded wedi'i rhewi ar y lefelau presennol a'r ymrwymiadau ariannol newydd, mae'r BBC yn sicrhau bod ffi'r drwydded yn mynd ymhellach, drwy arbedion effeithlonrwydd a thrwy greu refeniw gan ddilyn strategaeth fasnachol gref.

## Grŵp y BBC

### BBC World Service a BBC Monitoring

**£277m**

Incwm Grant a Chymorth Grant

Dechreuodd **BBC World Service** ddarlledu i'r byd yn 1932. Mae'r gwasanaeth, ar draws radio, teledu ac ar-lein, ar hyn o bryd yn cael ei ariannu gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Eleni, trodd 180 miliwn o bobl at y World Service i gael newyddion diduedd ac annibynnol. Gan gynnwys gwasanaethau masnachol y BBC, cyrhaeddodd y BBC gynulleidfa fyd-eang o 239 miliwn.

Ariennir **BBC Monitoring** gan Swydda'r Cabinet. Mae'n gyhoeddwr newyddion a gwybodaeth ffynhonnell agored, sy'n cynnig newyddion, sylwebaeth ac ymatebion bob awr o'r dydd gan wasg, radio, teledu a rhyngrwyd y byd. Caiff adroddiadau eu cyfieithu i'r Saesneg o fwy na 100 o ieithoedd, o Afrikaans i Yoruba.

#### Edrych i'r dyfodol

Fel rhan o Adolygiad Cynhwysfawr y Llywodraeth o Wariant, cytunwyd y byddai'r broses o ariannu BBC Monitoring a BBC World Service yn trosglwyddo i ffi'r drwydded y naill o 1 Ebrill 2013 a'r llall o 1 Ebrill 2014.

Rydym wedi sefydlu rhaglen arbedion chwe blynedd i ymdrin â'r toriadau yng nghyllid BBC World Service. Gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Tramor, mae pum gwasanaeth iaith wedi cau, ac rydym wedi rhoi'r gorau i ddarlledu rhaglenni radio o wasanaethau eraill.

### Gweithrediadau masnachol

**£222m**

Elw cyfun cyn llog a threth

**BBC Worldwide** yw prif is-gwmni masnachol y BBC sydd o dan berchenogaeth lawn, a'i nod yw creu'r incwm mwyaf posibl o hawliau rhaglenni ac eiddo'r BBC, i wrthbwyso ffi'r drwydded.

Mae **BBC Studios & Post Production** yn cydweithio â'r BBC, darlledwyr eraill – ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky – yn ogystal â chwmnïau cynhyrchu annibynnol a chwmnïau cyfryngau eraill i greu cynnwys gwych.

Mae **BBC World News** yn cynnig newyddion, gwybodaeth a dadansoddiadau 24 awr yn Saesneg ledled y byd. Fe'i hariennir drwy refeniw hysbysebu a thanysgrifiadau.

#### Edrych i'r dyfodol

Er mwyn sicrhau bod gweithrediadau masnachol y BBC yn parhau i gefnogi ffi'r drwydded mewn blynyddoedd i ddod yn ogystal â hyrwyddo creadigrwydd y BBC a chreadigrwydd Prydeinig i gynulleidfaoedd rhyngwladol, mae BBC Worldwide wedi bod yn adnewyddu ei strategaeth cwmni.

Mae'n bwriadu buddsoddi mwy er mwyn cynyddu ei ffocws ar wasanaethau sy'n cario brand y BBC ac sy'n tyfu'n gyflym, fel ei sianelau sydd dan berchenogaeth lawn a sianelau a weithredir, ledled y byd.

### Gwasanaethau a ariennir gan ffi'r drwydded

**£3,606m**

Incwm ffi'r drwydded

Sefydlir y BBC drwy Siarter Frenhinol ac ariennir ein gweithgareddau darlledu cyhoeddus yn y DU gan ffi'r drwydded a delir gan gartrefi yn y DU. Y llynedd, gwnaethom ddarparu'r canlynol i gynulleidfaoedd cartrefi:

- deg gwasanaeth teledu i'r DU gyfan
- gwasanaethau teledu yng ngwledydd a rhanbarthau Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- deg rhwydwaith radio i'r DU gyfan
- dau wasanaeth radio cenedlaethol yr un yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon
- 40 o orsafoedd radio lleol yn Lloegr
- BBC Ar-lein

#### Edrych i'r dyfodol

Yn y dyfodol, bydd ffi'r drwydded hefyd yn gorfod talu am BBC World Service a BBC Monitoring, ac i'r BBC sefydlu cronfa bartneriaeth ar gyfer gwasanaethau teledu lleol newydd (cymaint â £25miliwn i ddechrau yn 2013, a £5miliwn y flwyddyn wedi hynny), sefydlu model partneriaeth newydd i S4C (gan gyfrannu £76miliwn bob blwyddyn yn 2013 a 2014) a rhoi cymorth i gyflwyno band eang.

Byddwn yn lleihau ein costau presennol £700miliwn y flwyddyn erbyn 2017 i gyflawni'r rhwymedigaethau newydd hyn.

**Ffi'r drwydded**

Yn unol ag Adolygiad Cynhwysfawr y Llywodraeth o Wariant, cytunwyd ar setliad ffi'r drwydded newydd am chwe blynedd gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ym mis Hydref 2010, gan rewi ffi'r drwydded i bob diben ar £145.50 hyd at ddiwedd cyfnod Siarter Frenhinol bresennol y BBC ym mis Rhagfyr 2016 – sy'n cyfateb i ychydig o dan 40c fesul cartref â thrwydded y dydd.


Yn ogystal â chefnogi'r gwaith o gomisiynu, creu a darlledu holl gynnwys teledu, radio ac ar-lein y BBC, mae ffi'r drwydded hefyd yn cael effaith economaidd ehangach, yn cefnogi'r economi greadigol ehangach.

Daeth yr arolwg diweddaraf o'r cyfraniad economaidd hwn i economi'r DU i'r casgliad bod y BBC wedi cyfrannu o leiaf £8.1biliwn yn 2009/10. Mae hyn yn golygu bod dros £2 o werth economaidd yn cael ei gynhyrchu gan bob £1 o ffi'r drwydded. Ein nod yw parhau i ddarparu gwerth economaidd sydd o leiaf ddwywaith gwerth ffi'r drwydded yn y dyfodol, gan ledaenu'r budd economaidd ledled y DU. Byddwn yn cynnal yr arolwg hwn bob dwy flynedd ac yn cyhoeddi adroddiad ar ein llwyddiant o ran cyrraedd y targed hwn. Cynhyrchir yr arolwg nesaf yn hydref 2012. I ddarllen adroddiadau blaenorol ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/reports.


**40c**
**y dydd**

## Eleni, cadwyd ffi'r drwydded ar £145.50. Dyma sut y cafodd ei gwario:

### Gwariant misol fesul ffi'r drwydded




### Cyfraddau ffi'r drwydded ledled Ewrop £ 2011/12





Ffynhonnell: Cymdeithas Ffioedd Darlledu. Mae pob trwydded yn rhedeg am flwyddyn galendr ac eithrio'r DU sy'n rhedeg o 1 Ebrill i 31 Mawrth. Defnyddiwyd cyfradd gyfnewid yr Ewro ar 1 Ionawr 2012 (£1=€1.20). Mae'r gost yn cyfateb i'r cyfanswm fesul trwydded i gwsmer domestig ar gyfer teledu a radio.

## Buddsoddi yng ngoreuon Prydain

Gall effaith gronnol a phŵer gwario dros 20 miliwn o drwyddedau teledu ddarparu mwy na dim ond cynnwys. Yn ogystal ag aelodau o staff mewnol, gallwn roi gwaith i lawer o unigolion llawrydd a miloedd o fusnesau bach a mawr ledled y DU – gan gynnig buddiannau cynaliadwy i ddiwydiannau digidol a chreadigol yn ogystal ag economi ehangach Prydain.

### Gwariant y BBC yn yr economi greadigol £m



# PERFFORMIAD FESUL GWASANAETH

## Teledu rhwydwaith

**BBC One**

BBC One yw ein prif wasanaeth a hi yw sianel deledu fwyaf poblogaidd y DU. Mae'n uno ac yn ysbrydoli'r genedl gyda rhaglenni o safon ar draws amrywiaeth o genres yn cynnwys newyddion a materion cyfoes, drama, comedi ac adloniant.

**BBC Two**

Mae BBC Two yn sianel genre cymysg gyda rhaglenni cynhwysfawr o sylwedd. Mae'n cynnwys y swm a'r amrywiaeth mwyaf o raglennu sy'n meithrin gwybodaeth ar y BBC, ynghyd â rhaglennu comedi, drama a chelfyddydol nodedig.

**BBC Three**

Mae BBC Three yn arloesi yn barhaus i annog cynulleidfaoedd o bobl ifanc 16 oed i bobl yn eu 30au i feddwl ac i'w difyrru gyda rhaglennu comedi, drama a ffeithiol gwreiddiol sy'n dathlu talent Brydeinig newydd.

**BBC Four**

Nod BBC Four yw sicrhau mai hi yw'r sianel sy'n cynnig y cyfoeth deallusol a diwylliannol gorau yn y DU, gan gynnig amrywiaeth uchelgeisiol o raglenni celfyddydol, cerddoriaeth, diwylliant a ffeithiol o'r DU ac yn rhyngwladol.

**CBBC**

Mae sianel CBBC yn cynnig amserlen gymysg nodedig i blant 6–12 oed, gan ddarlledu rhaglenni o'r DU yn bennaf mewn amgylchedd ysgogol, creadigol a phleserus.

**CBeebies**

Mae CBeebies yn cynnig cyfuniad o raglenni o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu yn y DU yn bennaf, sydd wedi'u cynllunio i annog dysgu drwy chwarae mewn amgylchedd cyson ddiogel i blant o dan chwech oed.

**BBC HD**

Mae sianel BBC HD yn llwyfan teledu manylder uwch ar gyfer amrywiaeth o ddeunydd rhaglennu o bob un o wasanaethau teledu eraill y BBC.

**BBC ALBA**

Mae BBC ALBA yn cynnig amrywiaeth nodedig o ddeunydd rhaglennu gwreiddiol i siaradwyr a dysgwyr Gaeleg sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi diwylliant, hunaniaeth a threftadaeth Gaeleg.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £1,708.0miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | | **Cyrhaeddiad** %<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | | **Amser a dreuliwyd yn gwylio sianel bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr cyffredin gyda'r sianel bob wythnos | | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** cymedr<br>Cyfanswm o'r sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | | **Costau fesul Awr Defnyddiwr** c<br>Faint mae'n ei gostio i ddarparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | **1,041.1** | (1,130.9) | **78.8** | (78.8) | **07:20** | (07:25) | **82** | (81) | **6.1** | (6.4) |
| BBC Two | **416.6** | (421.0) | **54.3** | (55.1) | **03:22** | (03:29) | **83** | (83) | **7.8** | (7.4) |
| BBC Three | **83.8** | (84.7) | **23.3** | (22.7) | **01:51** | (01:45) | **84** | (83) | **6.5** | (7.0) |
| BBC Four | **49.2** | (50.8) | **12.5** | (10.6) | **01:38** | (01:37) | **85** | (84) | **8.1** | (9.8) |
| CBBC | **81.9** | (78.3) | **7.4** | (7.0) | **03:00** | (02:56) | **dd/g** | (dd/g) | **9.0** | (8.6) |
| CBeebies | **29.2** | (28.5) | **9.0** | (8.6) | **04:05** | (04:02) | **dd/g** | (dd/g) | **2.5** | (2.5) |
| BBC HD | **1.2** | (2.1) | **3.7** | (3.4) | **01:35** | (01:57) | **83** | (85) | **0.7** | (1.0) |
| BBC ALBA* | **5.0** | (5.0) | **11.9**[1] | (4.3) | **dd/g** | (dd/g) | **dd/g** | (dd/g) | **10.8** | (21.8) |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15 munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth ac ar gynulleidfaoedd 4+ oed, yn unol â safonau'r diwydiant.
Ffynhonnell: BARB.
( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2010/11.
* Ffynhonnell: TNS SOS, Sylfaen: Pawb 16+ oed yn yr Alban.
1 Lansiwyd BBC ALBA ar Freeview a chebl digidol ym mis Mehefin 2011. Mae'r data ar gyrhaeddiad yn adlewyrchu'r sianel ar ôl y lansiad hwn (Meh 2011 i Maw 2012).
dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.

## Radio rhwydwaith

**BBC Radio 1**
Mae BBC Radio 1 yn darlledu cymysgedd nodedig o gerddoriaeth newydd ac adloniant i bobl ifanc 15–29 oed yn ogystal â chynnig newyddion, rhaglenni dogfen ac ymgyrchoedd cynghori i oedolion ifanc.

**BBC 1Xtra**
Mae BBC 1Xtra yn chwarae'r gerddoriaeth ddu gyfoes orau, â phwyslais cryf ar gyflwyno cerddoriaeth fyw o ansawdd uchel a chefnogi artistiaid newydd o'r DU.

**BBC Radio 2**
Mae BBC Radio 2 yn darlledu cymysgedd unigryw o gerddoriaeth a rhaglenni llafar yn cwmpasu cymysgedd eang o allbwn pop a roc, comedi, rhaglenni dogfen a chrefyddol amrywiol, yn ogystal â chynnal ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol i dros 14 miliwn o wrandawyr.

**BBC Radio 3**
Mae BBC Radio 3 yn canolbwyntio ar gerddoriaeth glasurol, gan ddarparu sbectrwm eang o jazz, cerddoriaeth y byd, rhaglenni celfyddydol, crefydd a drama. Ceir pwyslais cryf ar berfformiadau cerddorol o bob cwr o'r DU.

**BBC Radio 4**
Mae BBC Radio 4 yn orsaf radio llafar cymysg, sy'n cynnig newyddion a materion cyfoes manwl ac ystod eang o raglenni llafar eraill yn cynnwys drama, darlleniadau, comedi, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni cylchgrawn.

**BBC Radio 4 Extra**
Lansiwyd yr orsaf yn wreiddiol yn 2002 fel BBC 7, a chafodd ei hail-lansio ym mis Ebrill 2011 fel BBC Radio 4 Extra. Y rhwydwaith digidol yn unig yw'r prif gyfrwng ar gyfer archif y BBC o adloniant llafar, yn cynnwys comedi, drama a darlleniadau.

**BBC Radio 5 Live**
Mae BBC Radio 5 Live yn darlledu newyddion a chwaraeon byw parhaus, gan ddarlledu digwyddiadau wrth iddynt ddigwydd a darparu cyd-destun drwy ddadansoddiadau a thrafodaeth.

**BBC Radio 5 Live Sports Extra**
Mae BBC Radio 5 Live Sports Extra yn cynnig dewis ehangach o chwaraeon byw i wrandawyr drwy ymestyn y darllediadau byw o ddigwyddiadau chwaraeon amrywiol.

**BBC Radio 6 Music**
Mae BBC 6Music yn orsaf radio ddigidol sy'n diddanu'r rhai sy'n mwynhau cerddoriaeth boblogaidd gyda gwasanaeth sy'n dathlu ysbryd amgen cerddoriaeth boblogaidd o'r 60au hyd heddiw, ynghyd â newyddion a rhaglenni dogfen am gerddoriaeth.

**BBC Asian Network**
Mae BBC Asian Network yn cynnig allbwn llafar a cherddoriaeth sy'n apelio i Asiaid Prydeinig, gyda ffocws ar newyddion a materion cyfoes. Mae'n darlledu yn Saesneg yn bennaf, ond mae'n cynnig rhai rhaglenni mewn ieithoedd eraill.

**Cynnwys £m** – Gwariwyd cyfanswm o £293.7miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd

**Cyrhaeddiad %** – Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos

**Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos oriau:munudau** – Y cyfnod o amser a dreuliodd gwrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos

**Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth cymedr** – Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100

**Costau fesul Awr Defnyddiwr c** – Faint mae'n ei gostio i ddarparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol

| | Cynnwys £m | | Cyrhaeddiad % | | Amser a dreuliwyd yn gwrando ar wasanaeth bob wythnos oriau:munudau | | Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth cymedr | | Costau fesul Awr Defnyddiwr c | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| BBC Radio 1 | 38.4 | (36.7) | 22.3 | (22.6) | 07:56 | (08:05) | 79 | (77) | 0.8 | (0.7) |
| BBC 1Xtra | 7.2 | (7.4) | 1.9 | (1.5) | 05:03 | (04:46) | 81 | (80) | 2.8 | (3.9) |
| BBC Radio 2 | 47.2 | (46.7) | 27.4 | (27.2) | 11:53 | (11:54) | 81 | (81) | 0.5 | (0.5) |
| BBC Radio 3 | 37.8 | (37.3) | 4.0 | (4.1) | 06:06 | (05:50) | 83 | (82) | 5.8 | (5.9) |
| BBC Radio 4 | 88.1 | (92.8) | 20.4 | (20.3) | 12:09 | (12:06) | 81 | (80) | 1.3 | (1.4) |
| BBC Radio 4 Extra | 5.0 | (5.3) | 3.0 | (2.0) | 05:34 | (05:56) | 81 | (80) | 1.1 | (1.7) |
| BBC Radio 5 Live | 51.1 | (55.4) | 12.2 | (12.9) | 07:20 | (07:33) | 78 | (76) | 2.1 | (2.1) |
| BBC 5 Live Sports Extra | 2.6 | (2.5) | 1.7 | (1.3) | 03:08 | (02:42) | 85 | (84) | 1.8 | (2.6) |
| BBC 6Music | 7.8 | (7.3) | 2.6 | (2.3) | 07:56 | (08:23) | 83 | (81) | 1.4 | (1.4) |
| BBC Asian Network | 8.5 | (8.6) | 1.0 | (0.9) | 06:31 | (05:19) | 76 | (71) | 5.0 | (6.7) |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15 munud ar gyfer pob sianel ac ar gynulleidfaoedd 15+ oed, yn unol â safonau'r diwydiant.
Ffynhonnell: RAJAR.
( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2010/11.

# PERFFORMIAD FESUL GWASANAETH
## PARHAD

### Cyfryngau'r Dyfodol

BBC
ONLINE MOBILE RED BUTTON

Mae BBC Ar-lein yn cynnwys portffolio'r BBC o gynhyrchion ar-lein ar gyfrifiaduron personol, teledu, ffonau symudol a thabledi, yn cynnwys Newyddion, Chwaraeon a'r Tywydd, ein gwasanaethau i blant sef CBBC a CBeebies, a Gwybodaeth a Dysgu – yn ogystal â gwasanaethau Teledu a Radio a ddarperir ar IP, gyda rhaglenni byw ac ar alw ar gael ar BBC iPlayer.

Mae BBC Red Button yn darparu gwasanaethau a chynnwys rhyngweithiol i wylwyr teledu digidol, yn cynnwys y cynnwys a'r wybodaeth ddiweddaraf ar draws newyddion, chwaraeon, y tywydd, dysgu, adloniant, rhaglennu rhyngweithiol a digwyddiadau mawr.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £128.8miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | **Cyrhaeddiad** %<br>Poblogaeth y DU sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | **Amser a dreuliwyd gyda phob gwasanaeth bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd defnyddwyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** cymedr<br>Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | **Costau fesul Defnyddiwr a Gyrhaeddir** c<br>Faint mae'n ei gostio i ddarparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC Ar-lein | **115.3** (125.8) | **42.5** (41.6)* | dd/g | **77** (80) | **6.1** (8.5) |
| BBC Red Button | **13.5** (14.9) | **31.3** (31.0) | dd/g | **79** (77) | 2.0 (2.3) |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 3+ munud ar gyfer y ddau wasanaeth, ac ar gynulleidfaoedd 16+ oed.
Ffynonellau: CMI (Ar-lein), Nunwood (Red Button).
( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2010/11.
* Mae ffigur 2010/11 wedi'i ailddatgan yn sgîl newid o ran methodoleg; mae'r cyfrifiad bellach yn cynnwys pobl sydd wedi mynd at BBC Ar-lein drwy gyfrifiaduron a ffonau symudol.
dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.

## Newyddiaduraeth, a gwasanaethau radio cenedlaethol a lleol

**BBC NEWS**

Mae sianel BBC News yn wasanaeth newyddion diduedd ac annibynnol 24 awr y dydd sy'n cynnig y newyddion diweddaraf, dadansoddiadau a mewnwelediad. Mae'n rhoi sylw cyflym a chynhwysfawr i ddigwyddiadau lleol, rhai yn y DU a rhai rhyngwladol wrth iddynt ddigwydd.

**BBC PARLIAMENT**

BBC Parliament yw unig sianel y DU sy'n ymroddedig i wleidyddiaeth. Mae'n dangos dadleuon a phwyllgorau o San Steffan, Holyrood, Stormont, Bae Caerdydd a Strasbourg yn ogystal â rhaglenni gwleidyddol o bob cwr o'r DU.

**BBC GLOBAL NEWS**

Mae BBC Global News yn cyfuno BBC World Service, sianel deledu BBC World News, gwasanaethau newyddion ar-lein rhyngwladol y BBC yn Saesneg, BBC Monitoring a BBC World Service Trust.

**BBC LOCAL RADIO**

Mae Radio Lleol y BBC yn darparu gwasanaeth llafar yn bennaf sy'n cynnig newyddion, gwybodaeth a thrafodaethau, gyda phwyslais cryf ar ryngweithedd.

**BBC RADIO Scotland**

Mae BBC Scotland yn wasanaeth llafar i oedolion. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban.

**BBC RADIO NAN GÀIDHEAL**

Mae BBC Radio nan Gàidheal yn cynnig gwasanaeth radio llafar a cherddoriaeth cynhwysfawr i siaradwyr Gaeleg. Mae'n cwmpasu amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl yr Alban o safbwynt Gaeleg a thrwy gyfrwng yr iaith.

**BBC radio wales**

Mae BBC Radio Wales yn wasanaeth llafar i oedolion, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

**BBC radio cymru**

Mae BBC Radio Cymru yn wasanaeth radio llafar a cherddoriaeth i siaradwyr Cymraeg, sy'n cynnig amrywiaeth eang o genres ac yn adlewyrchu materion, digwyddiadau, diwylliant a diddordebau pobl Cymru.

**BBC RADIO ULSTER**

Mae BBC Radio Ulster yn wasanaeth llafar, sy'n cwmpasu amrywiaeth o raglenni sy'n adlewyrchu newyddion, digwyddiadau a phob agwedd ar fywyd cymunedol yn ei ehangder.

**BBC RADIO FOYLE**

Mae BBC Radio Foyle yn wasanaeth llafar i gynulleidfaoedd yng Ngogledd-orllewin Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnig cymysgedd o newyddion a rhaglenni eraill sy'n ategu ac yn cyfrannu at wasanaeth BBC Radio Ulster ar draws y rhanbarth.

| | **Cynnwys** £m<br>Gwariwyd cyfanswm o £225.7miliwn gennym ar gynnwys ar gyfer y gwasanaethau hyn y llynedd | | **Cyrhaeddiad** %<br>Poblogaeth leol o fewn cyrhaeddiad y gwasanaeth sy'n defnyddio'r gwasanaeth bob wythnos | | **Amser a dreuliwyd yn gwylio neu'n gwrando ar wasanaeth bob wythnos** oriau:munudau<br>Y cyfnod o amser a dreuliodd gwylwyr neu wrandawyr cyffredin gyda'r gwasanaeth bob wythnos | | **Mynegai gwerthfawrogiad fesul gwasanaeth** cymedr<br>Cyfanswm y sgôr a roddodd pobl i raglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100 | | **Costau fesul Awr Defnyddiwr** c<br>Faint mae'n ei gostio i ddarparu pob gwasanaeth i ddefnyddwyr unigol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sianel BBC News | **42.4** | (47.1) | **12.2*** | (12.2) | **02:30** | (02:37) | **dd/g** | (dd/g) | **4.7** | (4.9) |
| BBC Parliament | **2.1** | (2.0) | **0.5*** | (0.5) | **02:04** | (01:40) | **dd/g** | (dd/g) | **7.2** | (8.2) |
| Radio Lleol y BBC | **112.7** | (114.8) | **17.4** | (17.3) | **09:50** | (09:35) | **82** | (80) | **3.0** | (3.2) |
| BBC Radio Scotland | **23.2** | (23.8) | **22.6** | (22.2) | **06:51** | (06:59) | **79** | (79) | **6.6** | (6.8) |
| BBC Radio nan Gàidheal | **3.6** | (3.8) | **72.9**[1] | (72.4) | **dd/g** | (dd/g) | **dd/g** | (dd/g) | **12.9** | (13.7) |
| BBC Radio Wales | **13.0** | (13.0) | **18.7** | (18.6) | **10:02** | (09:26) | **82** | (82) | **5.3** | (5.7) |
| BBC Radio Cymru | **11.4** | (11.8) | **5.5** | (5.9) | **11:00** | (11:48) | **dd/g** | (dd/g) | **14.5** | (12.9) |
| BBC Radio Ulster/Foyle | **17.3** | (16.2) | **36.5** | (36.9) | **11:20** | (12:20) | **85** | (84) | **5.5** | (4.8) |

Diffiniad o gyrhaeddiad: 15 munud ar gyfer pob sianel a gwasanaeth, ac ar gynulleidfaoedd 4+ oed (teledu) a 15+ oed (radio).
Ffynonellau: BARB (Teledu), RAJAR (Radio).

* Byddai cyrhaeddiad tri munud ar gyfer sianel BBC News a BBC Parliament – yn unol â safonau'r diwydiant ar gyfer gwasanaethau newyddion – yn 18.2% a 1.2% yn y drefn honno.

( ) Ffigurau mewn cromfachau o 2010/11.

dd/g Nid oes data yn bodoli ar gyfer y mesur hwn ar hyn o bryd.

[1] Ffynhonnell: Lèirsinn. Sylfaen: Y boblogaeth sy'n siarad Gaeleg.

# TELEDU

**Mae cynulleidfaoedd yn gyson yn disgwyl mwy gan y BBC o ran ffresni, gwreiddioldeb ac arloesedd. Y flwyddyn hon rydym wedi atgyfnerthu ansawdd a natur nodedig, tra'n cynyddu cyrhaeddiad cyffredinol a sicrhau gwell gwerth am arian hefyd.**
George Entwistle, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol



### Cynnwys nodedig, o safon

Mewn blwyddyn pryd rydym wedi llwyddo i gael ein sgorau gwerthfawrogi gorau hyd yma, gall cynhyrchwyr deimlo'n falch eu bod wedi creu rhaglenni gwirioneddol gofiadwy. Cafwyd cyfoeth o gynnwys ffres, nodedig a hynod wreiddiol, yn cynnwys cyfres wych Syr David Attenborough, *Frozen Planet*, a wyliwyd gan 28 miliwn o bobl. Daeth *Call the Midwife* and *Mrs Brown's Boys* yn rhaglenni poblogaidd i'w gwylio. Cafodd miliynau eu hysbrydoli i ddysgu rhywbeth newydd gyda *Stargazing Live* ar BBC Two, ac aeth dros 100,000 i ddigwyddiadau ledled y DU. Dychwelodd drama i BBC Two ar ffurf *The Hour*, *The Shadow Line*, *United* a *Page Eight*. Mae BBC Three yn parhau i gysylltu â phobl ifanc – o uniongyrchedd *Our War* i agosatrwydd stori Alex yn *A Life Fast Forward*. A denodd cynnwys soffistigedig BBC Four fwy a mwy o gynulleidfaoedd.

### Sicrhau gwerth am arian

Mae mesurau ar gyfer ansawdd a natur nodedig wedi gwella dros y flwyddyn, felly hefyd yn achos y gwerth rydym yn ei gynnig i dalwyr ffi'r drwydded. Rydym bedair blynedd i mewn i raglen effeithlonrwydd ymestynnol iawn, gyda chyfartaledd Cost fesul Awr Defnyddiwr yn 6.4c, i lawr o 6.6c y flwyddyn flaenorol a 7.0c yn 2009/10.


### Partneriaethau

Rydym wedi dysgu o'n partneriaethau ym myd gwyddoniaeth yn 2010 a llyfrau yn 2011, ac rydym bellach yn cyfoethogi ein cydberthnasau â'r gymuned gelfyddydol. Gan gydweithio â'r RSC ac arweinwyr creadigol eraill rydym wedi comisiynu tymor Shakespeare amlgyfrwng, gyda pherfformiadau a rhaglenni dogfen ar BBC Two a BBC Four ac adnodd ar-lein newydd i fyfyrwyr. Mewn partneriaeth arbrofol ag Arts Council England, rydym wedi creu *The Space* i feithrin creadigrwydd ac i helpu i ddatblygu sgiliau cynhyrchu digidol.

### 2012 – blwyddyn eithriadol

Mae'r BBC yn parhau i ymfalchïo yn ei safle wrth wraidd bywyd cyhoeddus yn y DU, gyda BBC One yn arwain y ffordd i gynulleidfaoedd yn 2012 – o Bencampwriaeth Ewropeaidd UEFA i ddathliadau Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines, a chan gyrraedd uchafbwynt gyda Gemau Olympaidd Llundain.

**Cyrhaeddiad wythnosol teledu rhwydwaith y BBC o gymharu â'r prif grwpiau masnachol % 2011/12 (ffigurau 2010/11 mewn cromfachau)**




**144 awr**

Gwnaethom gyflwyno cynulleidfaoedd i 144 awr o ddrama Prydeinig newydd sbon, gyda 46 o deitlau gwreiddiol dros y flwyddyn

**37m**

Mae mwy na 37 miliwn o bobl yn dewis gwylio ein rhaglenni ffeithiol bob wythnos

# RADIO

**Mae Radio'r BBC wedi llwyddo i ddenu mwy o gynulleidfaoedd drwy gynnal ffocws clir ar natur nodedig ac uchelgeisiol ei raglenni, yn ogystal ag arwain ym maes arloesedd digidol ar draws y sector radio.**
Tim Davie, Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth



### Naw deg o flynyddoedd

Bydd Radio'r BBC yn dathlu 90 o flynyddoedd ers cael ei sefydlu yn 2012 gyda sgorau cyrhaeddiad a chymeradwyaeth ar eu lefelau uchaf erioed. Mae 90 y cant o'r boblogaeth yn gwrando ar y radio bob wythnos, a dwy ran o dair yn gwrando ar orsafoedd y BBC. Un o'r heriau allweddol i'r holl ddiwydiant radio yw cynnal y perfformiad hwn a denu gwrandawyr iau. Mae rôl gyhoeddus y BBC yn glir: ysgogi cydweithrediad a phartneriaeth ar draws y sector tra'n ymdrechu i sicrhau bod ein gorsafoedd ein hunain yn nodedig.

### Cynnwys eithriadol

Rydym yn adeiladu gwerth drwy fuddsoddi mewn rhaglennu nodedig ac uchelgeisiol o safon. O addasiad wyth awr BBC Radio 4 o *Life and Fate* gan Vasily Grossman, a ddarlledwyd ym mhob slot drama dros gyfnod o wythnos, *Teen Awards* BBC Radio 1 a oedd yn dathlu arwyr ifanc a oedd wedi cael eu hanghofio o flaen 10,000 o bobl ifanc yn Arena Wembley, cystadleuaeth ysgrifennu *500 Words* BBC Radio 2, i Spirit of Schubert Season ar BBC Radio 3 pan neilltuodd yr orsaf 200 o oriau i waith y cyfansoddwr.


### Twf ac arloesedd digidol

Eleni, daeth BBC 1Xtra yn bedwerydd rhwydwaith digidol y BBC i gyrraedd miliwn o wrandawyr, ac arweiniodd y broses o ailfrandio BBC Radio 7 yn BBC Radio 4 Extra at gynnydd mewn cynulleidfaoedd i 1.6 miliwn yn ystod ail chwarter 2011. Gwnaethom gyrraedd y garreg filltir y cafwyd un biliwn o lawrlwythiadau ar gyfer rhaglenni radio a, gyda 42.6% o bobl yn dweud eu bod yn byw mewn cartref gyda derbynnydd darlledu sain digidol (DAB), mae DAB bellach yn cyfrif am 19% o'r holl oriau gwrando. Mae'r Radioplayer, ein partneriaeth gwrando ar-lein gyda radio masnachol y DU, bellach yn denu saith miliwn o ddefnyddwyr rheolaidd, dim ond blwyddyn ar ôl ei lansio.

### Trawsnewid y sefydliad

Rydym wedi agor mwy o allbwn radio i gystadleuaeth gan gynhyrchwyr annibynnol. Mae targedau arbedion uchelgeisiol ar gyfer prosesau cynhyrchu a rheoli mewnol yn parhau i ysgogi effeithlonrwydd, ac maent wedi helpu i gadw costau fesul awr gwrandawr ar draws y portffolio radio yn ddim ond 1.6c. Mae Radio'r BBC yn parhau yn werth eithriadol am arian.

**Cyrhaeddiad wythnosol radio'r BBC o gymharu â'r gorsafoedd masnachol % 2011/12 (2010/11 mewn cromfachau)**




**81**
Cododd y Mynegai Gwerthfawrogiad Cynulleidfa ar gyfer Radio'r BBC dros 80 am y tro cyntaf erioed

**5.4m**
Roedd 5.4 miliwn o bobl yn defnyddio ein gwefannau radio a cherddoriaeth, y nifer uchaf erioed

# NEWYDDION

**Mae'r cyhoedd yn ystyried mai'r BBC yw'r prif ffynhonnell newyddion cywir, dibynadwy a diduedd. Mae hon yn nodwedd rydym yn ei gwarchod yn ofalus ac ni fyddwn byth yn ei chymryd yn ganiataol. Rydym yn gweithio'n galed i ennill ymddiriedaeth ein cynulleidfaoedd bob dydd.**
Helen Boaden, Cyfarwyddwr, Grŵp Newyddion y BBC



### Cyrraedd pob cynulleidfa

Manteisiodd mwy na 80% o oedolion yn y DU ar newyddion y BBC bob wythnos eleni ar draws teledu, radio ac ar-lein. Parhaodd BBC News i ddenu'r niferoedd uchaf erioed o gynulleidfaoedd, gyda sianel BBC News yn cyrraedd 13.2 miliwn o unigolion ar ddiwrnod y terfysg ar draws Lloegr, gwrandawodd 28.8 miliwn o bobl ar newyddion ar y radio yn ystod ail chwarter 2011, a chynyddodd nifer yr unigolion a ddefnyddiodd wefan BBC News, yn cynnwys BBC World Service, i 39 miliwn yr wythnos ledled y byd.

### Ymddiriedaeth

Mae'r ymddiriedaeth sydd gan ein cynulleidfaoedd ynom yn seiliedig ar ein hymrwymiad parhaus i fod yn hollol ddiduedd, annibynnol, teg a chywir. Er gwaethaf y pwysau ar adnoddau, nod BBC News yw sicrhau mai ef yw'r darparwr newyddion yr ymddiriedir ynddo fwyaf yn y byd; parhau i gyrraedd o leiaf 80% o oedolion ym Mhrydain; a chyrraedd 250 miliwn o bobl ledled y byd. Byddwn yn cyflawni hyn drwy lynu at ein polisi o gyflwyno adroddiadau gan lygad-dystion, dadansoddiadau arbenigol a materion cyfoes ymchwiliol.

### Straeon cofiadwy

Mewn blwyddyn llawn newyddion cofiadwy, gwnaethom roi sylw i'r terfysgoedd ar draws y byd Arabaidd a chwymp Cyrnol Gaddafi. Gwnaethom gyflwyno adroddiadau ar ganlyniadau'r daeargryn a'r tswnami dinistriol yn Japan, marwolaeth Osama Bin Laden, yr ymosodiad gyda drylliau a bomiau yn Norwy a laddodd 77 o bobl, y terfysgoedd yn Lloegr, a marwolaeth arweinydd Gogledd Korea, Kim Jong-il. Arweiniodd ein golygyddion arbenigol ein hadroddiadau ar argyfwng economaidd y byd a'r helyntion yn Ardal yr Ewro. Cynhaliodd *Panorama* ymchwiliad cudd clodwiw i achosion o gam-drin mewn cartref gofal ym Mryste.

### Cydweithio

Dros y pum mlynedd nesaf, ein nod yw creu un gwasanaeth casglu newyddion integredig i'r BBC, gwneud y defnydd gorau o'n newyddiadurwyr ledled y DU a'r byd. Bydd BBC World Service yn uno â BBC News yn 2014, ond yn cadw ei hunaniaeth ei hun. Rydym am rannu cynnwys yn fwy effeithlon ar draws y BBC a buddsoddi mewn newyddiaduraeth nodedig, er mwyn cyrraedd ein targedau o ran arbedion a sicrhau ein bod yn darparu allbwn o'r un safon i'n cynulleidfaoedd gwahanol.

**Cyrhaeddiad wythnosol newyddion parhaus (000oedd)**

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Sianel BBC News | **10,451** | 10,367 |
| Sky News | **6,307** | 6,250 |

Ffynhonnell: BARB, Sylfaen: 4+ oed, cyrhaeddiad tair munud.

**69.2%**
Cyrhaeddodd newyddion y BBC ar y teledu 69.2% o oedolion yn y DU bob wythnos, y lefel uchaf ers 2007

**3m**
Mae mwy na thair miliwn o bobl yn dilyn cyfrif Twitter @BBCBreaking

# CYFRYNGAU'R DYFODOL

**Ein dyhead yw y bydd 2012 yr un mor arwyddocaol i gyfryngau digidol ag yr oedd y Coroni i deledu. Mae'r gwaith rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf wedi ein paratoi i sicrhau hyn.**
Ralph Rivera, Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol



### Un gwasanaeth

Rydym yn uno ein cynhyrchion ar gyfer cynulleidfaoedd i greu un gwasanaeth integredig cryfach. Drwy weithredu fel un gwasanaeth, gallwn greu profiadau newydd ac annisgwyl i gynulleidfaoedd, esblygiad digidol y sianel draddodiadol, sy'n cyflwyno pobl i gynnwys a allai fod yn newydd iddynt. Bydd edrychiad a diwyg ar y cyd yn golygu bod popeth a wnawn yn teimlo'n gyson ac yn hawdd ei ddefnyddio.

### Profiad o'r radd flaenaf ar draws pedair sgrîn

Nid yw ein gwasanaethau digidol bellach wedi'u cysylltu ag un ddyfais unigol, fel cyfrifiadur personol. Yn hytrach, maent ar gael fwyfwy ar bob llwyfan digidol – cyfrifiadur personol, ffôn symudol, tabled a theledu â chysylltiad â'r rhyngrwyd – yn sgil datblygiadau diweddar. Mae nodweddion unigol yr holl ddyfeisiau hyn yn ein galluogi i greu profiadau ardderchog i'n cynulleidfaoedd sy'n diwallu anghenion gwahanol – ble bynnag y bônt a beth bynnag y byddant yn ei wneud. Adlewyrchwyd hyn yn y cynnydd yn ein ffigurau cyrhaeddiad, a gyrhaeddodd uchafbwynt o 43 miliwn o borwyr unigol bob wythnos ar gyfartaledd ym mis Chwefror eleni.

### Ymestyn cyrhaeddiad drwy bartneriaeth

Wrth i'r tirlun cyfryngau digidol esblygu mae nifer gynyddol o ffyrdd o gyrraedd cynulleidfaoedd. Roedd ein cynnwys ar gael ar dros 500 o fodelau gwahanol gan 37 o weithgynhyrchwyr gwahanol yn y DU y llynedd, drwy bartneriaethau â phrif ddarparwyr yn cynnwys Virgin, Xbox ac Apple. Mae'r partneriaethau hyn yn ategu ein hymrwymiad i argaeledd a hygyrchedd eang, tra bod cyhoeddi polisi syndicetio newydd yn sicrhau y gallwn barhau i gael y clod llawn am ein cynnwys.

### Cydweithio ledled y DU

Mae BBC Ar-lein a BBC Red Button yn wasanaethau hollol rwydweithiol: mae chwech o'n deg o gynhyrchion ar-lein bellach wedi'u lleoli yn Salford a thrwy greu sawl rhifyn gallwn adlewyrchu profiadau gwahanol gynulleidfaoedd ledled y DU a'r byd. Drwy gydweithio a chydweithio ag eraill, gallwn sicrhau ein bod yn creu cynnwys gwirioneddol eithriadol, sy'n llawn syniadau creadigol newydd a nodedig.

**43m**
Cyrhaeddodd BBC Ar-lein record o 43 miliwn o borwyr unigol bob wythnos ar gyfartaledd ym mis Chwefror

**191.7m**
Cafwyd 191.7 miliwn o geisiadau am raglenni ar BBC iPlayer ym mis Chwefror – y nifer uchaf erioed

**1.2bn**
Lawrlwythwyd 1.2 biliwn o bodlediadau ledled y byd ers sefydlu'r gwasanaeth bum mlynedd yn ôl


**1.3m**
Anogodd ein hymgyrch *Give an Hour,* sy'n hyrwyddo llythrennedd y cyfryngau, 1.3 miliwn o bobl i gymryd rhan

# Y GWLEDYDD A'R RHANBARTHAU

1


2



3


4


1 Cynhyrchiad BBC West, *The Lark Ascending.*
2 *Watching Ourselves: 60 Years of Television in Scotland*
3 *The Story of Wales.*
4 *6 Degrees.*

## Lloegr

Radio Lleol y BBC yn Lloegr yw un o'r prif ddarparwyr newyddion a newyddiaduraeth wreiddiol ar draws radio, teledu ac ar-lein. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi blaenoriaeth i newyddiaduraeth o safon, er enghraifft *Hot Seat*, sy'n dwyn y sawl mewn awdurdod i gyfrif. Mae ein gohebwyr gwleidyddol newydd wedi bod yn weithredol ar draws radio lleol a thu hwnt, gan ychwanegu manylder i'r adroddiadau. Dros y flwyddyn ddiwethaf ni oedd yn gyfrifol am greu dros hanner straeon newyddion y BBC ar y we. Gwnaethom roi llawer o sylw i'r terfysgoedd a effeithiodd ar ddinasoedd yn Lloegr, gyda thimau o ohebwyr yn gweithio dan yr amgylchiadau anoddaf i roi adroddiad manwl a chywir o ddigwyddiadau i'n cynulleidfaoedd.

## Yr Alban

Denodd allbwn newyddion BBC Scotland ar y teledu rai o'r cynulleidfaoedd uchaf mewn dros ddegawd, ynghyd â'r rhaglen ddogfen *The Scheme*, a ddenodd gynulleidfa o 840,000 ar gyfartaledd a chyfran o 45% o'r gynulleidfa. Parhaodd gwerthfawrogiad y gynulleidfa o *River City* i dyfu. Parhaodd cyrhaeddiad holl fwletinau newyddion BBC Scotland ar y teledu i gynyddu, gyda'r rhaglen *Reporting Scotland* am 6.30pm yn denu rhai o'i chynulleidfaoedd mwyaf dros y degawd diwethaf, a bron i filiwn o wylwyr ar ddiwrnod y stormydd ar 3 Ionawr. Cymeradwyodd Ymddiriedolaeth y BBC strategaeth rhaglenni newydd ar gyfer BBC Radio Scotland ac rydym eisoes wedi dechrau ail-lunio'r amserlenni er mwyn sicrhau bod ei harlwy nodedig yn parhau i fod yn boblogaidd ymysg ei gwrandawyr. Mae dros 500,000 o wylwyr yr wythnos bellach yn gwylio BBC ALBA ar Freeview.

## Cymru

Cyrhaeddodd allbwn Saesneg BBC Wales ar BBC One a BBC Two bron i filiwn o wylwyr bob wythnos. Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd *The Story of Wales*, chwe rhaglen awr o hyd a gyflwynwyd gan Huw Edwards ar 30,000 o flynyddoedd o hanes Cymru. Cafodd y gyfres y sgôr Gwerthfawrogiad Cynulleidfa uchaf ond un (92) o blith holl gyfresi BBC One eleni. Mewn blwyddyn pan gynhaliwyd etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, teithiodd timau newyddion allweddol BBC Radio Wales o amgylch y wlad i archwilio'r materion. Parhaodd newyddion a materion cyfoes i ysgogi allbwn BBC Radio Cymru, gyda rhaglenni fel *Post Cyntaf*, *Taro'r Post*, *Post Prynhawn*, *Dau o'r Bae* a *Manylu* yn rhoi dadansoddiadau a dealltwriaeth gynhwysfawr o straeon o Gymru, y DU ac yn fyd-eang. Denodd ein safleoedd ar-lein 2.38 miliwn o borwyr unigol bob wythnos.

## Gogledd Iwerddon

Parhaodd gwasanaethau BBC Northern Ireland i fod mor boblogaidd a deniadol ag erioed, gyda sawl prosiect drama newydd, darllediadau helaeth o etholiad y Cynulliad ac ymweliad y Frenhines â Gweriniaeth Iwerddon, ac archwilio bywyd yng Ngogledd Iwerddon heddiw drwy gyfresi dogfen a dadleuon. Gwnaethom wella ein sylw ar faterion busnes ac economaidd a gwneud defnydd effeithiol o gyfryngau cymdeithasol i ganfod ffyrdd newydd o gysylltu â'n cynulleidfaoedd a'u cynnwys. Gwnaed sawl newid golygyddol i BBC Radio Ulster/Foyle dros y flwyddyn, yn cynnwys ffocws newydd ar faterion busnes yn *Good Morning Ulster* a bwletinau chwaraeon ychwanegol. Denodd rhifyn wythnosol o *Arts Extra* gan BBC Radio Foyle gynulleidfa ar draws y rhanbarth i ddigwyddiadau celfyddydol a diwylliannol.

### Gwariant ar raglennu teledu rhwydwaith yn ôl rhanbarth fel % o wariant cymwys

| | 2011 | 2010 |
|---|---|---|
| **Llundain** | **59.0%** | 62.2% |
| Yr Alban | **9.0%** | 7.4% |
| Cymru | **5.3%** | 5.0% |
| Gogledd Iwerddon | **2.0%** | 0.8% |
| **Cyfanswm y Gwledydd** | **16.3%** | 13.2% |
| Canolbarth Lloegr | **3.7%** | 3.9% |
| Gogledd Lloegr | **9.4%** | 7.7% |
| De Lloegr | **11.1%** | 13.0% |
| Rhanbarthau lluosog* | **0.5%** | dd/g |
| **Cyfanswm Rhanbarthau Lloegr** | **24.7%** | 24.6% |
| **Cyfanswm y Gwledydd a'r Rhanbarthau** | **41.0%** | 37.8% |
| **Cyfanswm Cyfan** | **100.0%** | 100.0% |

### Oriau allbwn Radio Lleol y BBC a Radio'r Gwledydd

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Llundain | **8,784** | 8,760 |
| Lloegr (ac eithrio Llundain) | **238,725** | 238,461 |
| Yr Alban | **16,179** | 15,917 |
| Cymru | **15,824** | 15,790 |
| Gogledd Iwerddon | **9,310** | 9,285 |
| **Cyfanswm** | **288,822** | 288,213 |

Gwariant ar deledu rhwydwaith yn seiliedig ar ddiffiniadau Ofcom yn ôl blwyddyn galendr.
* Mae rhanbarthau lluosog yn gategori newydd ar gyfer 2011, sy'n cwmpasu rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain ond na ellir eu priodoli i un wlad neu ranbarth.

Mae'r BBC wedi ymrwymo, erbyn 2016, y bydd 50% o wariant ar raglennu teledu rhwydwaith o'r tu allan i Lundain a 17% o'r Gwledydd. Yn ogystal ceir targed dros dro o 12% o'r Gwledydd erbyn 2012 – y mae'r BBC eisoes wedi rhagori arno.




# RHOI EIN STRATEGAETH AR WAITH

Cenhadaeth y BBC yw cyfoethogi bywydau pobl â rhaglenni a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu, a'n gweledigaeth yw mai ni fydd y sefydliad mwyaf creadigol yn y byd. Rydym yn anelu at gyflawni'r nodau hyn ym maes teledu, radio, ar-lein – yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r adran hon yn cyfeirio at y ffordd y gwnaethom gyflawni hyn drwy gydol y flwyddyn.

Un o gyflwynwyr BBC Derby, Phil Trow, yn holi Maer Derby mewn parti stryd ar ddiwrnod y Briodas Frenhinol.

# RHOI EIN STRATEGAETH AR WAITH

## Ym mis Rhagfyr 2010, nododd Ymddiriedolaeth y BBC bedwar prif amcan strategol i'r BBC hyd at 2016:

- gwella natur nodedig ac ansawdd ei allbwn
- gwella'r gwerth am arian a ddarperir i dalwyr ffi'r drwydded
- gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa
- gosod safonau newydd o ran bod yn agored ac yn dryloyw

**DPA**

**Gwella natur nodedig ac ansawdd**

'Argraff gyffredinol o'r BBC'

| | |
|---|---|
| 11/12 | 7.0 |
| 10/11 | 6.8 |

Ffynhonnell: Kantar Media ar ran y BBC. 12,009 o oedolion 16+ oed, blwyddyn ariannol 11/12, argraff gyffredinol; sgôr gymedrig allan o 10 lle roedd 1 = anffafriol iawn a 10 = ffafriol iawn.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn o fewn paramedrau setliad ffi'r drwydded newydd, heriol, mae angen rhaglen sylweddol o newid sefydliadol a diwylliannol. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol gynigion i Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Hydref 2011 o ran sut y dylai'r BBC fynd ati i gyflawni'r amcanion hyn yn yr hirdymor – sef Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf.

Ers hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynigion a chyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei chasgliadau terfynol ym mis Mai 2012. Yn y cyfamser, parhaodd pedwar amcan yr Ymddiriedolaeth wrth wraidd strategaeth y BBC, a cheir adroddiad gennym ar bob un ohonynt isod.

### Natur nodedig ac ansawdd

Cenhadaeth y BBC yw hysbysu, addysgu a diddanu cynulleidfaoedd â rhaglenni a gwasanaethau o ansawdd uchel, gwreiddioldeb a gwerth. Wrth wneud hynny, rhaid i ni hyrwyddo ein pwrpasau cyhoeddus. Mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu i ba raddau rydym yn cyflawni'r pwrpasau cyhoeddus, a beth yn rhagor y mae angen i ni ei wneud, ac yn cyhoeddi crynodeb o'i chanfyddiadau yn Rhan 1 o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Nododd Ymddiriedolaeth y BBC fod cynnal natur nodedig ac ansawdd yn allweddol o ran cyflawni'r pwrpasau. Rydym wedi bod yn anelu at wneud hyn drwy ganolbwyntio ar bum blaenoriaeth olygyddol ar draws ein portffolio gwasanaethau. Ein nod yw darparu:

- y newyddiaduraeth orau yn y byd
- gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth ysbrydoledig
- drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU
- cynnwys eithriadol i blant
- cynnwys sy'n dod â'r gwledydd a chymunedau ynghyd

Canolbwyntio ar y meysydd hyn yw'r ffordd orau i'r BBC ei wneud ei hun yn wahanol i ddarlledwyr eraill a sicrhau allbwn o ansawdd uchel. Nodir rhai o uchafbwyntiau ein hallbwn ymhob maes ar y tudalennau canlynol.

**DPA**

**Gwella natur nodedig ac ansawdd**

Gwerthfawrogiad cyfartalog y gynulleidfa – Teledu

| | |
|---|---|
| 11/12 | 82.6 |
| 10/11 | 81.6 |

Gwerthfawrogiad cyfartalog y gynulleidfa – Radio

| | |
|---|---|
| 11/12 | 80.6 |
| 10/11 | 79.7 |

Gwerthfawrogiad cyfartalog y gynulleidfa – Ar-lein

| | |
|---|---|
| 11/12 | 77.1 |
| 10/11 | 80.5 |

Ffynhonnell: Gwerthfawrogiad cyfartalog y gynulleidfa ar gyfer Teledu a Radio: Pulse, panel o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK ar ran y BBC, sianelau teledu a fesurwyd: BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four a BBC HD.

Ar-lein: Arolwg Ansawdd Ar-lein gan eDigital Research ar ran y BBC.

**DPA**

**Gwella natur nodedig ac ansawdd**

Teledu ffres a newydd y BBC

| | |
|---|---|
| 11/12 | 70.4 |
| 10/11 | 67.8 |

Ffynhonnell: Panel Pulse o 20,000 o oedolion 16+ oed yn y DU gan GfK ar ran y BBC, sianelau teledu a fesurwyd: BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four a BBC HD.

### Asesu natur nodedig ac ansawdd

Rydym yn gofyn yn rheolaidd i gynulleidfaoedd am eu barn ar raglenni a gwasanaethau'r BBC. Mae mynegeion o werthfawrogiad y gynulleidfa yn darparu sgôr gyfartalog allan o 100, gan ddynodi ansawdd ein cynnwys ym marn cynulleidfaoedd. Rydym hefyd yn gofyn i bobl i ba raddau y maent yn credu bod rhaglennu yn 'ffres a newydd', gan roi arwydd arall i ni o natur nodedig y rhaglennu hwnnw.

O ran y ddau fesur allweddol hyn, bu'n flwyddyn gref i'r BBC. Cynyddodd gwerthfawrogiad cyffredinol cyfartalog y gynulleidfa i 82.6 ar gyfer rhaglenni teledu (i fyny o 81.6 yn y flwyddyn flaenorol) ac 80.6 ar gyfer radio (79.7). Cynyddodd y sgôr gyffredinol ar gyfer ystyried bod rhaglenni teledu yn 'ffres a newydd' i 70.4 (67.8), gan adlewyrchu ein ffocws parhaus ar natur nodedig a gwreiddioldeb.

Gostyngodd gwerthfawrogiad cyfartalog y gynulleidfa ar-lein o 80.5 yn 2010/11 i 77.1 eleni yn dilyn nifer o ymdrechion i ail-lansio safleoedd poblogaidd tuag at ddiwedd 2011/12. Gwyddom o brofiad fod sgoriau yn dueddol o ostwng yn dilyn newid ac adfer wrth i gynulleidfaoedd ddod yn gyfarwydd â'r safleoedd newydd.

## Y newyddiaduraeth orau yn y byd

Ar draws teledu, radio ac ar-lein, cyrhaeddodd BBC News dros 80% o boblogaeth y DU bob wythnos. Sianel BBC News yw'r sianel newyddion a gaiff ei gwylio fwyaf yn y DU o hyd, gyda chyrhaeddiad wythnosol cyfartalog o fwy na deg miliwn o wylwyr. *News at Ten* BBC One oedd y bwletin ar gyfer y DU gyfan a gafodd ei wylio fwyaf yn y DU.

Ymhlith darllediadau gwleidyddol y BBC, disodlwyd *The Politics Show* gan *The Sunday Politics*, gyda rhaglenni dewisol ar gyfer gwahanol rannau o'r DU. Dathlodd BBC Parliament ganmlwyddiant Deddf Seneddol 1911 gyda noson o raglenni dogfen a chyfres o ddarlithoedd gan y Llefarydd ar seneddwyr amlycaf yr 20fed ganrif.

Parhaodd *Panorama* i gyflwyno gohebu ymchwiliol cryf, a chynyddodd ei chynulleidfa gyfartalog i dair miliwn. Ymhlith y pynciau rhyngwladol roedd rôl Prydain wrth ddychwelyd ffigyrau'r wrthblaid a oedd yn wynebu artaith i Libya, y gwrthryfel yn Syria a'r achosion o fynd yn groes i hawliau dynol yng ngweithfeydd cloddio diemwntau Zimbabwe. Gartref, datgelodd *Undercover Care: The Abuse Exposed* achosion difrifol o gam-drin mewn ysbyty preswyl preifat, gan arwain at adolygiadau o weithdrefnau. Enillodd dair gwobr y Gymdeithas Deledu Frenhinol (RTS) a chafodd ei henwi fel y Rhaglen Ddogfen Orau yn y Gwobrau Darlledu.

Ar BBC Two, enillodd *Newsnight* wobr RTS fel 'rhaglen newyddion orau'r flwyddyn', ac enillodd ei arbenigwr economeg Paul Mason y wobr ar gyfer y newyddiadurwr arbenigol. Hefyd ar BBC Two, darlledodd *Putin, Russia and the West* gyfweliadau gyda phobl o Rwsia a ffigyrau blaenllaw o bob cwr o'r byd.

Cyrhaeddodd cynulleidfaoedd newyddion a materion cyfoes ar y radio eu lefelau uchaf erioed. Cyrhaeddodd *Today* ar BBC Radio 4 uchafbwynt o 7.2 miliwn o wrandawyr yr wythnos, sef miliwn yn fwy na phum mlynedd yn ôl. Mae ymestyn hyd *The World at One* i 45 munud wedi galluogi BBC Radio 4 i ymateb yn gyflymach i straeon allweddol. Thema *The Reith Lectures* ar BBC Radio 4 oedd 'sicrhau rhyddid', gan ddarparu llwyfan byd-eang i arweinydd gwrthblaid Burma, Aung San Suu Kyi, wneud ei darllediadau cyntaf yn dilyn 15 mlynedd o fod yn gaeth i'w chartref.

Nododd arolwg gwasanaeth Ymddiriedolaeth y BBC o BBC Radio 5 Live fod cynulleidfaoedd o'r farn bod ei raglennu o "ansawdd uchel ac yn nodedig, yn eang, yn ddwfn, yn ffraeth ac yn ddeallus". Un enghraifft o'i ddull gweithredu nodedig o ran ymgysylltu â'i gynulleidfa oedd 'dadl AV' fyw glodwiw i ddangos sut y gallai system bleidleisio newydd weithio.

Roedd gan y gwrthryfel Arabaidd le amlwg o ran darllediadau newyddion byd-eang y BBC. Y BBC oedd yr unig ddarlledwr yn y DU i barhau â phresenoldeb yn Libya drwy gydol y gwrthdaro. Yn ystod y Gwanwyn Arabaidd, cynyddodd gwasanaeth teledu Arabaidd y BBC ei gyrhaeddiad wythnosol amcangyfrifedig o 13.5 miliwn i 24.4 miliwn yn y Dwyrain Canol, ac yn yr Aifft, cynyddodd bedwarplyg i 9.3 miliwn. Llwyddodd BBC Persian i ddyblu ei gyrhaeddiad teledu wythnosol yn Iran, fwy neu lai, i amcangyfrif o chwe miliwn, er gwaethaf ymdrechion parhaus i atal y gwasanaeth.

Cynyddodd BBC World News ei gyrhaeddiad mewn marchnadoedd allweddol, gan achub y blaen ar Euronews yn Ewrop am y tro cyntaf. Ar-lein, mae BBC.com wedi rhagori ar ei darged ar gyfer cyrhaeddiad digidol, ac mae safleoedd BBC World Service wedi cael yr un llwyddiant.

### Uchafbwyntiau perfformiad

Yn ystod blwyddyn lle bu'r cyfryngau o dan y chwyddwydr, mae ymddiriedaeth yn y BBC wedi cynyddu i'w lefel uchaf ers i'r cofnodion cyfredol ddechrau: dywed 67% eu bod yn ymddiried yn y BBC, i fyny o 56% yn 2004. Pan ofynnir i'r cyhoedd enwi'r un darparwr newyddion y maent yn ymddiried ynddo fwyaf, mae wyth gwaith cymaint o bobl (59%) yn dewis y BBC o gymharu â'r darparwr agosaf nesaf. Dywed pobl eu bod yn ymddiried yn newyddion y BBC fwyaf oherwydd ei gywirdeb a'i natur ddiduedd, ansawdd uchel, enw da a'i fod yn cael arian cyhoeddus.



Uwch Ddyn Camera, Fred Scott, gyda milwyr FSA yn Homs, Syria.

### Cynulleidfaoedd cyfartalog i raglenni newyddion 2011/12 miliynau (2010/11 mewn cromfachau)

**Newyddion amser brecwast**
- BBC One 1.5 (1.5)
- ITV1/Daybreak 0.7 (0.7)

**Newyddion amser cinio**
- BBC One 2.6 (2.6)
- ITV1 0.9 (1.0)

**Newyddion rhwydwaith min nos**
- BBC One 4.3 (4.4)
- ITV1 3.2 (3.3)
- Channel 4 0.7 (0.8)
- Channel 5 0.7 (0.7)

**Newyddion rhanbarthol min nos**
- BBC One 5.4 (5.5)
- ITV1 3.2 (3.2)

**Newyddion hwyrnos (10pm)**
- BBC One 4.4 (4.4)
- ITV1 2.2 (2.3)

### Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre
**Newyddion a'r tywydd**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 2,456 | 2,421 |
| BBC Two | 882 | 932 |
| BBC Three | 34 | 32 |
| BBC Four | 6 | 6 |
| Radio | 11,430 | 11,542 |

**Materion cyfoes**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 250 | 224 |
| BBC Two | 273 | 296 |
| BBC Three | 192 | 253 |
| BBC Four | 128 | 150 |
| Radio | 2,120 | 2,164 |

### Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre

**Ffeithiol**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 2,399 | 2,302 |
| BBC Two | 1,888 | 1,786 |
| BBC Three | 1,430 | 1,403 |
| BBC Four | 1,162 | 1,081 |
| Radio | 2,359 | 2,576 |

**Cerddoriaeth a'r celfyddydau**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 98 | 102 |
| BBC Two | 328 | 353 |
| BBC Three | 79 | 70 |
| BBC Four | 1,355 | 1,425 |
| Radio | 41,727 | 41,709 |

**Crefydd**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 102 | 98 |
| BBC Two | 27 | 50 |
| BBC Four | 53 | 37 |
| Radio | 1,211 | 1,181 |

## Gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli

Mewn blwyddyn eithriadol i raglennu ffeithiol, roedd *Frozen Planet* ar BBC One yn nodedig. Cyrhaeddodd y gyfres 28 miliwn o bobl, bron i hanner poblogaeth y DU.

Ar BBC Two, gwnaeth *Stargazing Live* hanes pan ddarganfyddodd un o'r gwylwyr blaned newydd yn ystod y gyfres. Amcangyfrifir bod dros 100,000 o bobl wedi mynychu digwyddiadau ledled y DU a bod mwy na 150,000 o blant wedi cymryd rhan drwy BBC Learning. Llwyddodd *So You Want To Be A Scientist* ar BBC Radio 4 hefyd i annog cynulleidfaoedd i gymryd rhan, gyda gwrandawyr yn llunio eu harbrofion eu hunain.

Cyflwynwyd gwyddoniaeth i gynulleidfa prif ffrwd oriau brig ar BBC One, gyda chyfresi gan gynnwys *Richard Hammond's Journey to the Centre of the Planet*, *Earthflight*, *Nature's Miracle Babies*, *Inside the Human Body* a *Planet Dinosaur*. Darparodd *Horizon Specials* arBBC Two ddarllediadau awdurdodol gan gyflwynwyr pynciau arbenigol gan gynnwys y cwest i ddod o hyd i fosn Higgs.

Ymhlith y darllediadau crefyddol, ystyriodd *The Life of Muhammad*, a gyflwynwyd gan Rageh Omar, berthnasedd stori Muhammad i'r oes sydd ohoni. Ymhlith allbwn arall ar y teledu roedd *The Seven Wonders of Buddhism*, *Jerusalem: The Making of a Holy City* a *Reverse Missionaries*, a ddaeth â chenhadon heddiw o'r Caribî, Asia ac Affrica yn ôl i drefi genedigol y cenhadon gwreiddiol. Ystyriodd *Faith In The World Week* ar BBC Radio 2 sut y mae crefydd yn gwasanaethu merched, a dathlodd *Songs of Praise* ar BBC One ei hannercanmlwyddiant gyda rhaglen arbennig awr o hyd o Alexandra Palace.

Portreadodd amrywiaeth o raglenni dogfen grymus fywyd ym Mhrydain heddiw. Enillodd *Alex: A Life Fast Forward* ar BBC Three am ddyn ifanc 21 oed â chanser yr esgyrn y sgôr gwerthfawrogiad uchaf gan y gynulleidfa o blith holl raglenni'r BBC eleni. Disgrifiwyd *Protecting our Children* arBBC Two, yn dilyn gweithwyr cymdeithasol ym Mryste, fel rhaglen hynod ddadlennol gan The Daily Telegraph. Helpodd prosiect cydweithredol rhwng BBC Three a BBC Learning, *Up for Hire*, bobl ifanc i feithrin mwy o hyder a sgiliau mewn marchnad gyflogaeth anodd. Aeth BBC 1Xtra i'r afael â homoffobia a cherddoriaeth rap yn *No Homo – Hip Hop's Last Taboo*, a rhoddodd gipolwg unigryw ac uniongyrchol ar ddigartrefedd yn *Bored, Broke and Bedless*. Ar CBBC, cyflwynodd *Newsround* raglen arbennig 15 munud o hyd ar gam-drin domestig a'i effaith ar blant.

Fel rhan o *Money Season* uchelgeisiol a chynhwysfawr BBC Two, darlledwyd y rhaglen ddogfen ymchwiliol, *RBS: Inside the Bank That Ran Out of Money*. Yn *Mark Zuckerberg: Inside Facebook*, cafwyd cyfle unigryw i dreiddio i fywyd sylfaenydd Facebook. Yn *Made in Britain*, yn wyneb yr argyfwng economaidd, aeth Evan Davis ati i ddadansoddi peirianwaith allweddol economi'r DU, ac aeth CBBC â phump o blant i ben draw'r byd i weld realaeth bywyd i'r bobl sy'n gwneud eu hoff bethau, yn *Show Me What You're Made Of*.

Yn *The Diamond Queen*, ystyriodd Andrew Marr fywyd a theyrnasiaeth EM Y Frenhines, gan gynnwys cyfweliadau â holl wyrion ac wyresau'r Frenhines a chyda sawl un o'i 12 Prif Weinidog. Hefyd, darlledodd BBC Radio 4 *The Art of Monarchy*, sef cyfres wyth rhan mewn cydweithrediad â'r Casgliad Brenhinol.

Roedd darllediadau hanes ar BBC Radio 4 yn cynnwys *Sport and the British*, cyfres 30 rhan i lansio blwyddyn y Gemau Olympaidd, a'r gyfres nodedig *Russia: The Wild East*, yn croniclo mil o flynyddoedd o hanes Rwsia dros 50 rhifyn. Ar BBC Two, darparodd *Melvyn Bragg on Class and Culture* ystyriaeth ddiddorol o'r pwnc yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Cyflwynodd *Free Thinking Festival* BBC Radio 3 yn Gateshead benwythnos o sgyrsiau, dadleuon a pherfformiadau ysgogol, gan ddarparu uchafbwynt i flwyddyn gyfoethog o allbwn llafar.

Lansiwyd cynllun *The New Generation Thinkers*, i chwilio am y meddylwyr academaidd mwyaf disglair â'r potensial i greu darllediadau diddorol iawn. Cafwyd cerddi newydd gan Andrew Motion yn *Laurels and Donkeys* ar BBC Radio 4, yn seiliedig ar brofiadau milwyr o ryfel o 1914 hyd heddiw. Mae'r



Cyrhaeddodd *Frozen Planet* BBC One bron i hanner poblogaeth y DU.

rhaglen ar y rhestr fer am Wobr Ted Hughes am Waith Barddonol Newydd. Dilynodd *In My Life: Ballet School* ar CBBC ddau frawd o Lerpwl sy'n dwli ar fale, gan ystyried y cyfyng-gyngor a'r heriau roeddent yn eu hwynebu.

Mae gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth yn greiddiol i gylch gwaith BBC Four. Ymhlith y cyfresi nodedig roedd *Regency*, yn ystyried arwyddocâd diwylliannol y cyfnod hwnnw. Cynigiodd EUB Tywysog Cymru gipolwg ar fywyd Hubert Parry, yn *The Prince and the Composer*, adroddodd Simon Russell-Beale hanes y *Symphony* (wedi'i ategu gan allbwn manwl ar BBC Radio 3) a chyflwynodd Benedict Cumberbatch ei frwdfrydedd dros waith Terence Rattigan.

Symudodd Cerddorfa Ffilharmonig y BBC i'w chartref newydd yn Salford Quays a'i nodi gyda phrosiectau cydweithredol eithriadol gan gynnwys *Dubstep Symphony*, a ysgrifennwyd gyda Nero ac a ddarlledwyd ar BBC Radio 1 a BBC 1Xtra, a rhifyn arbennig o *Friday Night Is Music Night* ar BBC Radio 2, gan gynnwys rhai o brif gymeriadau byd y theatr gerddorol.

Llwyddodd *Proms y BBC* i ddenu'r niferoedd uchaf erioed unwaith eto, gyda thros 300,000 o bobl yn mynychu'r cyngherddau, gan gynnwys tua 36,000 a oedd yn dod am y tro cyntaf. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd perfformiad prin o'r gwaith anferthol Havergal Brian Gothic Symphony a noson i ddathlu pen-blwydd Steve Reich yn 75 oed. Darparwyd darllediadau teledu manylder uwch am y tro cyntaf.

Dathlodd BBC 6Music ei dengmlwyddiant ym mis Mawrth gydag wythnos o sesiynau arbennig o stiwdios enwog Maida Vale y BBC.

Rhoddwyd nifer o syniadau arloesol ar waith er mwyn cyflwyno amrywiaeth unigryw'r BBC o gerddoriaeth arbenigol i gynulleidfaoedd newydd. Ar BBC Radio 1, cymerodd Zane Lowe yr awenau ar y sioe frecwast am wythnos, a gwnaeth BBC Radio 2 benderfyniad dewr i ailwampio ei hamserlen yn llwyr ym mis Mehefin ar gyfer *2Day*, gan gynnwys jazz amser brecwast gyda Jamie Cullum a Simon Mayo.

### Uchafbwyntiau perfformiad

Cafwyd perfformiad cryf eleni ym maes teledu ffeithiol. Yn gyffredinol cododd gwerthfawrogiad y gynulleidfa i 83.7 o 82 yn 2010/11. Cafwyd rhai sgoriau uchel iawn ar gyfer rhaglenni unigol. *Alex: A Life Fast Forward* a gofnododd y sgôr uchaf, sef 95. Cyflawnodd *Frozen Planet* y gwerthfawrogiad uchaf gan y gynulleidfa ar gyfer cyfres ar BBC One gyda chyfartaledd o 94 ar gyfer y gyfres a chafodd *The Choir: Military Wives*, ar BBC Two, effaith fawr ar gynulleidfaoedd gyda sgôr gwerthfawrogiad o 91. Ar BBC Radio 2, roedd gan *Sounds of the 60s* gyrhaeddiad wythnosol o 3.6 miliwn. Roedd sgôr gwerthfawrogiad y gynulleidfa o 87 yn uchel ar gyfer rhaglen gerddoriaeth ac roedd 83% o'r gwrandawyr yn cytuno bod y sioe yn un wreiddiol a gwahanol.



Gofynnodd cystadleuaeth BBC Radio 2, *500 Words*, i blant gyflwyno eu straeon eu hunain.

### Drama a chomedi uchelgeisiol

Ymhlith y dramâu a fu'n boblogaidd gyda chynulleidfaoedd eleni roedd *Sherlock*, *Luther* ac, yn fwy diweddar, *Call the Midwife*, a ddatblygodd yn gyflym yn rhaglen na ellid ei cholli ar nos Sul ac yn un o ddramâu mwyaf poblogaidd y BBC erioed. Gwyliodd 9.6 miliwn o bobl yr addasiad hir-ddisgwyliedig o nofel Sebastian Faulks, *Birdsong*.

Bu hefyd yn flwyddyn eithriadol i ddrama ffeithiol, gan gynnwys *The Man Who Crossed Hitler* a *Shirley*, gan lansio'r Mixed Race Season ar BBC Two, a chyfrannodd BBC Four *Holy Flying Circus* a *Taking Manhattan*.

Parhaodd enw da BBC Two am ddrama nodedig o ansawdd uchel, gydag arlwy yn cynnwys *The Hour*, *The Shadow Line* a *The Crimson Petal and the White*. Mae'r sianel hefyd yn gartref i BBC Films, ac ymhlith yr uchafbwyntiau eleni roedd *Page Eight* ac *United* gan David Hare.

Ar BBC Radio 4, uchafbwynt 2011 oedd y cynhyrchiad nodedig o hanes epig Vasily Grossman, *Life and Fate*, wedi'i leoli yng nghyffiniau Brwydr Stalingrad. Roedd Kenneth Branagh, Greta Scacchi a David Tennant ymhlith cast o 67 o actorion, gyda'r addasiad wyth awr o hyd yn cael ei ddarlledu dros gyfnod o wythnos, gan ddefnyddio holl slotiau drama rheolaidd yr orsaf. Dramateiddiwyd clasuron gothig Mervyn Peake hefyd dros chwech awr, yn *The History of Titus Groan*. Parhaodd BBC Four i ddangos ei detholiad o'r ddrama orau o bob rhan o Ewrop, gyda *Borgen* a *The Killing II* yn cymell pobl i wylio ar nos Sadwrn ac yn denu cynulleidfa gynyddol ar gyfer cynnwys drama nodedig ag is-deitlau.

Cynigiwyd nifer o ddramâu i gynulleidfaoedd BBC Radio 3 a oedd yn ystyried themâu anodd, gan gynnwys *Mogadishu* gan Vivienne Franzmann, sef stori gignoeth am hiliaeth mewn ysgol.

**Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre**

**Drama**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 690 | 808 |
| BBC Two | 299 | 283 |
| BBC Three | 291 | 346 |
| BBC Four | 305 | 304 |
| Radio | 4,996 | 4,577 |

**Ffilm**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 446 | 486 |
| BBC Two | 755 | 660 |
| BBC Three | 211 | 224 |
| BBC Four | 121 | 173 |

**Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre**
**Adloniant (gan gynnwys Comedi)**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 709 | 585 |
| BBC Two | 629 | 597 |
| BBC Three | 1,367 | 1,179 |
| BBC Four | 126 | 143 |
| Radio | 8,190 | 7,622 |

Ar BBC Asian Network, rhoddodd cyfres o chwe drama hanner awr o hyd lwyfan i actorion ac awduron Asiaidd yn y DU. Llwyddodd *No Waterfalls in Wembley* i uno bywyd ysgol yn Bollywood a Gogledd Llundain, ac ychwanegodd *Baiju Bawra* elfen gyfoes i'r hanes hynafol o gariad a dialedd.

Darlledwyd y deunydd mwyaf nodedig o blith drama a chomedi radio'r archif ar BBC Radio 4 Extra, a lansiwyd ym mis Ebrill 2011. Gan adeiladu ar lwyddiant BBC Radio 7, cynyddodd ei chynulleidfa'n sylweddol i dros 1.5 miliwn o wrandawyr yr wythnos o fewn tri mis. Ymhlith rhaglennu arbennig ar gyfer Diwrnod y Cadoediad roedd cyfle arall i glywed y rhaglen ddrama ddogfen o 1995 *Bomber*, yn seiliedig ar nofel Len Deighton, wedi'i darlledu fel y gwreiddiol, mewn segmentau yn ystod y dydd.

Y BBC yw'r unig ddarlledwr yn y DU sy'n buddsoddi mewn drama deledu wreiddiol yn ystod y dydd. Dathlodd *32 Brinkburn Street* ganmlwyddiant y cyfrifiad, ac ymhlith comisiynau eraill yn ystod y dydd roedd y gyfres glodwiw *The Indian Doctor*.

Dathlodd y BBC ddau ganmlwyddiant geni Charles Dickens gydag amrywiaeth eang o raglennu. Roedd gan addasiad nodedig o *Great Expectations* a chwblhau *The Mystery of Edwin Drood* ran amlwg yn y cynyrchiadau drama, a chyfrannodd BBC Radio 4 *The Mumbai Chuzzlewits*, a gludodd Dickens i India fodern, ac ailddarlledodd *Arena* ar BBC Four ffilmiau o'r archif. Yn ychwanegol at gyfoeth o raglennu ffeithiol am Dickens a'i gyfnod, darlledwyd y rhaglen gomedi ddychan, *The Bleak Old Shop of Stuff*.

Yn unol â'n strategaeth, o ganlyniad i lai o gyfresi drama a gaffaelwyd yn ystod y dydd ac ar ôl oriau brig, roedd nifer cyffredinol lai o oriau o ddrama ar BBC One eleni. Llwyddwyd i daro cydbwysedd yn ystod yr oriau hynny gan ddefnyddio comedi archif yn bennaf, gan arwain at gynnydd yn nifer yr oriau o adloniant a gofnodwyd. Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer oriau adloniant BBC Three, gyda rhaglennu comedi yn cael ei ailddarlledu ar ôl canol nos.

Mae comedi da yn parhau i fod yn boblogaidd gyda chynulleidfaoedd, yn arbennig pan fo'n adlewyrchu gwaed bywyd ym Mhrydain. Bu'n flwyddyn gref i gomedi ar y teledu, gyda llwyddiant ysgubol *Mrs Brown's Boys* ar BBC One. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill roedd *Rev* a *Twenty Twelve*, yn bwrw golwg ddychanol ar y Gemau Olympaidd sydd ar ddod.

Dychwelodd *Ab Fab* yn llwyddiannus dros y Nadolig, ac roedd teyrnged y BBC i *The Comedy Genius of John Sullivan* hefyd yn boblogaidd tu hwnt gyda chynulleidfaoedd. Fodd bynnag, rydym yn parhau i chwilio am fawrion comedi y dyfodol drwy fuddsoddi mewn talent newydd a fformatau newydd. Llwyddodd *Kevin Bridges: What's The Story?* ar BBC One i gyfuno perfformiad a deunydd dogfen i ddatgelu'r ysbrydoliaeth a oedd yn sail i rywfaint o'i ddeunydd llwyfan. Gwnaeth *Watson & Oliver* eu cyfres gyntaf ar y teledu i BBC Two.



Dychwelodd *Luther*, gydag Idris Elba, i BBC One am ail gyfres.

Am y tro cyntaf, daeth y BBC cyfan, ar deledu, radio ac ar-lein, ynghyd yng Ngŵyl Caeredin mewn lleoliad 'parod' a grewyd gan BBC Comedy. Yn ystod cyfnod o bythefnos, daeth tua 100 o oriau o radio a 200 o oriau o deledu a chynnwys BBC Red Button o'r safle, gan amrywio o *BBC Radio 1's Fun and Filth Cabaret* i *Unbelievable Truth* gan BBC Radio 4 a chyflwynodd *BBC Three Live @ the Fringe* wynebau newydd ochr yn ochr ag artistiaid mwy sefydledig.

Ar BBC Radio 4, dathlodd *Just a Minute* ei ben-blwydd yn 45 oed drwy deithio i Mumbai i recordio dau rifyn, gyda chomediwyr Indiaidd yn ymuno â'r panelwyr arferol. Mae'r sioe mor boblogaidd yn India fel bod clybiau lleol wedi ymsefydlu, lle caiff y gem ei chwarae'n frwd. *Mark Watson's Live Address to the Nation* oedd cyfres gomedi fyw gyntaf yr orsaf, ac ymhlith y rhaglenni newydd eraill roedd y sioe ddychan *Tonight* a *Polyoaks*, sef comedi sefyllfa am y GIG.

Mae'r *BBC Radio 2 New Comedy Awards* yn darparu llwyfan i gomediwyr newydd gorau'r DU. Mae gan BBC Radio 4 Extra hefyd gylch gwaith sy'n cynnwys cyflwyno talent newydd. Mae *The Comedy Club*, a gaiff ei darlledu chwe noson yr wythnos, yn proffilio comedi cyfoes ac yn cyflwyno talent comedi newydd am y tro cyntaf. Mae gan y gyfres gyfoes, *Newsjack*, bolisi drws agored sy'n rhoi'r cyfle i unrhyw awdur sgriptiau addawol gyflwyno sgetsys, gan arwain at rai o raglenni dychan mwyaf gwreiddiol y flwyddyn.



**Uchafbwyntiau perfformiad**

*Call the Midwife* oedd y ddrama fwyaf llwyddiannus a lansiwyd erioed ar BBC One gyda'r rhifyn cyntaf yn denu cynulleidfa o 9.8 miliwn a chyfartaledd o 10.6 miliwn ar gyfer y gyfres gyfan. Dychwelodd *Sherlock* gyda chynulleidfa o 10.2 miliwn a sgôr gwerthfawrogiad y gynulleidfa o 89, y ddau yn uwch na'r tymor diwethaf.

Cynyddodd gwerthfawrogiad y gynulleidfa o ddramâu BBC Two ac felly hefyd asesiadau'r gynulleidfa o natur nodedig y dramâu hynny.

Cafodd *The Shadow Line* sgôr gwerthfawrogiad o 86 gan y gynulleidfa, ac roedd 45% o'r gwylwyr yn 'cytuno'n gryf' ei fod yn 'ffres a newydd'.

Cafodd dramâu Ewropeaidd BBC Four effaith fawr ar gynulleidfaoedd, ac enillodd y caffaeliad o Ddenmarc *The Killing II* sgôr uchaf BBC Four o ran gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer y flwyddyn, sef 92.

O ran comedi, cafodd *Mrs Brown's Boys* y sgôr gwerthfawrogiad uchaf ar gofnod ar gyfer comedi BBC One (90), gyda chynulleidfa o saith miliwn ar gyfer yr ail gyfres, i fyny o 3.8 miliwn ar gyfer y gyfres gyntaf.



**Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre**
**Plant**

| Sianel | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 471 | 459 |
| BBC Two | 1,788 | 1,736 |
| CBBC | 4,374 | 4,398 |
| CBeebies | 4,512 | 4,514 |
| Radio | 379 | 1,460 |

**Ysgolion/Addysg Ffurfiol**

| Sianel | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC Two | 189 | 198 |
| BBC Four | 5 | 6 |
| CBeebies | 226 | 214 |
| Radio | 104 | 104 |

### Cynnwys eithriadol i blant

Aeth rhaglennu i blant o nerth i nerth, ar draws yr amrywiaeth gyfan o raglennu ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc. O raglenni cyfoes ac allbwn ffeithiol i ddrama wreiddiol, mae gan y BBC amrywiaeth ddigyffelyb o genres a fformatau a dyfnder ansawdd rhaglennu i blant.

Yn ogystal â'r *Horrible Histories* hynod boblogaidd, cyflwynwyd y gyfres o raglenni dogfen *My Life* ar CBBC a'r rhaglen byd natur *Andy's Wild Adventures* ar CBeebies. Ymhlith drama newydd i blant roedd *Postcode* gan Tony Marchant, a ystyriodd themâu yn ymwneud â gwahaniaethau dosbarth a diwylliant, tlodi a chyfle, a *Leonardo*, yn dilyn anturiaethau Leonardo da Vinci yn Fflorens yn y 15fed ganrif.

Mae cynnwys dysgu yn greiddiol i CBeebies. Rhoddodd y gyfres wedi'i hanimeiddio *Numtums* sail i blant ifanc ar gyfer rhifedd sylfaenol wedi'i gyflwyno mewn fformat doniol, llawn hwyl ac egni. Nod *The Lingo Show*, a ddechreuodd ar-lein, oedd cyflwyno plant i eirfa syml yn Ffrangeg, Sbaeneg a Mandarin. Dychwelodd *Nina and the Neurons* gyda *Brilliant Bodies*, gan ateb cwestiynau gan blant eu hunain am eu cyrff a sut maent yn gweithio.

Ar CBBC, yn *The Ministry of Curious Stuff*, defnyddiodd Vic Reeves ei frand hiwmor unigryw i ateb cwestiynau plant fel "A ddaw deinosoriaid yn ôl byth?" Yn llawn gwybodaeth a chamwybodaeth, daeth â chomedi i'r byd ffeithiol.

Gan lansio dyfodiad CBeebies i'w gartref newydd yn Salford, llwyddodd *Justin's House* i ddiddanu cynulleidfa theatr fyw o blant 3 i 6 oed gyda chymysgedd ar ffurf panto o ganu, dawnsio a chomedi.

Mae plant yn parhau i gael eu denu i ddrama ar ein sianelau i'r teulu, gan gynnwys *Doctor Who* a *Merlin*. Ymhlith y comisiynau arbennig dros y Nadolig roedd *The Gruffalo's Child*, a wyliwyd gan 7.6 miliwn, a *The Borrowers*, addasiad ffilm 90 munud o hyd o glasuron Mary Norton i blant. Cyflwynwyd comisiynau arbennig i blant ochr yn ochr â rhai o brif lwyddiannau prif ffrwd y flwyddyn, fel *Stargazing Live* a *The Great British Bake Off*.

Mae *The 4 O'Clock Show* ar BBC Radio 4 Extra yn cynnwys straeon ac eitemau nodwedd y gall plant ac oedolion eu mwynhau, wedi'u hamserlennu ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *Roald Dahl Month* ym mis Medi. Fel rhan o *Family Classics* ar brynhawn dydd Sul, cafwyd cynyrchiadau newydd gan gynnwys *The Silver Sword* a *Chitty Chitty Bang Bang*.

Gwahoddodd y gystadleuaeth *500 Words* ar BBC Radio 2 blant 13 oed neu'n iau i ysgrifennu straeon, a darlledodd Chris Evans ei sioe brecwast yn fyw o Ŵyl y Gelli ym mis Mehefin er mwyn cyhoeddi'r enillwyr. Rhoddodd *Doctor Who – Script to Screen* gyfle i blant ysgol gynradd ysgrifennu eu hanturiaethau bach eu hunain, a defnyddiodd miloedd o ysgolion adnoddau ysgrifennu creadigol BBC Learning mewn perthynas â'r gystadleuaeth hon.

Yn olaf, ar ôl darlledu ers 53 o flynyddoedd ar BBC One, ail-lansiwyd *Blue Peter* yn llwyddiannus mewn slot oriau brig newydd ar sianel CBBC ym mis Ionawr 2012 gan lwyddo i fwy na dyblu ei chynulleidfa o blant 6-12 oed.




Rhoddodd y gyfres *My Life* ar CBBC gipolwg ar fywydau plant ledled y DU.

### Uchafbwyntiau perfformiad

Sianelau'r BBC i blant yw'r sianelau mwyaf poblogaidd yn y DU i blant o dan 12 oed erbyn hyn. Caiff CBeebies ei gwylio gan dua hanner y plant o dan 6 oed bob wythnos, a CBBC gan fwy nag 1.8 miliwn o blant 6-12 oed.

Cyrhaeddodd panto CBeebies, *Strictly Cinderella*, 603,000 o wylwyr ifanc a chyfanswm cynulleidfa o 1.2 miliwn ar CBeebies, gan ddenu 733,000 o geisiadau ar BBC iPlayer. Cyflawnodd gwefan CBeebies y sgôr uchaf o ran gwerthfawrogiad y gynulleidfa ar gyfer unrhyw un o safleoedd y BBC ar-lein, gyda sgôr o 87.

Ar CBBC, denodd cyfres olaf *Sarah Jane Adventures* gynulleidfaoedd uchel a chyfran uwch na'r gyfres flaenorol, gan gyrraedd uchafbwynt o 330,000 o blant. Roedd *Tracy Beaker Returns* yn llwyddiant ysgubol, gyda chynulleidfaoedd yn cyrraedd uchafbwynt o 442,000, sef y gynulleidfa fwyaf erioed ar gyfer rhaglen CBBC. Cafwyd dros 1.1 miliwn o geisiadau ar BBC iPlayer ar gyfer un rhifyn.

## Cynnwys sy'n dod â'r gwledydd a chymunedau ynghyd

Mae'r BBC yn parhau'n rhywle lle y daw cynulleidfaoedd at ei gilydd i fwynhau digwyddiadau mawr.

Yn ddi-au, uchafbwynt y flwyddyn oedd y Briodas Frenhinol, a gwyliodd bron i 35 miliwn o bobl yn y DU rywfaint o ddarllediadau'r BBC o'r diwrnod mawr. Mae darllediadau o ddigwyddiadau blynyddol fel y seremoni goffa wrth y Gofadail ar Sul y Cofio hefyd yn boblogaidd iawn.

Mae digwyddiadau cerddoriaeth yn denu cynulleidfaoedd mawr ar draws allbwn y BBC. Roedd y rhan fwyaf o'r darllediadau o Ŵyl Glastonbury ar BBC 6Music, gyda thua 50 awr o ddarllediadau byw, a gwyliodd tua thraean o boblogaeth y DU rywfaint o'r darllediadau ar y teledu.

Llwyddodd digwyddiadau *The Proms in The Park* ledled y DU i gynyddu effaith *Last Night of the Proms*. Darlledwyd o *T in the Park* yn yr Alban a Gwyliau Reading a Leeds hefyd, yn ogystal â llawer o wyliau llai gan gynnwys y *Green Man Festival* ym Mannau Brycheiniog ar BBC Radio 1 a cherddoriaeth fyw o'r *Cheltenham Jazz Festival* ar BBC Radio 2. Helpodd BBC Asian Network i gynnal chwe Mela mawr yn ystod yr haf.

Mae'r BBC hefyd yn gartref i raglenni teledu poblogaidd a ddaw yn rhan o'r sgwrs genedlaethol, o *Strictly Come Dancing* i *The Choir: Military Wives*.

Eleni, cafodd apêl Plant mewn Angen ei blwyddyn orau erioed, gan godi £26miliwn ar y noson a chan ddenu cynulleidfa fwy cyn 10pm na'r saith mlynedd blaenorol. Cafodd Sport Relief hefyd flwyddyn eithriadol, gan godi £50.5miliwn ar y noson. Gwnaeth David Walliams, John Bishop a Helen Skelton gampau anhygoel, a ledled y wlad, cymerodd ymhell dros filiwn o bobl ran yn rhedeg y filltir.

Erys chwaraeon yn greiddiol i allbwn y BBC, ar bob llwyfan. Mae'r digwyddiadau chwaraeon mwyaf yn denu cynulleidfaoedd enfawr, gan ddarparu achlysuron dramatig sy'n dod â'r gwledydd ynghyd. Mae pŵer y BBC o ran denu cynulleidfaoedd mawr i chwaraeon yn amlwg yn y ffaith bod 40% o'r holl chwaraeon a gaiff ei wylio yn cael ei wylio ar y BBC er gwaethaf y ffaith mai dim ond 2% o'r holl allbwn chwaraeon ar y teledu yn y DU a ddarlledir ar y BBC.

Cafwyd uchafbwynt o dros naw miliwn yng nghynulleidfa Wimbledon a mwy nag wyth miliwn ar gyfer Pencampwriaeth y Chwe Gwlad a Grand Prix cyffrous F1 yng Nghanada. Gwyliodd dros hanner y boblogaeth wylio rywfaint o ddarllediadau *Match of the Day*.

Ym mlwyddyn fwyaf erioed Prydain o ran chwaraeon, erys portffolio'r BBC o hawliau chwaraeon yn gryf. Eleni, gwnaethom ymestyn ein cytundebau ar gyfer Wimbledon a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad hyd at 2017 a'n cytundeb hawliau radio ar gyfer criced Lloegr hyd at 2019. Mewn partneriaeth ag ITV, gwnaethom gaffael yr hawliau i Bencampwriaeth Pêl-droed UEFA 2012. Gwnaethom adnewyddu ein cytundeb F1 drwy ymrwymo i bartneriaeth â Sky, lle y bydd y BBC yn dangos hanner yr holl rasys grand prix yn fyw, gydag uchafbwyntiau estynedig o'r rasys eraill. Mae hyn yn werth ardderchog am arian, ac yn sicrhau bod F1 yn parhau am ddim i'w ddarlledu am y saith mlynedd nesaf o leiaf.

**Oriau allbwn rhwydwaith y BBC yn ôl genre**
**Chwaraeon**

| | 11/12 | 10/11 |
|---|---|---|
| BBC One | 580 | 697 |
| BBC Two | 763 | 965 |
| BBC Three | 30 | 101 |
| BBC Four | 2 | 1 |
| Radio | 4,230 | 4,832 |

### Uchafbwyntiau perfformiad

Dewisodd 74% o'r gynulleidfa ddarllediadau'r BBC o seremoni'r Briodas Frenhinol ac enillodd y darllediadau wobr BAFTA.

O ran chwaraeon, rhannwyd Meistri'r UD gyda Sky am y tro cyntaf gan ddenu cynulleidfa oriau brig uwch i'r BBC (3.9 miliwn) nag a wnaeth yn y 11 mlynedd diwethaf.

Cyrhaeddodd BBC Radio 5 Live Sports Extra ei chynulleidfaoedd uchaf erioed eleni, gydag uchafbwynt o dros 1.15 miliwn o wrandawyr, gan olygu mai dyma'r bedwaredd orsaf radio ddigidol fwyaf poblogaidd yn y DU.

Dychwelodd *Strictly Come Dancing* gyda chyfartaledd trawiadol o 11 miliwn o wylwyr ar gyfer y gyfres a sgor gwerthfawrogiad uch o 84 gan y gynulleidfa.

Cyrhaeddodd *Big Weekend* BBC Radio 1 5.3 miliwn o bobl ar y teledu, i fyny o 2.9 miliwn yn y flwyddyn flaenorol, ac ar BBC Three, perfformiad Lady Gaga yn yr wyl oedd y digwyddiad cerddoriaeth â'r cyrhaeddiad mwyaf erioed a ddarlledwyd ar y sianel.



## Gwerth am arian

Mae'r BBC yn dechrau ar un o'r cyfnodau mwyaf heriol yn ei hanes, gan ymdrin â'r ffaith bod ffi'r drwydded wedi'i rhewi tan fis Rhagfyr 2016 tra'n ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol newydd: gweithgareddau ychwanegol BBC World Service sy'n gysylltiedig â darlledu, BBC Monitoring, partneriaeth estynedig ag S4C a chymorth ar gyfer gwasanaethau teledu lleol newydd a'r broses o gyflwyno band eang. Yn 2014/15, amcangyfrifir y bydd y rhwymedigaethau newydd hyn ar eu pen eu hunain yn ychwanegu £388miliwn at sail costau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded. Rydym yn benderfynol o ymateb i'r her ariannol hon tra'n cynnal neu'n gwella perfformiad cyffredinol a gwerthfawrogiad y gynulleidfa o ran gwasanaethau'r BBC.

2011/12 oedd blwyddyn olaf ond un rhaglen cynhyrchiant Gwelliant Parhaus y BBC, a gyflwynwyd ar ôl setliad ffi'r drwydded 2007, i wneud arbedion effeithlonrwydd o 3% bob blwyddyn dros gyfnod o bum mlynedd. Erbyn diwedd y llynedd, mae'r arbedion effeithlonrwydd cronedig yn agos at £1.5biliwn, sy'n cyfateb i 3.6% bob blwyddyn, ac rydym ar y trywydd cywir i gyflawni £2biliwn o arbedion erbyn diwedd y rhaglen.

Gwnaed yr arbedion yn bennaf drwy welliannau i'r ffordd y mae'r BBC yn gweithredu, drwy roi newidiadau technolegol ar waith neu drwy wneud dewisiadau buddsoddi gwahanol. Mae'r BBC wedi parhau i wneud y canlynol:

- lleihau costau drwy gyflwyno ffyrdd newydd o weithio
- lleihau costau casglu ffi'r drwydded
- sicrhau'r refeniw masnachol mwyaf o fewn y ffiniau a bennir gan Ymddiriedolaeth y BBC
- gwneud llai o bethau'n well o fewn meysydd cynnwys, heb leihau ansawdd
- lleihau bil cyflog yr uwch reolwyr 25%, gyda gostyngiad o 20% yn nifer yr uwch reolwyr
- lleihau costau talent wrth negodi contractau newydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cost gyffredinol amcangyfrifedig gwasanaethau teledu a radio'r BBC fesul awr defnyddiwr wedi gostwng o 4.3c i 4.0c, yn bennaf o ganlyniad i wariant is a gwell cyrhaeddiad o ran teledu. Parhaodd cost radio fesul awr gwrandawr yn sefydlog ar 1.6c, ac mae'r gost ar-lein fesul defnyddiwr a gyrhaeddir wedi gwella i 6.1c o 8.5c.

### Dangos gwerth am arian

Un ffordd y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn cyflawni ei dyletswydd i sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth am arian yw drwy gomisiynu cyfres o adolygiadau gwerth am arian annibynnol bob blwyddyn gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO).

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth y BBC adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ystyried cynnydd y BBC hyd yn hyn wrth gyflawni ei gyfradd darged o ran arbedion effeithlonrwydd. Daeth yr adroddiad i'r casgliad canlynol: *"The BBC is delivering value for money from its efficiency programme in that it is on track to exceed its target of delivering £487million sustainable, cash releasing net savings by 2012/13, whilst its overall performance in terms of audience measures has not declined. The efficiency programme is therefore proving a clear success in the terms set for it."*

Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd y canlynol, gan gyfeirio at drefniadau'r BBC ar gyfer rheoli ei swyddogaethau cymorth: *"the BBC has reduced the costs of most of its support functions over the last five years and plans to make further savings. Its current approach to challenging the cost of its support functions is broadly effective in improving value for money."*

Bydd y BBC yn gweithredu argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o'r ddau adroddiad yn llawn.

### Lledaenu gwerth y tu allan i'r BBC

Cred y BBC fod dyfodol darlledu cyhoeddus yn y DU yn dibynnu ar gymuned greadigol fywiog yn y DU. Hebddi, byddai amrywiaeth, ansawdd a lluosogrwydd presennol darllediadau, cynnwys a gwasanaethau cyhoeddus yn y DU yn amhosibl i'w cynnal. Caiff cyfran helaeth o ffi'r drwydded ei gwario y tu allan i'r BBC, ar gynhyrchwyr annibynnol, talent, cyflenwyr, gweithwyr llawrydd a chynyrchiadau.

Dros y blynyddoedd, ac wedi'i hybu gan y cwota o 25%, mae'r sector teledu annibynnol wedi cynyddu o ran maint ac o ran hyder. Heddiw mae'n gyfrifol am ddarparu rhai o'r rhaglenni a gaiff eu gwerthfawrogi fwyaf yn y DU, fel *Earthflight*, *Call the Midwife* a *Birdsong*.

Mae'r BBC yn gweithredu ei Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (WoCC) ychwanegol ei hun, gan gynyddu ymhellach y cyfleoedd i gwmniau annibynnol gael eu comisiynu ar gyfer adloniant, comedi, drama, allbwn ffeithiol ac allbwn i blant. Gellir gweld perfformiad yn erbyn y WoCC teledu yn *Performance Against Public Commitments* yn yr adran lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport.

O ran radio, mae'r BBC yn gweithredu cwota gwirfoddol o sicrhau bod 10% o raglennu radio cymwys fesul oriau darlledu gan gynhyrchwyr radio allanol, ac mae bellach wedi rhoi WoCC ar waith ar gyfer y farchnad rhaglenni radio, gan gynnig yr oriau rhaglennu sydd ar gael i gynhyrchwyr annibynnol 10% arall o bosibl ar draws rhwydweithiau cenedlaethol y BBC. Rhoddwyd y gorau hefyd i'r rhestr cyflenwyr dewisol er mwyn sicrhau bod y syniadau gorau yn cael eu darlledu, ni waeth pwy sy'n eu cynnig.

Yn gyffredinol eleni, comisiynodd y BBC 42% ac 19% o'r cynnwys teledu a radio cymwys, yn y drefn honno, gan gynhyrchwyr allanol.



## Gwasanaethu pob cynulleidfa

Mae'r ffaith bod ffi'r drwydded yn berthnasol i bawb yn golygu hefyd fod rhwymedigaeth arnom i geisio darparu gwasanaethau a gaiff eu gwerthfawrogi gan bawb yn y DU, yn ogystal â cheisio darparu holl wasanaethau'r BBC, a'r un ansawdd o ran gwasanaethau, i bob rhan o'r gynulleidfa.

Bob wythnos, mae'r BBC yn cyrraedd bron i 96% o boblogaeth y DU ac ar gyfartaledd mae pob un o'r defnyddwyr hynny yn treulio bron i 19 awr gyda'r BBC.

Ein strategaeth barhaus yw ceisio gwella i ba raddau y mae gwasanaethau'r BBC yn diwallu anghenion pobl ymhob un o wledydd a rhanbarthau'r DU ac o bob grŵp oedran a chymuned wahanol. Yn arbennig, rhaid i ni sicrhau ein bod yn adlewyrchu natur ddatganoledig llywodraeth y DU yn well, yn ogystal â chymeriad nodedig ei rhannau unigol.

Dylai gwasanaethau'r BBC fod ar gael i bob cartref yn y DU sydd am eu cael. Un o bwrpasau'r BBC yw cyflwyno buddiannau technolegau newydd i bob cynulleidfa. Felly rhaid i'r BBC geisio sicrhau bod gan bob cartref fynediad cyfleus i bob gwasanaeth perthnasol, a'u bod am ddim i'w defnyddio. Rhaid iddo wneud hynny mewn ffordd sy'n diogelu llwybrau agored, hawdd a hygyrch i gynnwys y BBC; sy'n cynnal llwyfannau o ansawdd sydd am ddim i'w darlledu; sy'n cynrychioli gwerth am arian; sy'n sicrhau safonau ansawdd sylfaenol, dulliau priodoli brand ac amlygrwydd priodol; sy'n bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol; ac sy'n dechnegol ymarferol.

### Gwasanaethu gwahanol gynulleidfaoedd

Nodir y prif elfennau o ran sut mae'r BBC wedi gwasanaethu cynulleidfaoedd ledled gwahanol wledydd a rhanbarthau'r DU yn yr adran Trosolwg.

Ar draws ei bortffolio o wasanaethau ar gyfer y DU gyfan, mae'r BBC wedi gwella ei apêl i rai cynulleidfaoedd penodol yn sylweddol. Cynyddodd nifer gwrandawyr BBC Asian Network ymhlith Asiaid Prydeinig, gan wrthdroi tuedd blaenorol ar i lawr. Cynyddodd BBC 1Xtra hefyd ei chyrhaeddiad, i fyny o 6.1% i 7.4% o'i chynulleidfa darged, sef pobl ifanc 15–24 oed.

O ran allbwn newyddion a materion cyfoes yn benodol, rydym wedi anelu at dargedu cynulleidfaoedd amrywiol. Ymhlith llwyddiannau gyda chynulleidfaoedd ifancach roedd *A Dangerous Place to Meet My Family* ar BBC Three, lle aeth Moslem Prydeinig ifanc yn ôl i'r Yemen, a *So What If My Baby Is Born Like Me?*, rhaglen ddogfen am gyflyrau a gaiff eu hetifeddu, ac fel rhan o *Toughest Place To Be* ar BBC Two, aed â gweithwyr o Brydain i weld sut y caiff eu swyddi eu gwneud mewn gwledydd datblygol, gan amlygu materion yn ymwneud â thlodi a chaledi.

Ar BBC Radio 1, mae *Newsbeat* wedi defnyddio Facebook a Twitter i fesur ymatebion ar unwaith i straeon newyddion. Mae 'timau stryd Twitter' o wrandawyr ifanc yn darparu deunydd sain, fideo a chopi ar gyfer y rhaglen. Mae gwaith y lluoedd arfog hefyd wedi cael sylw rheolaidd ar *Newsbeat*, gan fod llawer o'r rheini sy'n gwasanaethu o fewn cynulleidfa darged yr orsaf felly bydd rhai gwrandawyr yn uniaethu'n bersonol â'u straeon.

**DPA**

**Gwella natur nodedig ac ansawdd**

Yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o chwaethau

| | |
|---|---|
| Blwyddyn ariannol 11/12 | 7.1 |
| Blwyddyn ariannol 10/11 | 7.0 |

Tach 2010 – Mawrth 2011 / Ffynhonnell: Kantar Media ar ran y BBC, 12,009 o oedolion 16+ oed blwyddyn ariannol 11/12, sgôr gymedrig allan o 10 lle mai 1 = anghytuno'n gryf a 10 = cytuno'n gryf â datganiad: 'Mae'r BBC yn darparu ar gyfer amrywiaeth eang o chwaethau'.

**DPA**

**Gwneud mwy i wasanaethu pob cynulleidfa**

Cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog (%)

| | |
|---|---|
| Blwyddyn ariannol 11/12 | 95.7 |
| Blwyddyn ariannol 10/11 | 96.8 |

Amser a dreuliwyd fesul defnyddiwr ar gyfartaledd (oriau:munudau)

| | |
|---|---|
| Blwyddyn ariannol 11/12 | 18.48 |
| Blwyddyn ariannol 10/11 | 19.08 |

Ffynhonnell: Arolwg Cross-Media Insight (CMI) gan GfK ar ran y BBC, tua 33,800 o ymatebion, oedolion 16+ oed.

Caiff materion sy'n effeithio ar gymunedau Asiaidd y DU eu hadlewyrchu yn yr *Asian Network Reports*, gyda dwy raglen 30 munud o hyd bob dydd o'r wythnos. Ymchwiliodd rhifynnau arbennig o'r sioe i boblogrwydd cynyddol Cyfraith Sharia yn y DU gan ystyried pam bod rhai merched Asiaidd Prydeinig yn brwydro er mwyn cael eu gwaddol yn ôl, sy'n nodweddiadol o'r newyddiaduraeth wreiddiol y mae'r rhwydwaith yn ei chynnig i'w gynulleidfa.

### Portreadu DU amrywiol

Eleni cafwyd cynnydd cadarnhaol o ran adlewyrchu'r amrywiaeth pobl, lleoedd a bywydau ledled y DU. Ymhlith yr enghreifftiau o'r Alban a ddarlledwyd ledled y DU mae *Case Histories* a *Young James Herriot*, *Rab C Nesbitt* a *Kevin Bridges: What's the Story?*

Trosglwyddodd *The Story of Ireland* o BBC Northern Ireland i BBC Two, ac adlewyrchodd *The Indian Doctor*, *Torchwood* a *Being Human* oll fywyd yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi gwella ein portread o Ogledd Lloegr drwy ddramâu fel *Prisoners' Wives*, rhaglenni ffeithiol gan gynnwys *Junior Doctors*, a chomedïau fel *White Van Man* ac *In With The Flynns*.

Rydym yn parhau i ddatblygu talent ledled y DU, ac rydym wedi comisiynu sioeau newydd eleni i Kevin Bridges, John Bishop a Sarah Millican, yn ogystal â thalent sefydledig fel Graham Norton, Rob Brydon a Dara O'Briain.



Mae BBC Asian Network yn darlledu yn Saesneg yn ogystal ag yn ieithoedd De Asia. Cyflwynydd: Zarina Khan.

Fodd bynnag, mae portreadu amrywiaeth yn golygu mwy i'r BBC nag adlewyrchu rhannau gwahanol y DU. Er enghraifft, ar BBC Radio 4 dathlodd *In Touch* ei hanner canmlwyddiant gyda sioe arbennig yn dathlu cyflawniadau pobl ddall. Daeth Peter White ag amrywiaeth o bobl dalentog a oedd yn ddall neu yr oedd nam ar eu golwg ynghyd o fyd cerddoriaeth, gwleidyddiaeth ac adloniant ar gyfer noson gofiadwy yn Theatr Radio'r BBC yn Llundain.

### Cyflenwi rhaglenni rhwydwaith

Mae teledu rhwydwaith wedi parhau i roi'r strategaeth cyflenwi'r rhwydwaith ar waith, gan gynhyrchu mwy o gynnwys yng ngwledydd a rhanbarthau'r DU y tu allan i Lundain, gyda'r rhaglen gyffredinol yn cael ei chyflawni yn gyflymach na'r disgwyl.

Yn dilyn agor MediaCityUK, mae *Blue Peter, Newsround, Dragons' Den, Match of the Day* a *Sports Personality of the Year* ymhlith y rhaglenni sydd bellach yn cael eu cynhyrchu o Salford. Dyma hefyd gartref Canolfan Chwaraeon newydd y BBC.

Eleni hefyd, trosglwyddwyd y broses o gynhyrchu *Casualty* i Gymru a *Question Time* i'r Alban yn llwyddiannus, ac ailgomisiynwyd *Sunday Morning Live* yng Ngogledd Iwerddon.

O ganlyniad i dwf pellach o ran busnes, llwyddwyd i ddarparu amrywiaeth eang o deitlau gan y tair gwlad, gan dimau mewnol a chan dimau cynhyrchu annibynnol. Ymhlith yr uchafbwyntiau mae:

- yng Nghymru, *Sherlock* a *Merlin*, gydag ail gyfres o *Upstairs Downstairs* yn cael ei ffilmio yn stiwdios newydd Porth y Rhath
- yn yr Alban, *Terry Pratchett: Choosing to Die* a *Richard Hammond's Journey to the Bottom of the Ocean*, yn ogystal ag allbwn celfyddydol rheolaidd gan *The Review Show, Culture Show* ac *Imagine*
- yng Ngogledd Iwerddon, *Atlantis*, *Hominid*, *Digging for Britain*, *Hidden* a *Secret Fortune*, yn ogystal â rhifynnau rheolaidd o *Panorama*

Mae cynlluniau bellach ar waith i atgyfnerthu ffocws creadigol canolfannau cynhyrchu rhwydwaith ledled y DU ymhellach, er mwyn helpu i gynnal ecolegau lleol ac atgyfnerthu cynaliadwyedd creadigol wrth i ni symud ymlaen i ail gam y strategaeth rhwng nawr a 2016.

Disgwylir rhagori ar dargedau'r BBC o sicrhau bod 17% o raglenni rhwydwaith yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a bod 50% yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain erbyn 2016 erbyn diwedd cyfnod y Siarter. Yn 2011, roedd 16.3% o raglenni yn cael eu gwneud yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a chyfanswm o 41% y tu allan i Lundain. I gael rhagor o fanylion, gweler y tabl ar dudalen 2-12.

## Newid i ddigidol

Bu'r broses o newid i deledu digidol yn her aruthrol ond cynigiodd hefyd gyfleoedd newydd i sicrhau bod y BBC yn cyrraedd ac yn gwasanaethu holl dalwyr ffi'r drwydded.

Mae Digital UK Limited – y mae'r BBC a darlledwyr cyhoeddus a thrwyddedeion amlbleth digidol eraill yn y DU yn berchen arno ac yn ei ariannu – wedi parhau i gydweithio'n agos â DCMS ac Ofcom i gwblhau'r broses o newid. Mae hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant a grwpiau eraill â diddordeb, ac yn helpu i sicrhau bod gwylwyr yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd, a beth y mae angen iddynt ei wneud. Mae'n gyfrifol am gydgysylltu a chynllunio'r broses dechnegol o gyflwyno'r rhwydwaith daearol digidol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, troswyd bron i 12 miliwn o gartrefi i ddigidol. Newidiodd gwylwyr yn yr Alban, Swydd Efrog, Canolbarth Lloegr a Dwyrain Anglia, gyda llawer yn cael gwasanaethau Freeview (gan gynnwys HD) am y tro cyntaf.

Erbyn diwedd 2011/12, roedd y DU bron i dri chwarter o'r ffordd drwy'r broses newid o ran poblogaeth, ac yn 2012, caiff gweddill y DU ei newid yn llwyr i deledu digidol.

Drwy ein his-gwmni o dan berchenogaeth lwyr, DSHS Limited, mae'r BBC yn cynnig help ymarferol i filiynau o wylwyr hŷn ac anabl o ran sut y gallant barhau i wylio'r rhaglenni a'r gwasanaethau sy'n bwysig iddynt ar ôl newid i ddigidol. Mae'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol wedi cwblhau dros filiwn o osodiadau digidol, ac mae lefelau boddhad cwsmeriaid wedi parhau'n uchel: rhoddodd 93% o gwsmeriaid o leiaf wyth allan o ddeg i'r Cynllun, ac rydym ond wedi cael cwynion mewn perthynas â llai na 0.4% o'r gosodiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol, ewch i www.helpscheme.co.uk neu i gael cyngor ffoniwch Rhadffon 0800 40 85 900.

## DAB

Daeth 50 o drosglwyddyddion DAB cenedlaethol newydd i wasanaeth gan y BBC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent wedi galluogi miliwn o bobl i gael gwasanaethau DAB am y tro cyntaf ac wedi sicrhau bod darllediadau DAB dibynadwy bellach ar gael i fwy na 93% o boblogaeth y DU.

## Gwelliannau o ran cwmpas gwasanaethau eraill

O ganlyniad i uwchraddio rhwydwaith trosglwyddyddion BBC Radio Wales, mae 210,000 o bobl ychwanegol yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Chymoedd Gwent yn gallu cael darllediadau FM am y tro cyntaf. Lansiodd y sianel deledu Gaeleg, BBC ALBA, ar Freeview a chebl Virgin Media yn yr Alban, ac ategwyd hyn drwy roi lle amlwg i'r sianel mewn rhestrau sianelau a chanllawiau rhaglenni ar y sgrîn, gan gadarnhau ymrwymiad y BBC i ddarparu gwasanaethau i gynulleidfa mor eang â phosibl.




Symudodd BBC Radio 5 Live i MediaCityUK gyda'r rhaglenni cyntaf yn darlledu o'u cartref newydd ddiwedd 2011.



Ym mis Mawrth 2012 ymwelodd y Frenhines â Salford i agor canolfan y BBC yn MediaCityUK yn swyddogol.

## Bod yn agored ac yn dryloyw

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r amcan hwn eleni, gan gyhoeddi mwy o ddata a gwybodaeth nag erioed o'r blaen.

Ymhlith y wybodaeth newydd rydym yn ei darparu nawr mae:

- cynllun gwaith blynyddol yn nodi manylion amcanion y BBC ar gyfer y flwyddyn i ddod, unrhyw ddatblygiadau gwasanaeth nodedig neu fuddsoddiadau arfaethedig a chrynodeb o'r gyllideb
- amrywiaeth llawer ehangach o wybodaeth chwarterol, gan gynnwys data cynulleidfa ar gyfer gwasanaethau'r BBC ac asesiadau ansawdd cynulleidfaoedd
- data estynedig wedi'i symleiddio am gyflog a threuliau uwch reolwyr y BBC
- costau talent wedi'u dadansoddi'n ffigurau gwariant cronedig

Mae'r BBC hefyd wedi cymryd rhan mewn mwy o drafodaethau gyda'r diwydiant am ei weithgareddau a'i gynlluniau. Yn nodedig, mae BBC Ar-lein wedi cynnal mwy o drafodaethau agored gyda phartneriaid a chyflenwyr, gyda dwy sesiwn friffio yn cael eu cynnal i'r diwydiant ym mis Mehefin a mis Tachwedd 2011. Yn y sesiynau, hysbyswyd cynrychiolwyr y diwydiant am strategaeth BBC Ar-lein a'i gynllun gwaith blynyddol a rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am hynt cynhyrchion allweddol fel TViPlayer a chwaraeon. Cafodd y sesiynau eu recordio ar fideo a'u cyhoeddi ar flog BBC Internet.

Drwy gydol y flwyddyn, bu'r BBC hefyd yn cynnal trafodaeth agored gyda'i staff a'r cyhoedd amdano'i hun, ei werthoedd a'i weithrediadau, drwy'r broses Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf.

Mae'r holl wybodaeth hon ar gael yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/.



Dychwelodd y gyfres gomedi *Twenty Twelve* i'r BBC am ail gyfres wrth i'r tîm baratoi ar gyfer y Gemau Olympaidd.



# RHEOLI'R BUSNES

Mae'r BBC yn gyfrifol am gyflawni ei bwrpasau cyhoeddus ar draws amrywiaeth eang o wasanaethau a gweithgareddau, ac mae hon yn dasg anodd i'w rheoli. Yn yr adran hon, dangoswn sut rydym yn rheoli gweithgareddau corfforaethol a gweithredol y sefydliad, a hynny mewn cydweithrediad â'n staff a phartneriaid allanol.

Rhaglennu ffeithiol y BBC: cyflwynwyd *Frozen Planet* gan Syr David Attenborough.

# AROLWG Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDU

**Rôl y Grŵp Gweithrediadau yw helpu'r BBC i wneud newidiadau trawsnewidiol – boed hynny o ran technoleg, strategaeth, eiddo neu ein pobl, neu o ran deall cynulleidfaoedd. Yn ogystal â hynny mae'n cefnogi gweddill y sefydliad drwy ddarparu gwasanaeth effeithlon o'r radd flaenaf, a gweithredu ei gynlluniau ei hun i sicrhau gostyngiad o 25% yn y rhan fwyaf o'i gostau.**



**Grŵp Gweithrediadau**
Ar ôl creu un Grŵp Gweithrediadau ar ddechrau 2011, rydym wedi gweithio yn ystod y flwyddyn i ddarparu cymorth symlach a mwy effeithlon i weddill y sefydliad. Gan fanteisio ar y synergeddau rhwng adrannau, gallwn bellach gynnig gwasanaeth mwy cydgysylltiedig, boed hynny gyda Thechnoleg a'r Gweithle yn cydgysylltu'r gwaith o symud i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd neu gyda'r adrannau Polisi Golygyddol a Golygyddol Cyfreithiol yn darparu cyngor cydymffurfiaeth ar y cyd.

Ochr yn ochr ag arwain y rhaglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, mae Gweithrediadau wedi datblygu a bellach wedi dechrau gweithredu ei gynllun arbedion ei hun i dorri 25% o'i gostau nad ydynt yn ymwneud â chytundebau. Cyflawnir y targedau arbed hyn erbyn gwanwyn 2013. Erbyn hynny, amcangyfrifwn y bydd tua 300 o swyddi wedi mynd. Yn ogystal, mae Gweithrediadau hefyd yn chwilio am gyfleoedd i wneud arbedion ar ei gontractau mawr.

Ochr yn ochr â'r holl newid hwn, rydym yn dal i ganolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth a gwerthfawrogiad i'r BBC yn uniongyrchol a thrwy weithio gyda grwpiau allbynnau i ddifyrru cynulleidfaoedd. Darparwn dechnoleg arloesol, gwasanaethau a chyngor o ansawdd sy'n llywio ac yn cefnogi nodau strategol y BBC yn ogystal â'n galluogi i barhau i ddarlledu.

**Partneriaethau a phrosiectau**
Mae Gweithrediadau yn gyfrifol am holl gontractau a phrosiectau mawr y BBC, gan gynnwys y gwaith o symud i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd yn Llundain a ddechreuodd o ddifrif yn gynnar eleni, a bellach mae sawl un o'n gwasanaethau byd-eang yn darlledu'n fyw o'r adeilad hwnnw. Mae hyn yn ein galluogi i leihau ein hôl-troed eiddo yng nghanol Llundain yn sylweddol, yn ogystal â symud BBC World Service yn agosach yn ffisegol i'n gwasanaethau domestig. Yn Salford, mae cam cyntaf y broses symud bellach wedi'i gwblhau, gydag amrywiaeth eang o allbwn o CBeebies a BBC Radio 5 Live i BBC Breakfast yn dod o MediaCityUK.

Dros y flwyddyn rydym wedi gweithio gyda'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill i gyflawni ein cynllun ar gyfer teledu daearol digidol. Rydym wedi cadw at yr amserlen o ran y newid i ddigidol, a bellach mae 90% o'r wlad yn gwbl ddigidol. Mae'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol bellach wedi rhoi cymorth i fwy nag 1.2 miliwn o bobl, gan sicrhau y gallant barhau i fwynhau eu gwasanaethau teledu yn ddi-dor.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar y partneriaethau a sefydlwyd gennym dros y blynyddoedd diwethaf, gyda Phartneriaeth Anchor ym Mryste yn arwain at ddarlledu gŵyl *More Than Words* BBC Radio 4 yn fyw o'r ddinas ym mis Mawrth ynghyd â chysylltiadau llawer agosach rhwng y BBC a'r gymuned leol. Gobeithiwn sefydlu partneriaeth greadigol debyg yn Birmingham yn 2012.

Rwyf hefyd yn falch o lansiad diweddar 'The Space', sef prosiect ar y cyd ag Arts Council England, i wneud y gorau o'r haf godidog o gelfyddydau sy'n gysylltiedig â'r Jiwbilî a'r Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, ar gynifer o sgriniau â phosibl. Gyda'n partneriaid byddwn yn arddangos toreth o gelf newydd a byddwn yn rhoi mynediad i lawer o bethau eraill, gan gynnwys rhai o ddigwyddiadau Llundain 2012.

Ond ni allwn laesu dwylo. Gan edrych i'r dyfodol, mae gennym heriau ariannol sylweddol i'w hateb o hyd, prosiectau mawr i'w cyflawni yn ogystal â sicrhau ein bod yn aros yn agos at ein cynulleidfaoedd. Mae 2012 yn argoeli i fod yn flwyddyn hanesyddol i'r DU a gwn y bydd y BBC yn chwarae rhan hollbwysig i alluogi'r wlad gyfan i rannu'r cyffro hwnnw.

**Caroline Thomson**
**Prif Swyddog Gweithredu**
21 Mehefin 2012

# CYDWEITHIO

**Mae'r BBC yn sefydliad cymhleth sydd â gweithrediadau ledled y byd a ledled y DU. Blaenoriaeth allweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fydd symleiddio'r Gorfforaeth fel y gall staff gydweithio'n fwy effeithiol ac fel y gellir cynyddu gwerth allbwn y BBC i'r eithaf ar draws llwyfannau a gwasanaethau.**

## Staff

Y flwyddyn hon, rydym wedi canolbwyntio ar wneud y newidiadau sefydliadol angenrheidiol i gyflawni targedau arbedion Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf ac ar barhau i ddatblygu diwylliant sy'n annog ein cyflogeion i roi o'u gorau.

Arweinyddiaeth dda, trefniadau rheoli perfformiad cadarn a chynnig teg i'n staff yw'r elfennau craidd sy'n sail i'n newidiadau sefydliadol. Mae ein harweinwyr a'n rheolwyr yn y BBC yn hanfodol er mwyn gwneud newidiadau trawsnewidiol llwyddiannus. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, ymgysylltwyd â rhwydwaith helaeth o arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel o fewn y sefydliad er mwyn helpu i gydgynllunio newid ar draws y BBC a rhoi'r newid hwnnw ar waith yn effeithiol.

### Datblygu talent

Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar weithlu creadigol, medrus a thalentog – pobl sydd â'r cymhelliant i ddarparu'r cynnwys gorau posibl i'n cynulleidfaoedd. Yr her i ni y flwyddyn hon oedd creu amgylchedd lle gall talent ffynnu a datblygu, o fewn cyfyngiadau ariannol y BBC.

Rydym yn ymrwymedig i nodi a datblygu ein talent fewnol, yn ogystal â denu'r dalent orau bosibl o'r farchnad allanol. Llwyddwyd i recriwtio 71% o uwch reolwyr drwy ddyrchafiadau mewnol, o gymharu â tharged o 70%. Rydym wedi lansio adnodd rheoli gyrfa ar-lein, a ategir gan gyfres o weithdai, sy'n galluogi cyflogeion ar bob lefel i nodi a rheoli eu dyheadau gyrfaol ac yn annog mwy o symudedd ar draws y DU.

Rhydd Llundain 2012 gyfle gwych i ni greu cysylltiad ac etifeddiaeth barhaol â chynulleidfaoedd, a chanolbwyntio ar sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i'r rhai a allai fod wedi ei chael yn anodd – neu nad oeddent wedi ystyried – cael gwaith yn y cyfryngau fel arall.

O dan Gynllun Prentisiaeth 2012 y BBC, sydd ar waith yn Llundain ac yn Glasgow am yr ail flwyddyn, recriwtiwyd 20 o brentisiaid o gefndiroedd amrywiol erbyn diwedd Mawrth 2012. Mae'r rhain yn gweithio yn y BBC a chyda'n partneriaid yn y sector cynhyrchu annibynnol.

Recriwtiodd Cynllun Prentisiaeth Llundain 11 o ymgeiswyr newydd yn Ebrill 2012, a bydd y cynllun yn parhau am o leiaf blwyddyn arall, gan gynnig nifer fawr o leoedd yn adran Cynyrchiadau Gwasanaethau Gweledol y BBC. Mae cynlluniau i recriwtio tri grŵp arall yn yr Alban i baratoi ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn 2014. Mae'r Cynllun wedi llwyddo ac wedi ennill cryn gydnabyddiaeth, gyda 70% o'r prentisiaid blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn yn Llundain yn llwyddo i gael swydd berthnasol yn y BBC neu'r diwydiant ehangach.

Mae'r BBC hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdeistrefi lle cynhelir y Gemau Olympaidd i ddarparu lleoliadau profiad gwaith i drigolion lleol, tra bod Cynllun Newyddiadurwyr Cymunedol 2012, sydd ar waith yng nghanolfannau'r BBC ledled y DU, yn darparu hyfforddiant a phrofiad i wirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn meithrin sgiliau newyddiadurol.

Mae symud i MediaCityUK yn Salford Quays hefyd wedi arwain at gyfleoedd i ddatblygu staff presennol a gweithio gyda chyrff lleol i helpu pobl i feithrin sgiliau. Rydym wedi denu 22 o bobl i'n Cynllun Prentisiaeth Digidol yng Ngogledd Lloegr, sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant a datblygiad. Mae agor y Pentref Drama ym Mhorth y Rhath, Caerdydd hefyd wedi rhoi cyfle i feithrin sgiliau allweddol yn y farchnad allanol a chynigiwyd contractau 12 mis i ddeg prentis mewn rolau cynhyrchu a chrefft ym mis Ionawr 2012.

### Cynnig teg i staff

Ein huchelgais yw datblygu cynnig cytundebau newydd i staff sy'n gyson â'r farchnad ddarlledu ac sy'n darparu mwy o werth i'r sefydliad a chynulleidfaoedd. Eleni aethom ati i nodi hyd a lled yr uchelgais hwn: diwygio ein fframwaith cyflogau a graddio a chysoni ein telerau dileu swyddi a diswyddo er mwyn iddynt fod yn debycach i'r rhai yn y diwydiant.

Mae'n anochel y bydd newid telerau ac amodau'r gweithlu yn heriol. Felly rydym wedi annog staff i gyfrannu'n uniongyrchol at drafodaeth agored am gost a pherthnasedd rhai o'n hamodau craidd. Cynhaliwyd 120 o seminarau gennym eleni, gan gyrraedd dros 2,000 o staff, er mwyn ystyried opsiynau cyflog a lwfans amgen.

Bydd gwaith i gynllunio a gweithredu ein telerau newydd yn parhau drwy gydol 2012/13.

## GWEITHREDIADAU PARHAD

Ym mhob rhan o'r sefydliad, mae newidiadau a gynlluniwyd yn lleol wedi sicrhau gweithrediadau a ffyrdd mwy effeithlon o weithio gan arwain, mewn sawl achos, at leihau swyddi a dileu swyddi. Er bod gennym gydberthnasau adeiladol ag undebau ar y cyfan, mae graddau'r newidiadau hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y diwrnodau a gollwyd drwy weithredu diwydiannol. Cafwyd tua 11 o ddiwrnodau o streicio i gyd gyda dau ohonynt yn streiciau ar draws y BBC gan aelodau o'r NUJ a'r gweddill yn weithredu mwy lleol.

Roedd sicrhau setliad cyflog cytûn yn 2011 mewn hinsawdd economaidd anodd yn her fawr. Mae llawer o dalwyr ffi'r drwydded heb gael unrhyw godiadau cyflog ac wedi colli eu swyddi ac mae angen i ninnau hefyd reoli cyflogau'n effeithiol o fewn ein cyfyngiadau ariannol.

O dan ein cynnig cyflog yn 2011, cynyddodd cyflogau 2% i'r rhai sy'n ennill llai na £60,000, a hynny'n dilyn sawl blwyddyn o setliadau anodd yn cynnwys cynnydd islaw lefel chwyddiant sydd wedi lleihau cyflogau mewn termau real, yn enwedig i'r rhai ar gyflogau uchel. Dros y tair blynedd diwethaf rydym wedi ceisio canolbwyntio buddiannau ein cyllideb gyflogau gyfyngedig ar staff ar gyflogau is.

Bydd y flwyddyn nesaf yn heriol hefyd, wrth i ni weithredu ein cynlluniau i arbed £700miliwn y flwyddyn erbyn 2016/17.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr uwch reolwyr a'u bil cyflogau, gyda'r naill yn gostwng 156 (24%) a'r llall yn gostwng £21miliwn (27%) ers mis Awst 2009. Mae cyflogau uwch reolwyr sy'n ennill dros £150,000 wedi gostwng 19% ac rydym wedi sicrhau gostyngiad o 10% yng nghyflogau newydd cyfartalog pob uwch reolwr. Bwriadwn gael gwared ar 70 o swyddi eraill o fewn y gweithlu rheoli uwch erbyn 2015, ac rydym am weld gostyngiad o £9miliwn arall yn y bil cyflogau. Rydym wedi gwneud arbedion pellach drwy beidio â chynnig yswiriant iechyd preifat na lwfansau ceir i uwch reolwyr newydd o fis Awst 2011 a mis Ebrill 2012 yn y drefn honno. Ni thelir taliadau bonws ar gyfer y graddau hyn hyd y gellir rhagweld chwaith.

### Niferoedd staffio

Fel y dengys y tabl, mae nifer gyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn o flwyddyn i flwyddyn wedi lleihau 384 ers y flwyddyn ddiwethaf, o 17,242 i 16,858, gan adlewyrchu effaith gychwynnol mentrau Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf. Bu'r gostyngiadau adrannol mwyaf yn yr Adran Gyllid (12.3%) a Gwasanaethau Gweledol (12.2%). Mae llawer o'r gostyngiadau wedi digwydd mewn timau gweinyddol a chynorthwyol, sydd wedi ein galluogi i ganolbwyntio gwariant ffi'r drwydded ar gynnwys ac allbwn a lleihau gorbenion. Mae'r ffigurau dosbarthiad staff rhanbarthol yn adlewyrchu'r ffaith bod staff wedi cael eu hadleoli o Lundain i Salford Quays.

### Cyfanswm staff Darlledu Cyhoeddus cyfartalog (cyfwerth ag amser llawn)

| | |
|---|---|
| Diwedd y flwyddyn 2005/06 | 18,860 |
| Diwedd y flwyddyn 2006/07 | 17,914 |
| Diwedd y flwyddyn 2007/08 | 17,677 |
| Diwedd y flwyddyn 2008/09 | 17,078 |
| Diwedd y flwyddyn 2009/10 | 17,238 |
| Diwedd y flwyddyn 2010/11 | 17,242 |
| Diwedd y flwyddyn 2011/12 | 16,858 |

### Staff Darlledu Cyhoeddus y DU yn ôl Gwlad (cyfwerth ag amser llawn) %

| | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| Lloegr (heb gynnwys Llundain) | 33 | 25 |
| Llundain | 48 | 55 |
| Yr Alban | 7 | 8 |
| Cymru | 8 | 8 |
| Gogledd Iwerddon | 4 | 4 |

### Nifer yr uwch reolwyr yn ôl band cyflog

| Band | 2011/12 | 2010/11 |
|---|---|---|
| O dan £70,000 | 30 | 41 |
| £70,000-£99,999 | 192 | 230 |
| £100,000-£129,999 | 114 | 128 |
| £130,000-£159,999 | 70 | 77 |
| £160,000-£189,999 | 29 | 28 |
| £190,000-£219,999 | 18 | 20 |
| £220,000-£249,999 | 5 | 7 |
| £250,000-£279,999 | 6 | 4 |
| £280,000-£309,999 | 2 | 2 |
| £310,000-£339,999 | 3 | 3 |
| £340,000-£369,999 | 0 | 0 |
| £370,000-£399,999 | 1 | 0 |
| Cyfanswm* | 470 | 540 |

Mae ffigurau 2011/12 yn adlewyrchu'r ffaith bod Cyfarwyddwr BBC North a Chyfarwyddwr BBC People wedi symud oddi ar y Bwrdd Gweithredol i'r grŵp uwch reolwyr.

* Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

## Amrywiaeth

Mae amrywiaeth yn y gweithlu yn rhoi cyfle i sicrhau bod y BBC yn fwy gwreiddiol a nodedig ac yn ysgogi creadigrwydd ac arloesedd.

Mae cysylltu â'n cynulleidfaoedd amrywiol a gwrando arnynt yn hanfodol i'n gwaith. Llywiwyd ein Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, *Everyone has a Story* (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011), yn helaeth gan waith ymchwil ac ymgynghori. Mae'n nodi ein gweledigaeth a'n hamcanion craidd o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Ym mis Ionawr 2012, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Gwybodaeth blynyddol cyntaf ar Gydraddoldeb, *Telling our Story*, sy'n ymgorffori ein hymrwymiad sylfaenol i wasanaethu ac adlewyrchu holl gynulleidfaoedd y DU drwy ein rhaglenni ac ym mhob rhan o'n gweithlu. Mae'n dangos y cynnydd a wneir yn erbyn ein strategaeth a sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau newydd o dan ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, er enghraifft, drwy gynnal rhaglen o ddadansoddiadau cydraddoldeb i'n helpu i asesu a rheoli goblygiadau cydraddoldeb ar ein penderfyniadau.

Mae targedau penodol o ran y gweithlu yn canolbwyntio ein hymdrechion ar wella amrywiaeth ein gweithlu, ond edrychwn y tu hwnt i'r rhain hefyd er mwyn deall proffil ein gweithlu a cheisio adlewyrchu Prydain fodern. Yn ein cyfrifiad staff yn 2011, darparodd 54% o staff ddata personol ar ethnigrwydd ac anabledd yn wirfoddol.

Mae 49% o gyfanswm gweithlu'r BBC yn ferched, a 37% o'r uwch reolwyr yn ferched. Mae'r ddau ffigur hwn yn sefydlog o un flwyddyn i'r llall. Mae nifer y staff a nododd eu bod yn anabl wedi gostwng 0.5% ond wedi cynyddu 0.3% ymhlith uwch reolwyr. Mae canran y staff sy'n bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn weddol sefydlog ar 12.3% ond mae wedi cynyddu 0.8% i 6.8% ymhlith uwch reolwyr. Mae'r nifer fwyaf (36%) o gyflogeion rhwng 30 a 39 oed, ac mae'r nifer fwyaf o uwch reolwyr (44%) rhwng 40 a 49 oed.

Mae'r BBC yn parhau i gadeirio'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN). Ym mis Rhagfyr 2011 cynhaliwyd ein trydedd Seremoni Wobrwyo Amrywiaeth flynyddol yn MediaCityUK, Salford, i ddathlu a gwobrwyo talent greadigol ac amrywiol a mentrau sydd wedi llwyddo i hyrwyddo amrywiaeth. Yn 2011, llwyddodd Cynllun Uwch Fentora CDN i ddarparu hyfforddiant a chymorth mentora wedi'i deilwra i 34 o weithwyr proffesiynol sy'n anabl neu o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Rydym wedi trefnu digwyddiadau rhwydweithio ac arddangos talent amrywiol ac wedi cyhoeddi ymchwil ar y ffordd y caiff oedran ei bortreadu yn y cyfryngau.

Un maes pwysig i ganolbwyntio arno yn 2012/13 fydd gweithio i atal y gostyngiad yn nifer y staff anabl, gan adeiladu ar weithgarwch sydd eisoes yn mynd rhagddo i wella mynediad y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol amrywiol i'r BBC ac arwain y CDN i rannu a chymhwyso arfer gorau er mwyn sicrhau mwy o amrywiaeth o ran y rhywiau ac oedran ar yr awyr. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: www.bbc.co.uk/diversity.

### Amrywiaeth: canran o gyfanswm y staff

| | Targed (erbyn diwedd 2012) | **Gwirioneddol (Mawrth 2012)** | Newid pwynt % o flwyddyn i flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 12.5 | **12.3** | +0.1 |
| Uwch reolwyr, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | 7.0 | **6.8** | +0.8 |
| Staff anabl | 5.5 | **3.6** | -0.5 |
| Uwch reolwyr, staff anabl | 4.5 | **3.3** | +0.3 |

## Academi'r BBC

Blaenoriaeth bwysicaf yr Academi yw sicrhau bod staff sy'n adleoli i Salford a'r Ganolfan Ddarlledu Newydd yn meddu ar y sgiliau i sicrhau proses bontio esmwyth. I gyflawni hyn, bu'n rhaid cynnal rhaglenni hyfforddiant ar raddfa fawr ar dechnoleg newydd, ffyrdd newydd o weithio a chydweithredu. Darparwyd rhaglenni hyfforddi o fewn yr amserlen a'r gyllideb, ac mae 7,200 o unigolion wedi cael hyfforddiant hyd yma. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar werth yr hyfforddiant.

Mae'r Academi wedi canolbwyntio hefyd ar hyfforddiant 'ymasio', sy'n cyfuno sgiliau golygyddol a thechnegol, gan annog gwaith cydweithredol sy'n torri'r seilos traddodiadol. Mae'r BBC yn arwain y ffordd yn y math hwn o hyfforddiant, rhywbeth y tynnodd adroddiad Cyngor y Diwydiannau Creadigol sylw ato fel bwlch sgiliau allweddol ar draws y sector.

Fel rhan o'r rhaglen ymasio, darparwyd hyfforddiant ar 'ddarlledu cysylltiedig'. Mae hyn yn galluogi'r BBC i ddatblygu straeon mwy cymhellol a chyrraedd cynulleidfaoedd drwy'r llwyfannau o'u dewis.

Bu meithrin sgiliau ym mhob rhan o'r gweithlu symudol yn flaenoriaeth fawr. Hyd yma, mae'r Academi wedi trefnu a chynnal dau ddigwyddiad hyfforddi *Fast Train* i weithwyr llawrydd (ar gyfer teledu a radio), mewn partneriaeth â Skillset, cyrff masnachu a darparwyr hyfforddiant masnachol. Mae'r rhain wedi cyrraedd dros 700 o weithwyr llawrydd gyda hyfforddiant rhagflas am ddim a'r rhain yw'r digwyddiadau mwyaf o'u bath i'w llwyfannu ar draws y diwydiant o gryn dipyn. Cafwyd adborth ardderchog gan gyfranogwyr a phartneriaid.

Mae partneriaeth yr Academi ag Arts Council England, *Building Digital Capacity for the Arts*, wedi darparu seminarau a gweithdai rhannu sgiliau i 350 o sefydliadau celfyddydol, gan gydnabod yr angen am hyfforddiant sy'n helpu i ddarparu cynnwys celfyddydol gwreiddiol o ansawdd uchel yn y gofod digidol.

# GWEITHREDIADAU
## PARHAD




### Adleoli

#### BBC North

Cwblhawyd y broses o symud BBC North i MediaCityUK yn Salford Quays ar amser ac o dan y gyllideb, ymdrech a fu'n rhan bwysig o gyflawni ymrwymiad y BBC i ddatblygu diwydiant y cyfryngau yng Ngogledd Lloegr.

Mae dros 2,300 o staff bellach yn gweithio yno, gan gynnwys staff BBC i Blant, Chwaraeon, BBC Radio 5 Live, BBC Learning, BBC Breakfast a rhai o dimau Cyfryngau'r Dyfodol. Symudodd staff a oedd eisoes ym Manceinion, gan gynnwys Cerddorfa Ffilharmonig y BBC, y tîm Crefydd a Moeseg a *North West Tonight* i ymuno â nhw hefyd yn safle newydd MediaCityUK.

Mae tua dwy ran o dair o weithlu MediaCityUK yn staff a oedd eisoes yn gweithio i'r BBC a adleolodd o Lundain neu ein hadeilad yn Oxford Road, Manceinion, ac mae traean ohonynt yn recriwtiaid newydd, llawer ohonynt o Fanceinion Fwyaf neu ranbarth Gogledd-orllewin Lloegr.

Mae BBC North yn anelu at arwain y ffordd o ran hyfforddi a datblygu talent leol ac adeiladu ar y cymysgedd cyfoethog o sgiliau a phrofiad yng Ngogledd Lloegr, gan weithio gyda cholegau a phrifysgolion i hyfforddi a datblygu gweithlu i'r dyfodol.

#### Y Ganolfan Ddarlledu Newydd

Eleni dechreuwyd ar y gwaith sylweddol o symud tua 4,500 o staff o bob rhan o'r BBC i'n hadeilad newydd sbon, sef y Ganolfan Ddarlledu Newydd, yn Llundain W1.

Ers mis Ionawr 2012, mae bron 800 o gyflogeion wedi symud i'r adeilad newydd, gan gynnwys timau o Global News, a'r adrannau Technoleg a Sain a Cherddoriaeth, ynghyd â phartneriaid allanol. Llwyddodd adran Burma i ddarlledu'r allbwn byw cyntaf o'r adeilad newydd ar 11 Mawrth 2012 ac mae holl adain De Asia o'r World Service wedi symud bellach, ynghyd â'r gwasanaethau ieithoedd Ewropeaidd, BBC Brazil a BBC Mundo. Dros y 18 mis nesaf bydd BBC World Service a'r adran Sain a Cherddoriaeth yn symud yn ogystal â'r gwasanaeth Newyddion Rhwydwaith a'r Gwasanaethau Gweledol.

Dros y 12 mis diwethaf mae tua 250 o reolwyr o'r adrannau Newyddion, Sain a Cherddoriaeth a Thechnoleg wedi cwblhau rhaglen arweinyddiaeth W1, a ganolbwyntiai ar sut y gallai timau gydweithredu mwy yn yr adeilad newydd. Caiff cynlluniau eu cyflwyno i adeiladu ar hyn gyda chyfres o ddigwyddiadau a chyfleoedd rhwydweithio i staff yn W1. Mae dros 3,000 o staff eisoes wedi cael hyfforddiant sefydlu a darparwyd 2,500 o ddiwrnodau o hyfforddiant technoleg i roi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl i weithredu systemau darlledu cyffredin. Mae gwaith yn mynd rhagddo o hyd i ddatblygu opsiynau gweithio hyblyg i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o le yn yr adeilad newydd.

### Caffaeliadau rhaglenni

Fel y gwelir yn y tabl ar dudalen 2-3, mae gwariant ar gaffael wedi lleihau dros y blynyddoedd diweddar. Targedwyd yr arbedion a wnaed at sicrhau hyd yn oed mwy o ddeunydd rhaglennu gwreiddiol o'r DU, a chanolbwyntiodd y gyllideb caffael ffilmiau ar ffilmiau o'r DU.

Byddwn yn anelu o hyd at gyflwyno rhai o'r dramâu a'r ffilmiau tramor gorau i wylwyr yn y DU, gan helpu i gyflawni ein pwrpas cyhoeddus o gyflwyno goreuon y byd i'r DU. Fodd bynnag, fel gyda hawliau chwaraeon, nid ydym yn barod i brynu am unrhyw gost.

Dangoswyd y ffilmiau ieithoedd tramor gorau, gan gynnwys *Flame and Citron* a *Mongol*, a dramâu tramor fel *Borgen, The Killing 2* a *The Slap*, ar BBC Four dros y flwyddyn, ac maent wedi profi eu gwerth i gynulleidfaoedd.

### Cyflenwi'r BBC

Dewiswn ein holl gyflenwyr yn ofalus er mwyn sicrhau bod ganddynt arbenigedd priodol ac y gallant gynnig gwerth amlwg am arian. Rydym wedi gweithio gyda llawer o'n cyflenwyr ers sawl blwyddyn, ac mae'r rhain yn hanfodol i barhad allbwn darlledu. Yn yr un modd, bob blwyddyn mae cwmnïau ac unigolion eraill yn gweithio gyda ni am y tro cyntaf, gan gynnwys talent ar y sgrîn ac ar yr awyr, cwmnïau cynhyrchu annibynnol a chyflenwyr eraill sydd wedi cystadlu am gontractau newydd.

Caiff ein holl drefniadau cyflenwi eu rheoli drwy dimau caffael sydd â gwybodaeth arbenigol am y farchnad a byd busnes, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau ansawdd a gwerth yn gyson, yn cydymffurfio â'r holl reoliadau perthnasol ac yn defnyddio telerau masnach sy'n safonol i'r diwydiant.

Gellir cael gwybodaeth am ein holl anghenion caffael, gan gynnwys tendrau newydd, ar www.bbc.co.uk/supplying.

### Talent

Gan weithio'n agos gydag artistiaid, cyflwynwyr a pherfformwyr, nod y BBC yw cynhyrchu rhaglenni o'r ansawdd uchaf gan ymdrechu ar yr un pryd i sicrhau'r gwerth gorau i dalwyr ffi'r drwydded. Mae'n hanfodol ein bod yn gwobrwyo'n briodol y dalent sy'n gwneud ein rhaglenni yn nodedig ac yn ennyn bri iddynt. Mae'r farchnad atgyfodol am dalent yn parhau i gynyddu'r her o reoli costau, ac mae wedi arwain at rai ymadawiadau proffil uchel i ddarlledwyr eraill. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu dulliau gweithredu newydd ac wedi gallu sicrhau lleihad o £9.5miliwn mewn costau talent cyffredinol. Byddwn yn parhau i feithrin a datblygu talent, gan gynnig yr amrywiaeth ehangaf o gyfleoedd creadigol ar draws genres a gwasanaethau. Eleni, rydym wedi gweithio'n galed i wahanu enillion i bob braced cyflog, gan leihau'n sylweddol nifer y 'sefydliadau' a chategoreiddio unigolion ym mhob un o'r bandiau cyflog lle bo hynny'n bosibl.



Martha Kearney a Kirsty Wark o *The Review Show*. Caiff y rhaglen gelfyddydol reolaidd ei chynhyrchu yn yr Alban.

### Gwariant ar dalent 2011/12


| | 2010/11 | | 2011/12 | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000oedd | Nifer | **£000oedd** | **Nifer** | **Amrywiad £000oedd** |
| < £50k | £102,433 | 50,029 | £97,691 | 49,341 | -£4,782 |
| £50k – £100k | £38,259 | 562 | £42,324 | 637 | £4,065 |
| £100k – £150k | £16,990 | 142 | £15,038 | 125 | -£1,952 |
| £150k – £250k | £14,958 | 80 | £14,209 | 76 | -£749 |
| £250k – £500k | £10,781 | 33 | £10,617 | 33 | -£164 |
| £500k – £750k | £4,084 | | £6,011 | | £1,927 |
| £750k – £1m | £3,315 | 19 | £823 | 16 | -£2,492 |
| £1m – £5m | £14,647 | | £9,696 | | -£4,951 |
| Sefydliadau* | £7,098 | 2,505 | £6,685 | 1,763 | -£413 |
| **Cyfanswm** | **£212,565** | **53,370** | **£203,054** | **51,991** | **-£9,511** |

* Ystyr sefydliadau yw grŵp o unigolion o dan gontract fel un – er enghraifft cerddorfeydd allanol – felly nid yw'n bosibl rhestru nifer yr unigolion yn erbyn y gwariant hwn. Cyfunwyd nifer yr unigolion yn y categorïau £500,000+ er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol yr unigolion hynny, yn unol ag arfer gorau o ran diogelu data.

# GWEITHREDIADAU
## PARHAD



Y galeri ar gyfer BBC Sport Centre, a leolir yn MediaCityUK.




Y panel ar gyfer un o raglenni *Free Speech* BBC Three – y sioe ddadlau a thrafod fyw fisol.

**Partneriaethau**
Drwy bartneriaethau gallwn gyfuno ein harbenigedd a'n hadnoddau gyda rhai partneriaid allanol a chwmnïau cynhyrchu annibynnol. Golyga hyn y gallwn gefnogi'r diwydiannau creadigol ehangach gan ddarparu cynnwys a chynhyrchion sy'n cynnig hyd yn oed mwy o werth i'n cynulleidfaoedd.

### Y Bartneriaeth Cynhyrchu Digidol
Mae'r BBC yn gweithio'n llwyddiannus gydag ITV a Channel 4 i annog yr arfer o fabwysiadu technegau cynhyrchu (digidol) seiliedig ar ffeiliau yn y DU. Mae'r tri darlledwr wedi creu'r Bartneriaeth Cynhyrchu Digidol (DPP), sydd bellach yn cyflwyno buddiannau amlwg ym mhob rhan o'r diwydiant.

I'r BBC, mae'r DPP yn helpu i gyflwyno buddiannau technolegau a gwasanaethau cyfathrebu sy'n dod i'r amlwg i gynulleidfaoedd, ac yn cynyddu gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded. Mae'r DPP hefyd yn helpu cwmnïau cynhyrchu annibynnol i bontio'n esmwyth ac yn gosteffeithiol i ddulliau 'cynhyrchu digidol cyflawn'.

Eleni cyhoeddodd y DPP Safonau Technegol a Metadata cyntaf y DU ar gyfer darparu rhaglenni seiliedig ar ffeiliau. Mae hwn yn ddatblygiad pwysig: mae pob un o'r saith prif ddarlledwr (BBC, ITV, Channel 4, Channel 5, S4C, Sky ac UKTV), wedi cytuno ar un fformat ffeil, strwythur ac amlap cyffredin fel y gellir darparu rhaglenni teledu drwy ffeiliau digidol.

Bydd cysondeb y ffeiliau hyn – yn enwedig eu metadata safonedig – yn galluogi'r BBC a'i bartneriaid i rannu cynnwys rhaglenni yn fwy costeffeithiol drwy'r we, ffonau symudol, iPlayer a theledu sydd â chysylltiad rhyngrwyd. Caiff cynulleidfaoedd fudd o ganlyniadau chwilio am gynnwys soffistigedig ar draws y llwyfannau hyn, gan gynyddu gwerth ein cynnwys i dalwyr ffi'r drwydded.

Mae'r DPP yn parhau i weithio'n genedlaethol ac yn rhyngwladol ar safonau technegol a metadata, ac mae'n chwarae rhan bwysig i sicrhau bod y BBC yn nesáu at ei uchelgais o fod yn gwbl ddibynnol ar ddulliau cynhyrchu a dosbarthu digidol cyflawn.

### Radioplayer
Mae Radioplayer yn bartneriaeth rhwng y BBC a'r cwmnïau radio masnachol, a'i nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n gwrando gan ddefnyddio dyfeisiau sydd â chysylltiad rhyngrwyd. Penderfynodd y diwydiant i 'gytuno ar dechnoleg, cystadlu am gynnwys' a chan gadw hyn mewn cof, cymerwyd camau i greu rhyngwyneb radio cyffredin, syml i gyfrifiaduron.

Ar adeg ei lansio roedd yn cynnwys 157 o orsafoedd, ond cynyddodd hyn yn gyflym i 315 erbyn diwedd y flwyddyn. Gyda saith miliwn o wrandawyr yn ei ddefnyddio bob mis, mae'n cynnig ffrydiau byw a rhaglenni dal i fyny o holl orsafoedd y BBC, yr holl orsafoedd masnachol mawr, yn ogystal â gorsafoedd radio myfyrwyr a chymunedol.

Yn ei flwyddyn nesaf, bwriad Radioplayer yw ymestyn y tu hwnt i'r cyfrifiadur gan lansio apps i ffonau symudol, datblygu gwasanaeth i setiau teledu â chysylltiad rhyngrwyd, a helpu i lywio dyfodol digidol radio drwy greu prototeipiau o fathau newydd o setiau radio 'hybrid'.

Mae'r DU yn arwain y ffordd o ran gweithio, mewn partneriaeth, ar ryngwynebau cyffredin ar gyfer radio ac mae'n debyg y bydd yr arloesedd hwn yn ymestyn ledled y byd, gyda dwsinau o wledydd eraill yn dangos diddordeb mewn mabwysiadu'r model.

### Llythrennedd yn y cyfryngau
Mae partneriaethau wedi bod yn ganolog i'r strategaeth llythrennedd yn y cyfryngau eleni. Ym mis Hydref, gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Race Online 2012, canolfannau ar-lein yn y DU ac amrywiaeth eang o bartneriaid eraill i annog pobl sydd ar-lein i roi awr i helpu pobl y maent yn eu hadnabod i fynd ar-lein. Roedd 30% o oedolion yn y DU yn ymwybodol o ymgyrch *Give an Hour* a phenderfynodd 1.3 miliwn o bobl helpu o ganlyniad i'r ymgyrch.

Ym mis Chwefror 2012, dangosodd y BBC unwaith eto ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau a diogelwch ar-lein ar gyfer pobl ifanc, gydag ymgyrch *Share Take Care* y BBC. Gan weithio mewn partneriaeth ag UK Safer Internet Centre i gefnogi Diwrnod Diogelu'r Rhyngrwyd, nod ymgyrch y BBC oedd codi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelu enw da ar-lein. Roedd 29% o oedolion yn y DU yn ymwybodol o'r ymgyrch a dywedodd llawer iddynt adolygu eu gosodiadau preifatrwydd ar gyfryngau cymdeithasol o ganlyniad iddi.

Yn yr hydref, gweithiodd tîm Llythrennedd yn y Cyfryngau mewn partneriaeth â'r cwmni annibynnol Scott Free a BBC Documentaries i lansio prosiect *Britain in a Day*. Dangosodd cyfres o ffilmiau 'sut i wneud', a ariannwyd gan BBC



Cyflwynwyr *Newsround*. Bellach caiff y rhaglen newyddion i blant ei chynhyrchu yn Salford.

Learning ac a gyflwynwyd gan Dan Snow a Julia Bradbury, sut y gallai'r gynulleidfa gynllunio, ffilmio ac uwchlwytho eu cyfraniadau i sianel *Britain in a Day* y BBC ar YouTube. Cynhaliwyd 30 o weithdai â grwpiau amrywiol ledled y DU, gan eu helpu i wneud ffilmiau ar gyfer y prosiect hwn a ddarlledwyd ar BBC Two ym mis Mehefin 2012. Uwchlwythwyd dros 12,000 o ffilmiau hyd yma, sy'n rhoi darlun unigryw o'r DU ar un diwrnod yn 2011.

Gweithiodd Lab BBC Learning yn Salford gyda grwpiau gwneud ffilmiau cymunedol yn Hackney i greu ffilmiau ar gyfer rhaglen BBC Three *Free Speech*, a gaiff ei sgriptio a'i chyfarwyddo gan bobl ifanc rhwng 16 a 25 oed. Bydd y Lab – sy'n anelu at alluogi aelodau o'r cyhoedd i greu cynnwys gwych – yn darparu rhagor o ddeunydd ar gyfer *Free Speech* dros y misoedd nesaf drwy weithio mewn partneriaeth â charchardai, colegau ac elusennau.



Julia Somerville, Gloria Hunniford ac Angela Rippon yn mynd i'r afael â phroblemau defnyddwyr yn *Rip Off Britain*.

# GWEITHREDIADAU
## PARHAD



Chweched gyfres *Doctor Who*, gydag Arthur Darvill, Matt Smith a Karen Gillan, oedd y sioe deledu a gafodd ei lawrlwytho fwyaf ar iTunes yn UDA.



**Worldwide**

**Prif werthiannau £m**

| | |
|---|---|
| 11/12 | 1,085 |
| 10/11 | 1,030 |

**Prif elw £m**

| | |
|---|---|
| 11/12 | 155 |
| 10/11 | 144 |

**Prif werthiannau dramor £m**

| | |
|---|---|
| 11/12 | 698 |
| 10/11 | 630 |

Nid yw incwm masnachol yn cynnwys Cylchgronau ond mae'n cynnwys cyd-fentrau.

Ailddatganwyd ffigurau'r flwyddyn flaenorol i eithrio gweithrediadau sydd wedi dod i ben.

### Gweithgareddau masnachol

#### BBC Worldwide

Mae BBC Worldwide yn is-gwmni sydd o dan berchenogaeth lawn y BBC, a'i ddiben yw sicrhau'r elw mwyaf iddo. Llwyddodd i sicrhau'r elw mwyaf erioed i'r BBC yn 2011/12, sef £215.7miliwn, yn bennaf drwy fuddsoddiadau mewn hawliau rhaglenni a hawliau eraill a difidendau.

Tra bod ei gyfraniad ariannol yn ategu ffi'r drwydded, mae gweithgareddau busnes BBC Worldwide yn codi proffil brand y BBC yn rhyngwladol, ac yn arddangos talent o Brydain. Mae BBC Worldwide yn buddsoddi ym mrandiau'r BBC ac eiddo deallusol o ansawdd uchel o Brydain fel y gellir manteisio arnynt lledled y byd drwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys ei sianelau llinellol ei hun, cynhyrchion a gwasanaethau digidol wedi'u brandio, trwyddedau i drydydd partïon, DVD a DTO, gwasanaethau cynhyrchu lleol a chynhyrchion i ddefnyddwyr.

Perfformiodd BBC Worldwide yn dda unwaith eto eleni, er gwaethaf amodau economaidd cymysg mewn rhai marchnadoedd. Ymadawodd y cwmni â'r rhan fwyaf o'i fusnes cylchgronau i ddefnyddwyr ym mis Hydref, am gyfanswm o £121.0miliwn, gyda mwyafrif y busnes yn cael ei werthu i Exponent Private Equity.

Gan addasu ar gyfer y gwerthiant hwn, gwelwyd twf cadarn mewn canlyniadau yn gyffredinol. Cynyddodd prif werthiannau ar weithrediadau parhaus 5.4% i £1,085.0miliwn (2010/11: £1,029.8miliwn), a chynyddodd y prif elw ar weithrediadau parhaus 7.9% i £154.8miliwn (£143.5miliwn). Cynyddodd elw cyn treth, heb gynnwys enillion ar werthiannau 13.0% i £103.5miliwn (£91.6miliwn). Cynyddodd y prif elw i 14.3% (13.9%).

Ysgogwyd y cynnydd mewn refeniw gan y busnesau Sianelau, Cynnwys a Chynhyrchu a Gwerthu a Dosbarthu, a wnaeth oll dyfu ar gyfraddau dau ddigid a chyda'i gilydd, gwnaethant gynhyrchu dros £90miliwn o brif werthiannau ychwanegol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd y prif ffactorau a ysgogodd y twf mewn refeniw fel a ganlyn:

- BBC America yn perfformio'n unol â chynllun buddsoddi uchelgeisiol, blwyddyn gadarn yn UKTV ac ehangu gwasanaethau rhyngwladol Sianelau'r BBC, gan gynnwys lansio sianelau newydd ac ehangu sianelau sydd eisoes yn bodoli i ragor o wledydd
- twf dau ddigid mewn refeniw yn y busnes Gwerthu a Dosbarthu, gyda gwerthiannau rhaglenni i wasanaethau teledu digidol yn treblu
- twf dau ddigid mewn refeniw hysbysebu ar gyfer Sianelau a BBC.com
- llwyddiant parhaus gyda chynhyrchiad rhyngwladol *Dancing with the Stars* ynghyd â thwf da ar draws cynyrchiadau sgript a fformatau eraill

Yn y cyfamser, er gwaethaf cyfnod gwerthu hynod lwyddiannus yn y DU dros y Nadolig, bu gostyngiad o 15.8% ym mhrif werthiannau Cynhyrchion Defnyddwyr. Adlewyrchai hyn y farchnad ddistaw, yr effaith a gafodd tân mewn warws trydydd parti ym mis Awst ar argaeledd stoc yn y DU, a'r oedi cyn lansio *Frozen Planet* ym marchnad UDA. Serch hynny, bu gwelliant o ran elw gweithredu, gan adlewyrchu pwyslais mawr ar gost ac effeithlonrwydd.

Cynyddodd elw i'r BBC yn ystod y flwyddyn 18.6% i £215.7miliwn (2011: £181.9miliwn). Buddsoddwyd dros draean y swm hwn, sef cyfanswm o £78.1miliwn (£78.5miliwn), mewn cyllidebau rhaglennu.

Bu'r enillion a wnaed yn sgil gwerthu BBC Magazines yn hwb i elw difidendau'r BBC o £139.9miliwn (2010/11: £76.4miliwn).

Mae strategaeth BBC Worldwide yn canolbwyntio ar bum blaenoriaeth: twf digidol, twf refeniw rhyngwladol, cynyddu sianelau â brand y BBC, buddsoddi mwy mewn cynnwys newydd, a datblygu cysylltiadau mwy uniongyrchol â defnyddwyr. Gwnaeth y cwmni gynnydd da ym mhob un o'r rhain.

Bu'n flwyddyn eithriadol i arlwy digidol BBC Worldwide, gyda chynhyrchion a gwasanaethau digidol bellach yn cynhyrchu 12.8% o brif werthiannau ac eithrio cyd-fentrau, cynnydd o 8.1% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gan ddefnyddio'r un sail. Yn ystod y flwyddyn, chweched cyfres *Doctor Who* oedd y sioe deledu a gafodd ei lawrlwytho fwyaf ar iTunes yn UDA.

Mae refeniw rhyngwladol yn parhau i dyfu ac mae bellach yn cyfrif am 64.3% o brif werthiannau (2010/11: 55.5%). Gellir priodoli hyn yn rhannol i lwyddiant yn UDA, sydd bellach yn cynhyrchu refeniw o $500miliwn, a'r camau i gael gwared ar y rhan fwyaf o BBC Magazines, busnes Prydeinig i raddau helaeth.

Mae sianelau BBC Worldwide ar gael mewn 356 miliwn o gartrefi ledled y byd (2010/11: 343 miliwn). Mae'r cynnydd strategol yn y maes hwn yn cynnwys deg lansiad ychwanegol o frandiau sianel mewn tri rhanbarth allweddol, gan gynnwys Taiwan, Gwlad Thai ac Indonesia, a lansio BBC HD yn America Ladin. Lansiwyd fersiwn peilot o Global BBC iPlayer – app ar gyfer y farchnad ryngwladol y telir amdano drwy danysgrifiad – mewn 16 o wledydd.

Parhaodd llwyddiant BBC Worldwide hefyd, ar draws fformatau, wrth i *Dancing with the Stars* – fersiwn rhyngwladol *Strictly Come Dancing* – gael ei gomisiynu ym Mhanama a Georgia. Mae bellach wedi'i drwyddedu i 40 o farchnadoedd.

Yn 2011/12, roedd pum prif brand BBC Worldwide yn cyfrif am 30% o refeniw, a'r 12 uchaf yn cyfrif am 47%, o gymharu â 24% a 36% ddim ond tair blynedd yn gynharach. Tyfodd nifer cefnogwyr brandiau allweddol BBC Worldwide ar Facebook i fwy na 23 miliwn ac yn dilyn ffocws penodol ar dechnegau e-CRM, dyblodd nifer y cysylltiadau â chwsmeriaid i 4.6 miliwn.

Mae gan BBC Worldwide strategaeth glir ac effeithiol, a luniwyd i sicrhau'r elw mwyaf posibl i'r BBC yn yr hirdymor, gan ddatblygu brandiau'r BBC ledled y byd ar yr un pryd. Mae ganddo hanes hirsefydlog o lwyddo, mae wedi arallgyfeirio ledled y byd ac wedi datblygu portffolio cryf o frandiau a busnesau.

Gan edrych i'r dyfodol, er bod amodau'r farchnad mewn rhai sectorau yn parhau i fod yn ansicr a gwelededd yn gyfyngedig, mae portffolio presennol y cwmni o frandiau a busnesau, ei gamau arallgyfeirio byd-eang a'i agwedd ddarbodus at wario mewn marchnadoedd presennol a newydd yn rhoi hyder i ni ynghylch gallu BBC Worldwide i wynebu'r flwyddyn nesaf.

## Stiwdios ac Ôl-Gynhyrchu

Parhaodd BBC Studios and Post Production i weithio gydag amrywiaeth eang o gwmnïau cyfryngau a chleientiaid eraill yn ystod y flwyddyn, gan wneud cannoedd o sioeau ar gyfer darlledwyr yn y DU a rhai rhyngwladol, o'r sioe boblogaidd *TV Burp* gyda Harry Hill ar gyfer ITV 1 a *New Britannia* gyda Morgan Spurlock ar gyfer Sky Atlantic HD, i'r sioeau cyfweliadau dall ar gyfer fformat adloniant newydd BBC One ar gyfer nos Sadwrn, *The Voice UK*.

Mae'r cwmni hefyd wedi ymestyn ei adain gwasanaethau cyfryngau digidol, gan weithio gyda pherchenogion cynnwys i drawsnewid ac adfer darllediadau archif gwerthfawr ar gyfer yr oes ddigidol fasnachol.

Er gwaethaf hinsawdd economaidd heriol a'r ffaith bod cwsmeriaid Chwaraeon a Plant wedi symud i Salford, perfformiodd BBC Studios and Post Production yn dda, gan gynhyrchu refeniw o £52.2miliwn ac elw gweithredu o £4.9miliwn, cyn eitemau eithriadol.

Ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn mae:

- darparu gwasanaeth ôl-gynhyrchu llawn yn y jyngl ar gyfer *I'm A Celebrity…Get Me Out Of Here!* ar ITV a fersiwn Almaeneg RTL o'r sioe
- darlledu sioe boblogaidd Channel 4 *Deal or No Deal* yn fyw, am y tro cyntaf, o stiwdios Paintworks, Bryste am bythefnos
- adfer y clasur hynod boblogaidd i blant *The Trumptonshire Trilogy* i'w ryddhau ar Blu-Ray a DVD
- uwchraddio cyfleuster Stiwdio D, Elstree i HD a gwneud rhaglen *A League of Their Own* gan CPL Productions ar gyfer Sky 1 HD
- arallgyfeirio'r sail gwsmeriaid, gan ennill gwaith gan Film London a'r Amgueddfa Ryfel Ymerodrol i adfer eu harchifau a'u hagor i'r cyhoedd

## BBC World News

Mae ein sianel newyddion a gwybodaeth 24 awr ryngwladol a ariennir drwy danysgrifiadau a hysbysebion bellach ar gael mewn mwy na 330 miliwn o gartrefi, cynnydd o 40 miliwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hefyd ar gael drwy bron 1.8 miliwn o ystafelloedd gwesty, 151 o longau mordaith, 40 o gwmnïau hedfan, 23 o rwydweithiau ffonau symudol a nifer o lwyfannau ar-lein amlwg gan gynnwys www.bbc.com/news. Gan weithredu mewn marchnad hynod gystadleuol, cofnododd BBC World News elw gweithredu o £3.8miliwn (2010/11: £9.4miliwn).



Harry Judd ac Aliona Vilani, enillwyr *Strictly Come Dancing*. Amcangyfrifir bod 250 miliwn o wylwyr wedi gweld y rhaglen, a gaiff ei galw'n Dancing with the Stars yn rhyngwladol, ac mae wedi'i thrwyddedu i 40 o wledydd.



# GWEITHREDIADAU
## PARHAD

### BBC cyfrifol

#### Canllawiau golygyddol

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC, sydd ar gael yn www.bbc.co.uk/guidelines/editorialguidelines, yn crynhoi'r gwerthoedd golygyddol a'r safonau y mae'r BBC yn disgwyl i'w holl lunwyr rhaglenni a chynnwys, rhai mewnol ac annibynnol, eu cyflawni. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys canllawiau ychwanegol a dolenni i fodiwlau hyfforddi yn Academi'r BBC, sy'n helpu i ddysgu sut i gymhwyso'r Canllawiau. Mae'r tîm Polisi Golygyddol hefyd ar gael bob amser i ddarparu rhagor o gyngor a chymorth.

#### Cyfrifoldeb corfforaethol

Ein huchelgais yw bod yn arweinydd o fewn y diwydiant o ran rheoli busnes yn gyfrifol. Rydym yn aelodau gweithgar o'r Grŵp Cyfrifoldeb Corfforaethol, y Grŵp Cyfrifoldeb Corfforaethol Seneddol Cyswllt, Busnes yn y Gymuned, Fforwm Cyfryngau CSR a Grŵp Meincnodi Llundain. Rydym hefyd wedi cadw ein statws Platinwm ym Mynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol Busnes yn y Gymuned 2012.

#### Apeliadau elusennol

Mae'r BBC yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn helpu amrywiaeth eang o elusennau i godi arian ac ymwybyddiaeth o achosion pwysig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Unwaith eto, cafodd yr apeliadau elusennol proffil uchel gefnogaeth dda gan gynulleidfaoedd y BBC. Cododd apêl *Plant Mewn Angen y BBC* ym mis Tachwedd £46miliwn, y swm mwyaf erioed, i helpu i newid bywydau plant yn y DU a darlledodd y BBC apeliadau hefyd ar ran 63 o achosion elusennol drwy ei apêl wythnosol ar BBC Radio 4 ac apêl deledu fisol *Lifeline*, ac un apêl ar ran y Pwyllgor Argyfyngau ar gyfer y newyn yn Nwyrain Affrica. Cododd Sport Relief ym mis Mawrth £50.5miliwn ar y noson, ac mae rhagor o arian yn dal i ddod i law. I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau elusennol y BBC, gan gynnwys sut i wneud cais am apêl, ewch i www.bbc.co.uk/charityappeals.

Yn ogystal â helpu elusennau i godi arian, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf darparodd y BBC wasanaethau gwerth £547,000 (2011: £420,000) i elusennau, a rhoddodd busnesau masnachol y BBC £1,163,000 i elusennau.

#### Ein targedau amgylcheddol – erbyn 31 Mawrth 2013

| Maes | Perfformiad 2011/12 | Targed 2012/13 |
|---|---|---|
| Lleihad mewn ynni (y pen) | 3% | -20% |
| Lleihad yn y dŵr a ddefnyddir (y pen) | -1% | -25% |
| Lleihad yn y gwastraff a gludir i safleoedd tirlenwi (y pen) | -62% | -25% |
| % y gwastraff a ailgylchir | 51% | 75% |
| Lleihad mewn allyriadau CO2 sy'n deillio o drafnidiaeth (fesul defnyddiwr BBC) | -8% | -20% |

#### Allgymorth

Mae llawer o'n gweithgareddau allgymorth y flwyddyn hon wedi canolbwyntio ar faint – cyrraedd cynulleidfa fawr drwy weithgareddau yn y gymuned. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd *Stargazing Live*, a ddenodd ddegau o filoedd i ddigwyddiadau gan gynnwys sioeau planetariwm, partïon sêr, astroffotograffeg a theithiau cerdded gyda'r nos.

Ym mis Mawrth 2012, fel rhan o *BBC News School Report*, daeth dros 1,000 o ysgolion yn ddarlledwyr yn eu cymuned eu hunain. Gwnaethant ymuno â thimau newyddiadurol y BBC a chafodd ystafelloedd dosbarth eu troi yn ystafelloedd newyddion wrth i fwy na 30,000 o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed greu adroddiadau newyddion sain, fideo ac ar-lein ar yr un pryd.

Maes arall y mae gweithgarwch allgymorth wedi canolbwyntio arno yw gweithio gyda chymunedau lleol, yn enwedig lle mae'r BBC yn gyflogwr mawr. Wrth i'r BBC sefydlu ei hun yn MediaCityUK yn Salford, mae gweithgareddau allgymorth wedi ceisio datblygu cysylltiadau hirdymor â'r gymuned leol. Rydym wedi datblygu cynlluniau gwirfoddoli i staff gydag ysgolion ac elusennau lleol ac wedi rheoli cynllun llysgenhadon ifanc yn llwyddiannus, sy'n cynnwys lleoliadau gwaith â thâl i bobl ifanc leol rhwng 16 a 19 oed sydd â fawr ddim profiad o fyd gwaith, os o gwbl.

#### Diogelwch

Mae tîm Diogelwch y BBC yn ymwneud â holl allbwn y BBC, gan ddelio â darlledu digwyddiadau mor amrywiol â'r Gwanwyn Arabaidd, daeargryn Japan, anhrefn cyhoeddus yn y DU, y Briodas Frenhinol, gwyliau cerddorol, *Top Gear* a *Strictly Come Dancing*. Mae'r tîm hefyd yn gweithio i sicrhau diogelwch miloedd o ymwelwyr i ddigwyddiadau, gan gynnwys sioeau teithiol *Deadly Sixty* a *Bang Goes the Theory* a'r Doctor Who Experience.

I ddarllen polisïau iechyd a diogelwch y BBC, ewch i www.bbb.co.uk/safety.

#### Cynaliadwyedd amgylcheddol

Rydym yn ymrwymedig i gynyddu cynaliadwyedd y BBC, yn enwedig ein busnes craidd o wneud rhaglenni. Ym mis Tachwedd roeddem yn un o'r darlledwyr cyntaf i gyhoeddi data ar ôl-troed carbon gwaith cynhyrchu teledu, yn seiliedig ar ddefnyddio Albert, ein cyfrifiannell carbon. Mae Albert bellach wedi'i rannu â gweddill diwydiant teledu'r DU drwy bartneriaeth â BAFTA.

Yn ystod 2012/13 byddwn yn adnewyddu ein targedau amgylcheddol, gan gydnabod ein bod yn bell o'u cyflawni fel y maent ar hyn o bryd. Y prif reswm am hyn yw bod adeiladau newydd, mawr wedi agor cyn i'r Ganolfan Deledu gau, sydd ynddo'i hun yn cyfrif am tua chwarter o'n defnydd ynni.


Rydym hefyd yn ymwybodol o ofynion ynni yr amgylchedd darlledu modern, sy'n cynyddu'n barhaus. Credwn, fodd bynnag, y bydd ein buddsoddiad mewn effeithlonrwydd ynni a'n cynlluniau i ganoli staff mewn llai o adeiladau, sy'n fwy effeithlon, yn lleihau ein heffaith amgylcheddol yn sylweddol.

I gael rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau a'n hymagwedd at gynaliadwyedd, ewch i www.bbc.co.uk/outreach/sustainability.



# LLYWODRAETHU

Mae'r BBC yn sefydliad unigryw, sy'n cael ei ariannu gan dalwyr ffi'r drwydded ac sy'n darparu gwasanaethau nodedig o safon uchel er budd y cyhoedd. Drwy drefn lywodraethu'r BBC rydym yn gwarantu annibyniaeth y sefydliad ac yn sicrhau ei fod yn cyflawni ei genhadaeth ac yn rhoi cyfrif priodol am ei weithredoedd.



Dathlwyd y Briodas Frenhinol ymhob rhan o'r DU. Baneri yn hongian yn Portland Place y tu allan i Ganolfan Ddarlledu'r BBC.

# Y BWRDD GWEITHREDOL

Y Bwrdd Gweithredol, a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, a'i is-bwyllgorau, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC a'r gweithrediadau o ddydd i ddydd drwy'r sefydliad.

**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol ers mis Mehefin 2004. Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol a Grŵp Cyfarwyddyd y BBC, sy'n cynnwys holl gyfarwyddwyr isadrannol y BBC. Cadeirydd anweithredol BBC Worldwide Limited.

**Caroline Thomson**
Prif Swyddog Gweithredu. Aelod o'r Bwrdd ers mis Mai 2000. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Digital UK Limited.

**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol ers mis Ionawr 2005. Un o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn y BBC ac un o gyfarwyddwyr anweithredol BBC Worldwide Limited.

**Helen Boaden**
Cyfarwyddwr Newyddion ers 2004. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2011 fel Cyfarwyddwr, Grŵp Newyddion y BBC.

**Tim Davie**
Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth ers mis Medi 2008. Aelod o'r Bwrdd ers mis Ebrill 2005, Cyfarwyddwr Marchnata, Cynulleidfaoedd a Chyfathrebu gynt.

**George Entwistle**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweledol y BBC ers mis Mai 2011; ymunodd â'r Bwrdd ar yr un pryd. Cyfarwyddwr anweithredol BBC Worldwide Limited. Rheolwr Comisiynu Gwybodaeth gynt. Cyn hyn ef oedd Rheolwr Comisiynu Gwybodaeth ers mis Ionawr 2008.

**Ralph Rivera**
Ymunodd â'r BBC ym mis Hydref 2010 fel Cyfarwyddwr, Cyfryngau Digidol. Aelod o'r Bwrdd – fel Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol y BBC – ers mis Mawrth 2011.

**Marcus Agius**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol gyntaf ym mis Rhagfyr 2006. Mae'n cadeirio Pwyllgor Cydnabyddiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC. Cadeirydd Grŵp Barclays PLC, Cadeirydd Cymdeithas Bancwyr Prydain, Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew a Chadeirydd Sefydliad a Chyfeillion y Gerddi Botaneg Brenhinol, Kew.

**Simon Burke**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2011. Mae'n cadeirio Pwyllgor Archwilio Bwrdd Gweithredol y BBC. Ef yw Cadeirydd Hobbycraft ac Eagle Eye Solutions.

**Sally Davis**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2012. Bu gynt yn Brif Swyddog Gweithredol BT Wholesale, ac ar hyn o bryd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Telenor, Logitech a'r Adran Drafnidiaeth.

**Dr Mike Lynch OBE**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol gyntaf ym mis Ionawr 2007. Entrepreneur ym maes technoleg a sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol Autonomy Corporation plc. Un o gyfarwyddwyr anweithredol Blinkx plc ac Aelod o Fwrdd y Llyfrgell Brydeinig.

**Brian McBride**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Mawrth 2012. Cyn-Reolwr Gyfarwyddwr Amazon.co.uk, Cadeirydd MX Data, aelod o Fwrdd Cynghori Numis PLC a Huawei UK, un o gyfarwyddwyr anweithredol Computacenter PLC a Monitise plc a Phartner gyda Scottish Equity Partners.

**Y Fonesig Fiona Reynolds**
Fe'i penodwyd yn gyfarwyddwr anweithredol ym mis Ionawr 2012. Mae'n cadeirio Pwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Pwyllgor Gweithredol y BBC. Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers mis Ionawr 2001, bydd yn gadael ei swydd ar ddiwedd 2012 ac yn ymgymryd â swydd Pennaeth Coleg Emaniwel, Caergrawnt ym mis Medi 2013.

**Mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i bedwar is-bwyllgor:**

**Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol – Cadeirydd: Simon Burke**
Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol o dan erthygl 35(3) o'r Siarter. Mae'n goruchwylio llywodraethu corfforaethol y BBC, yn enwedig ei adroddiadau ariannol, ei reolaeth fewnol a'r ffordd y mae'n rheoli risg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Cyllid, Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, Cyfarwyddwr Cyllid, Caffael a Rheoli Refeniw a chynrychiolwyr archwilwyr allanol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac ar adegau eraill yn ôl yr angen.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol – Cadeirydd: Marcus Agius**
Sefydlwyd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol o dan erthygl 35(3) o'r Siarter ac yn unol â'r gofynion a nodwyd yn erthygl 33 o'r Siarter. Mae'n penderfynu ar gydnabyddiaeth aelodau gweithredol y Bwrdd. Mae'n cynnwys o leiaf dri chyfarwyddwr anweithredol, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Busnes a'r Cyfarwyddwr Gwobrwyo hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn, ac ar adegau eraill yn ôl yr angen.

**Pwyllgor Masnachu Teg – Cadeirydd: Y Fonesig Fiona Reynolds**
Mae'r Pwyllgor Masnachu Teg yn helpu i sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau o ran masnachu teg. Mae'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol. Mae'r Rheolwr Masnachu Teg, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd a'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, ac ar adegau eraill yn ôl yr angen.

**Pwyllgor Enwebiadau**
Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Enwebiadau yn dibynnu ar y penodiadau a wneir, p'un a ydynt yn anweithredol neu'n weithredol. Cyfarwyddwr anweithredol fydd yn cadeirio'r Pwyllgor pan benodir cyfarwyddwyr anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd yn ei gadeirio pan benodir cyfarwyddwyr gweithredol. Sefydlwyd y Pwyllgor Enwebiadau o dan erthygl 35(4) o'r Siarter ac mae'n gweithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn erthyglau 30 a 31 o'r Siarter. Mae'n goruchwylio'r broses o gynnig aelodau o'r Bwrdd Gweithredol. Yna penodir aelodau gan y Bwrdd Gweithredol ei hun, gyda phenodiadau o gyfarwyddwyr anweithredol yn gofyn am gymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth. Yr unig eithriad yw Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol, a benodir gan Ymddiriedolaeth y BBC.



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol



**Caroline Thomson**
Prif Swyddog Gweithredu



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol



**Helen Boaden**
Cyfarwyddwr, Grŵp Newyddion y BBC



**Tim Davie**
Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth



**George Entwistle**
Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol



**Ralph Rivera**
Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol



**Marcus Agius**
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



**Simon Burke**
Cyfarwyddwr anweithredol



**Sally Davis**
Cyfarwyddwr anweithredol



**Dr Mike Lynch OBE**
Cyfarwyddwr anweithredol



**Brian McBride**
Cyfarwyddwr anweithredol



**Y Fonesig Fiona Reynolds**
Cyfarwyddwr anweithredol

Daeth cyfnod y cyfarwyddwr anweithredol Val Gooding mewn swydd i ben yn ystod 2011/12 ac ymddiswyddodd Robert Webb CF fel cyfarwyddwr anweithredol ym mis Chwefror 2012.

# RISGIAU A CHYFLEOEDD

## Mae risgiau a chyfleoedd wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau a'r gwaith o redeg y BBC o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn monitro a ydym yn cymryd gormod o risg, neu'n methu â manteisio ar ein cyfleoedd.

Ceir dulliau rheoli risg o fewn is-adrannau ac unedau busnes yn bennaf, gyda phrosesau ategol ar waith i reoli risgiau prosiect a materion trawsbynciol, megis safonau golygyddol a diogelwch. Rydym hefyd yn rhoi sylw arbennig i'r bygythiadau a'r cyfleoedd strategol a wynebwn yn y tymor hwy er mwyn sicrhau ein bod yn parhau'n gystadleuol mewn marchnad sy'n datblygu.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cydgysylltu'r prosesau hyn ac yn monitro'r allbynau. Drwy hyn rydym yn sicrhau ein bod bob amser yn wyliadwrus o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n codi er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau. Adolygir effeithiolrwydd ein dulliau gweithredu gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol.

Rhydd y tablau isod grynodeb o'r risgiau mwyaf sylweddol a'r cyfleoedd cysylltiedig sy'n effeithio ar ein cynulleidfaoedd, ein strategaeth a'n gweithrediadau.

### Cynnwys a chynulleidfaoedd: Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth olygyddol a'n hymrwymiad i Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf.

Ein cenhadaeth yw hysbysu, addysgu a difyrru cynulleidfaoedd a rheoli unrhyw fygythiadau i'r amcan hwn. Mae'n rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar natur nodedig ac achub ar gyfleoedd i wella'r ffordd rydym yn gwasanaethu pob cynulleidfa, tra'n chwarae ein rhan yn y newidiadau mawr sy'n digwydd ym mhob rhan o sector y cyfryngau:

| Risg | Gweithredu nawr | Wedi'i gynllunio |
|---|---|---|
| Gallai effaith andwyol ar ansawdd a natur nodedig ein cynnwys wrth weithredu Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf siomi cynulleidfaoedd | • Modelu manwl o effeithiau a ragwelir<br>• Mwy o egni ac adnoddau creadigol yn canolbwyntio ar y pum blaenoriaeth olygyddol | • Arian ailfuddsoddi ar gael o 2013, a fydd yn canolbwyntio ar y prif wasanaethau, ein pum blaenoriaeth olygyddol a meysydd trawsnewid<br>• Sicrhau bod cynnwys uchelgeisiol a nodedig yn parhau i gael ei ddarparu ar ôl 2012 |
| Gallai methiant i ddefnyddio technolegau newydd beryglu ein cysylltiad â'n cynulleidfaoedd | • Buddsoddi wedi'i dargedu mewn technolegau newydd<br>• Meithrin partneriaethau, gan gynnwys lansio YouView a *The Space*<br>• Strategaeth llwyfannau teledu cydgysylltiedig ar gyfer Freeview, Freesat a YouView | • Manteisio i'r eithaf ar nodweddion unigryw pob llwyfan digidol er mwyn diwallu anghenion gwahanol gynulleidfaoedd<br>• Parhau â phartneriaethau newydd â'r diwydiant<br>• Parhau i fonitro tueddiadau hirdymor o ran dymuniadau cynulleidfaoedd a datblygiadau yn y diwydiant |
| Gallai methiant i arddel ein gwerthoedd a'n safonau golygyddol yn ein holl gynnwys arwain at golli ymddiriedaeth y gynulleidfa, gan wneud niwed i'n brand | • Rheolaethau golygyddol cadarn a phrosesau cydymffurfio effeithiol ac ystyriaeth ddifrifol o gwynion<br>• Hyfforddiant parhaus i dimau cynyrchu, sy'n canolbwyntio ar sgiliau ac arbenigedd, ynghyd â chynllunio'r olyniaeth | • Gweithredu'r fframwaith cwyno diwygiedig<br>• Parhau i fonitro Ymchwiliad Leveson wrth iddo fynd rhagddo ac wrth i adroddiadau gael eu cyhoeddi |

**Ariannol a gweithredol: Caiff heriau eu lliniaru gan ein strategaeth, ein polisïau a'n gweithdrefnau busnes.**
Mae'r sefyllfa economaidd sy'n parhau yn y DU ac yn fyd-eang yn effeithio arnom ni a'n holl randdeiliaid a gallai arwain at lai o incwm a grym gwario. At hynny, mae cydnerthedd ein gweithrediadau, a gweithrediadau ein cyflenwyr a'n partneriaid, yn hanfodol i ddarparu'r gwasanaethau y mae talwyr ffi'r drwydded yn eu disgwyl:

| Risg | Gweithredu nawr | Wedi'i gynllunio |
|---|---|---|
| Gallai ansicrwydd economaidd parhaus arwain at lai o hyblygrwydd ariannol a llai o incwm o ffi'r drwydded, a gallai pwysau chwyddiant hefyd beri i'n grym gwario ostwng cryn dipyn | • Cynllunio wrth gefn a modelu busnes ar gyfer nifer o senarios economaidd<br>• Cyd-drafod contractau risg uchel o'r newydd er mwyn cael gwared ar gysylltiadau â chwyddiant<br>• Parhau i ganolbwyntio ar leihau'r amlygiad i risg sy'n gysylltiedig ag asedau a rhwymedigaethau pensiwn | • Rheoli'r broses o weithredu targedau arbedion fesul cam yn dynn<br>• Cynllunio ar gyfer cyfrifoldebau ariannu newydd (er enghraifft, y BBC World Service) |
| Gallai methiant technegol, rhyngddibyniaethau seilwaith, gweithredu diwydiannol neu weithredoedd trydydd partïon gan gynnwys cyflenwyr, arwain at amharu ar wasanaethau darlledu | • Trefniadau parhad busnes ar waith i reoli effeithiau achosion o amharu ar wasanaethau, yn enwedig mewn adeiladau newydd<br>• Cynlluniau ymadael a chynlluniau wrth gefn ar gyfer cyflenwyr allweddol | • Rhaglen reolaidd o ymarferion a gynllunnir ar gyfer ystad y BBC er mwyn sicrhau bod trefniadau parhad yn dal i fod yn gyson â newidiadau i'r portffolio eiddo a thechnolegau newydd |

**Cyfrifoldeb corfforaethol: Caiff heriau eu lliniaru gan gadernid ein prosesau busnes.**
Wrth lywio ein strategaeth i sicrhau ansawdd, gwreiddioldeb a gwerth i'n cynulleidfaoedd, a rhagweld anghenion cynulleidfaoedd modern, mae'n rhaid i ni gynnal arferion priodol:

| Risg | Gweithredu nawr | Wedi'i gynllunio |
|---|---|---|
| Gallai rheolaethau annigonol beryglu iechyd a diogelwch unigolion, yr amgylchedd naturiol a'n henw da | • Hyfforddiant iechyd a diogelwch cadarn yn y DU a thramor, gan gynnwys staff sy'n gweithredu mewn lleoliadau digroeso<br>• Darparu cynghorwyr penodedig ar gyfer lleoliadau risg uchel penodol<br>• Gweithio gyda darlledwyr eraill i hyrwyddo diwydiant cynhyrchu cynaliadwy a gwyrdd | • Cydweithredu ar fesurau i'r diwydiant cyfan i wella diogelwch newyddiadurwyr<br>• Parhau i ganolbwyntio ar dargedau i leihau effeithiau amgylcheddol allyriadau ynni a thrafnidiaeth, y defnydd o ddŵr a gwastraff |
| Gall methiant i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol, neu fod yn ymwybodol o newidiadau, arwain at gosbau | • Adnewyddu cynlluniau hyfforddi'n rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol newydd ei chyflwyno | • Parhau i fonitro deddfwriaeth newydd a gyflwynir |

# ADRODDIAD LLYWODRAETHU

## Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y BBC

Diffinnir Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol y BBC yn y Siarter Frenhinol. Mae'r Siarter hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol ystyried egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a dderbynnir yn gyffredinol. Ac er nad yw'r BBC yn gwmni rhestredig, eto i gyd mae wedi dewis mabwysiadu arfer gorau a dilyn darpariaethau Rheolau Rhestru'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2010 y Cyngor Adrodd Ariannol er mwyn bod yn gyson â chwmnïau a restrir ar farchnad a reoleiddir gan yr UE.

Mae'r Bwrdd Gweithredol wedi cydymffurfio â gofynion y Siarter, ac mae hynny yn ei dro wedi sicrhau cryn gydymffurfiaeth â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Fodd bynnag, cyfyd rhai meysydd o God Llywodraethu Corfforaethol y DU nad ydynt yn briodol i amgylchiadau'r BBC neu lle mae cydymffurfiaeth â'r Siarter yn drech na chydymffurfiaeth a'r Cod. Cred y Bwrdd Gweithredol nad yw'r meysydd hyn yn peryglu ansawdd y trefniadau llywodraethu sydd ar waith na'r ffordd y gweithredir cyfrifoldebau'r Bwrdd Gweithredol.

## Costau cydymffurfio

Er mwyn sicrhau i ni gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r BBC yn 2011/12, aethpwyd i ryw £15.6miliwn o gostau cydymffurfio (2010/11: £17.3miliwn), sy'n cynnwys tanysgrifiad blynyddol y BBC i Ofcom sef £3.0miliwn.

## Y Bwrdd Gweithredol

Fel arfer, mae'r Bwrdd Gweithredol yn cyfarfod bob mis (heblaw am fis Awst). Mae cofnodion cryno o'r cyfarfodydd ar gael ar-lein yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement.

Yn ymarferol, mae'r Bwrdd Gweithredol yn dirprwyo peth o'i gyfrifoldeb i grwpiau rheoli eraill. Yn unol â gofynion a darpariaethau'r Siarter, parhaodd y Pwyllgorau canlynol i weithredu y llynedd:

- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Masnachu Teg
- Y Pwyllgor Enwebiadau
- Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Nodir unrhyw ddirprwyaeth o'r Bwrdd Gweithredol yn rheolau sefydlog perthnasol pob grŵp a phennir fframwaith ar gyfer adrodd ac adolygu. Gweler www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement/subcom.html.

### Meysydd o God Llywodraethu Corfforaethol y DU nad ydynt yn berthnasol i'r BBC

**Elfennau cydnabyddiaeth (egwyddor D.1 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Mae'r BBC yn pennu lefelau cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol a ddylai fod yn ddigonol i ddenu, cadw a chymell cyfarwyddwyr o'r safon angenrheidiol i redeg y sefydliad yn llwyddiannus, yn unol â'r egwyddor hon. Fodd bynnag, o dan yr egwyddor hon mae'n rhaid cysoni cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol â'r syniad o wella gwerth i gyfranddalwyr drwy sicrhau bod elfennau o gydnabyddiaeth sy'n seiliedig ar berfformiad yn gyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth. Gan fod y BBC yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded a bod iddo bwrpasau cyhoeddus, dylai swm y gydnabyddiaeth amrywiadwy (neu'r gydnabyddiaeth sy'n seiliedig ar berfformiad) y gellir ei ennill fod yn gyfyngedig. Mae tâl amrywiadwy ar ffurf bonysau i gyfarwyddwyr gweithredol y BBC wedi'u hatal am gyfnod amhenodol.

**Rhyngweithio â chyfranddalwyr (egwyddorion B.7.1., B.7.2 ac adran E Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Nid yw'r BBC yn gwmni â chyfranddalwyr sy'n gwneud elw ac felly mae darpariaethau sy'n ymwneud â rhyngweithio â chyfranddalwyr yn amlwg yn amherthnasol. O dan rai amgylchiadau, fodd bynnag, mae'n bosibl ystyried, drwy gyfatebiaeth, y ffordd y mae Ymddiriedolaeth y BBC yn ymgysylltu â thalwyr ffi'r drwydded. Nodir hyn yn arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolwyr yn Rhan Un o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

### Meysydd lle mae cydymffurfiaeth â'r Siarter yn drech na Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU

**Rhannu cyfrifoldebau rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (egwyddor A.2 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Fel y caniatâ'r Siarter, Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, prif swyddog gweithredol y BBC. Nid yw hyn yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y BBC sy'n ei gwneud yn ofynnol i gael rhaniad clir o ran cyfrifoldebau ar lefel uchaf pennaeth y cwmni rhwng y gwaith o redeg y bwrdd a'r cyfrifoldeb gweithredol am gynnal busnes y cwmni. Ni ddylai fod gan un unigolyn bwerau dilyffethair i wneud penderfyniadau. Er bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr, mae'r trosolwg strategol gan Ymddiriedolaeth y BBC yn sicrhau nad oes gan un unigolyn bwerau dilyffethair.

**Cydbwysedd ac annibyniaeth y Bwrdd (egwyddor B.1 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys 13 o gyfarwyddwyr ar hyn o bryd, y mae saith yn gyfarwyddwyr gweithredol ac mae chwech yn gyfarwyddwyr anweithredol – sy'n cynnig cydbwysedd rhwng cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol fel na all unigolyn na grŵp bach o unigolion reoli'r gwaith o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn cydymffurfio â'r Siarter sy'n nodi na all nifer y cyfarwyddwyr anweithredol fod yn llai na thraean ac na all fod yn hafal i hanner aelodau'r Bwrdd Gweithredol na mwy na hanner. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU sy'n ei gwneud yn ofynnol i hanner y bwrdd o leiaf, heb gynnwys y cadeirydd, fod yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol. Ystyrir pob cyfarwyddwr anweithredol yn annibynnol at ddibenion Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU.

**Gwerthusiad y Cadeirydd (egwyddor B6.3 o God Llywodraethu Corfforaethol y DU):** Mae perfformiad Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, sef Cadeirydd y Bwrdd, yn cael ei werthuso gan yr Ymddiriedolaeth. Gwneir hyn gan Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn hytrach na'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, fel sy'n ofynnol o dan God Llywodraethu Corfforaethol y DU.

Mae'r Bwrdd Gweithredol a'i is-bwyllgorau yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau'r BBC a'i weithrediadau o ddydd i ddydd drwy'r sefydliad.

Cynhaliwyd gwerthusiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Gweithredol, ei Bwyllgorau a'i ymwneud â'r Ymddiriedolaeth yn ystod 2009. Fe'i cynhaliwyd gan ymgynghorwyr allanol ac roedd yn cynnwys cyfweliadau ag aelodau'r Bwrdd Gweithredol (yn aelodau gweithredol ac anweithredol), asesiad o'r protocolau llywodraethu, a'r cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Gweithredol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad, er ei bod yn anodd cymharu'n uniongyrchol â byrddau corfforaethol neu feincnodi yn eu herbyn oherwydd strwythur llywodraethu anarferol y BBC, yr aseswyd bod y Bwrdd yn gweithio'n dda yn unol â'r meini prawf pwysicaf. Mae argymhellion sy'n deillio o'r arolwg wedi cael eu hystyried mewn gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau effeithiolrwydd prosesau llywodraethu'r BBC.

**Sefydlu, perfformiad a datblygiad**

Pan fyddant yn ymuno â'r BBC, bydd pob cyfarwyddwr newydd yn cael rhaglen sefydlu ac ystod eang o wybodaeth am y BBC. Bydd cynnwys y rhaglen sefydlu yn amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'r penodiad yn un gweithredol neu anweithredol ac a oedd y cyfarwyddwr newydd yn ymgeisydd allanol ai peidio. Mae'r wybodaeth bob amser yn cynnwys manylion am weithdrefnau'r Bwrdd a chyfrifoldebau cyfarwyddwyr. Mae pob cyfarwyddwr yn gallu ceisio cyngor annibynnol allanol os dymunant.

Yn unol â'r Siarter, mae Ymddiriedolaeth y BBC yn asesu perfformiad rheolwyr y BBC a'i wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys arolwg parhaus o gynnydd a diwrnod perfformiad blynyddol, a fynychir gan y Bwrdd Gweithredol ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae arolwg ac asesiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011/12 i'w weld yn Rhan Un o'r Adroddiad hwn.

Mae prosesau adolygu perfformiad Pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol yn parhau i ddatblygu ac mae pob un yn adolygu ei berfformiad a'i effeithiolrwydd ei hun. Ni nodwyd unrhyw faterion o bwys ar gyfer 2011/12.

Mae gan bob cyfarwyddwr gweithredol ei amcanion personol ac adrannol ei hun, a chaiff ei berfformiad yn eu herbyn ei adolygu gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bob blwyddyn, a chan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

## Adroddiad yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Unwaith eto bu gan Fwrdd Gweithredol y BBC agenda lawn i'w hystyried yn ystod 2011/12 ac mae'r cyfarwyddwyr anweithredol wedi ceisio cynnig her briodol yn ogystal â chymorth i'w cydweithwyr gweithredol wrth ymdrin â phob eitem.

Ymhlith y rhain y brif eitem oedd Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, lle arweiniodd y dasg anodd o benderfynu sut y gellid darparu gwell gwasanaeth i dalwyr ffi'r drwydded am gost is at y prosiect yn dod yn brif eitem i'w thrafod ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Cymerwyd gofal mawr i ddosrannu allbwn yr ymarfer yn briodol rhwng lleihau cwmpas, arbedion/effeithlonrwydd cost a chynhyrchu cyllid ar gyfer buddsoddiadau newydd. Digon yw dweud bod y Bwrdd cyfan yn benderfynol o greu cymaint o sicrwydd â phosibl yn y canlyniad, gan gydnabod y byddai ei gyflawni yn gofyn am newid diwylliannol mawr ac y byddai strategaeth gyfathrebu sensitif a medrus yn hollbwysig.

Yn dilyn ei benodiad yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, sefydlodd yr Arglwydd Patten Arolwg Llywodraethu i ystyried sut y gellid gwella'r berthynas waith rhwng Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol. Arweiniodd hyn at newid pwyslais rhwng y ddau fwrdd, gyda'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd â chyfrifoldeb cliriach am strategaeth a'r Bwrdd Gweithredol yn ymgymryd â chyfrifoldeb cliriach am gyflawni/gweithredu. At hynny, mae mwy o ymwneud rhwng y gwahanol unigolion dan sylw. Er enghraifft, yn fy rôl fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, rwyf bellach yn mynychu'r rhannau perthnasol o gyfarfodydd misol yr Ymddiriedolaeth ac mae'r Ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr yn cyfarfod yn amlach y tu allan i fusnes arferol.

Yng ngoleuni'r sgandal dros hacio ffonau, comisiynodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol adroddiad ar arfer golygyddol yn y BBC, gan ymestyn cylch gwaith yr adroddiad ar ôl i Ymchwiliad Leveson gael ei sefydlu er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin â'r un materion. Comisiynwyd adroddiad gan y Pwyllgor Archwilio (sy'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn unig) hefyd i adolygu trafodion ariannol. Roedd y naill a'r llall wedi cadarnhau cywirdeb y BBC. Ar wahân i hynny, cafodd y Bwrdd ei friffio am ymddangosiadau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a Chadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC fel tystion gerbron yr Ymchwiliad.

Tua diwedd y flwyddyn ariannol, rhoddwyd mwy o sylw i'r prosiect i waredu'r Ganolfan Deledu, prif eiddo'r BBC yng ngorllewin Llundain. Mae'r Bwrdd wedi bod yn craffu'n fanwl ar y trafodyn posibl hwn a'r ffordd y dylid ei strwythuro, a bydd yn parhau i wneud hynny nes bod y mater wedi dod i ben.

Yn ystod y flwyddyn, yr unig newid ymhlith y cyfarwyddwyr gweithredol oedd cadarnhau penodiad George Entwistle fel Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol. Ymddeolodd Robert Webb a Val Gooding fel cyfarwyddwyr anweithredol a hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cyfraniad pwysig i'n cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor. Roedd y ddau, yn eu ffyrdd gwahanol, yn dangos nodweddion gorau cyfarwyddwr anweithredol o'r radd flaenaf. Yn ffodus, maent wedi cael eu holynu gan dri chyfarwyddwr anweithredol newydd cadarn sef Sally Davis, y Fonesig Fiona Reynolds a Brian McBride. Rwyf hefyd wedi cael cyfle i gyfrannu at broses Ymddiriedolaeth y BBC i nodi olynydd i Mark Thompson fel Cyfarwyddwr Cyffredinol.

Yn olaf, hoffwn nodi bod digwyddiadau arfaethedig 2012 wedi cynnig cefndir cyson a chynyddol ddwys i'n trafodion yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd cyfan wedi ymdaflu i waith y BBC o roi sylw dilychwin ac ysbrydoledig i'r digwyddiadau mawr sydd yn yr arfaeth. Gallaf roi sicrwydd i chi na fu dim pall ar yr ymdrech, y fenter, y dychymyg na'r uchelgais a ddangoswyd wrth geisio sicrhau y bydd y BBC ar ei orau pan fydd yn ymdrin â'r cyfuniad unigryw o amgylchiadau.



**Marcus Agius**
**Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol**
21 Mehefin 2012

# ADRODDIAD LLYWODRAETHU
## PARHAD

### Pwyllgor Enwebiadau

**Penodiadau i'r Bwrdd a chyfarwyddwyr sy'n ymadael**

Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn goruchwylio'r broses o gynnig aelodau o'r Bwrdd Gweithredol. Gwnaed un penodiad gweithredol yn ystod y flwyddyn: George Entwistle, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol (yn weithredol o 1 Mai 2011).

Daeth cyfnod Val Gooding mewn swydd fel cyfarwyddwr anweithredol i ben yn ystod y flwyddyn, yn ôl y bwriad. Ymddiswyddodd Robert Webb CF hefyd cyn pen ei gyfnod fel cyfarwyddwr anweithredol er mwyn ymgymryd â swydd weithredol arall. Gadawodd ar 29 Chwefror 2012. Ar ôl cymeradwyaeth gan Ymddiriedolaeth y BBC, penododd y Bwrdd dri chyfarwyddwr anweithredol newydd am gyfnodau o ddwy flynedd: Y Fonesig Fiona Reynolds a Sally Davis o 1 Ionawr 2012 a Brian McBride o 1 Mawrth 2012.

### Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a'i Bwyllgorau

| | Bwrdd Gweithredol | | Pwyllgor Archwilio | | Pwyllgor Masnachu Teg | | Pwyllgor Enwebiadau | | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyffredin | Eithriadol | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol | Aelod | Yn bresennol |
| **Nifer y cyfarfodydd ar gyfer y cyfnod** | **10** | **5** | **4** | **4** | **4** | **4** | **1** | **1** | **8** | **8** |
| **Cyfarwyddwr, Grŵp Newyddion** Helen Boaden | 9 | 5 | | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth** Tim Davie | 10 | 4 | | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol** George Entwistle | 9 | 4 | | | | | | | | |
| **Prif Swyddog Ariannol** Zarin Patel | 9 | 5 | | 3 | 3/3 | 1/1 | | | | |
| **Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol** Ralph Rivera | 10 | 5 | | | | | | | | |
| **Cyfarwyddwr Cyffredinol** Mark Thompson | 9 | 5 | | 4 | | | 1 | | | 8 |
| **Prif Swyddog Gweithredu** Caroline Thomson | 10 | 3 | | | 3/3 | 1/1 | | | | |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol:** | | | | | | | | | | |
| Marcus Agius | 10 | 3 | | | 4 | | 1 | | 8 | |
| Simon Burke | 9 | 3 | 4 | | | | | | | |
| Val Gooding | 6/7 | 1/3 | 3/3 | | 3/3 | | | | 6/6 | |
| Dr Mike Lynch* | 7 | 2 | 1 | | | | 1 | | | |
| Sally Davis | 3/3 | 2/2 | | | 1/1 | | | | 2/2 | |
| Brian McBride | 1/1 | 0/0 | | | | | | | 1/1 | |
| Robert Webb | 9/9 | 4 | | | | | | | 7/7 | |
| Y Fonesig Fiona Reynolds | 3/3 | 2/2 | 1/1 | | 1/1 | | | | | |

* Ym mis Awst 2011 cafodd Autonomy Corporation y mae Dr Lynch yn Brif Swyddog Gweithredol arno ei gaffael yn annisgwyl, a olygodd fod yn rhaid i Dr Lynch fod yn bresennol yn yr UD yn ystod y cyfnod integreiddio.

# ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH

**Adroddiad cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi polisi cydnabyddiaeth y BBC ac yn rhoi manylion am y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Fe'i paratowyd ar y sail bod gofynion Rheoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a rhai'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn gymwys i'r BBC lle bynnag y bo'r darpariaethau datgelu hyn yn berthnasol. Caiff yr adrannau ar bensiynau a chydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd Gweithredol eu harchwilio gan KPMG LLP.

## Pwyllgorau Cydnabyddiaeth: cyfansoddiad a gweithrediad

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Phenodiadau Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am bennu'r strategaeth gydnabyddiaeth ar gyfer y Bwrdd Gweithredol ac mae'n gyfrifol am bob agwedd ar gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r cyfarwyddwyr anweithredol.

Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am weithredu'r strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer pob un o aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol, ac eithrio'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae ei aelodau yn gyfarwyddwyr anweithredol: Marcus Agius (Cadeirydd), Sally Davis a Brian McBride, a gymerodd le Val Gooding CBE a Robert Webb CF y naill ym mis Ionawr a'r llall ym mis Mawrth.

Mynychir cyfarfodydd y Pwyllgor hefyd, drwy wahoddiad, gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau Busnes, sy'n rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud ag aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a pherfformiad cyffredinol y BBC. Gall y Pwyllgor fanteisio ar arbenigedd mewnol drwy Bennaeth Gwobrwyo'r BBC.

Gan gydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol 2010 y DU, mae'r Pwyllgor yn cael cyngor arbenigol gan gynghorwyr proffesiynol allanol ar rai materion, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud ag arfer y farchnad. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd cyngor annibynnol gan Towers Watson ar faterion a oedd yn ymwneud â chymharu cydnabyddiaeth swyddogion gweithredol yn y farchnad.

## Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr anweithredol

Pennir ffioedd cyfarwyddwyr anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth.

## Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Ers 2009, mae'r BBC wedi ymdrechu i gydbwyso'r angen parhaus i recriwtio, cadw a chymell arweinwyr a staff o'r radd flaenaf ac ar yr un pryd leihau faint y mae'n ei wario ar gyflog a'r nifer o uwch reolwyr. Rydym yn ffodus bod cyfuniad o'r gyflogaeth unigryw a gynigir gan y BBC ac ethos gwasanaeth cyhoeddus cadarn ein pobl wedi golygu ein bod yn gallu cadw pobl dda ar hyn o bryd a hefyd leihau'r gwariant ar uwch reolwyr yn sylweddol.

Cyflawnwyd y targedau a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2009 ar gyfer bil cyflog uwch reolwyr a'r nifer o uwch reolwyr erbyn mis Rhagfyr 2001: llwyddwyd i leihau'r bil cyflog £21.1miliwn, 26.9% yn erbyn ein targed o 25%, a lleihau niferoedd 156, gostyngiad o 24.4% yn erbyn targed o 20%.

Ers 2009, rydym wedi sicrhau, lle bynnag y bo modd, fod gostyngiad sylweddol yn y gwariant ar gydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol. Mae cyflog cyfarwyddwyr gweithredol wedi cael ei rewi am bedair blynedd ac mae bonysau wedi cael eu dileu am gyfnod amhenodol. Rydym wedi dileu symiau pensiwn atodol i bob cyfarwyddwr gweithredol yn weithredol o fis Ebrill 2011 ac yn ystod 2011 rydym wedi lleihau cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol newydd 32.7% ar gyfartaledd. Hefyd yn 2012 am yr ail dro bydd pob un o'r cyfarwyddwyr gweithredol hynny a oedd yn aelodau o'r Bwrdd ym mis Mawrth 2011 ac yn parhau i fod mewn swydd ym mis Mawrth 2012 yn ildio cyflog yn wirfoddol.

Cynhaliodd y Pwyllgor ei ymarfer sicrwydd rheolaidd i feincnodi cyflog cyfarwyddwyr gweithredol y BBC o'i gymharu â'r farchnad ar ddiwedd 2011, a chadarnhaodd hyn fod cyflog y Bwrdd Gweithredol yn cael ei ddisgowntio 70% ar gyfartaledd o'i gymharu â'r sector masnachol sy'n unol â'r strategaeth gyfredol a'r strategaeth yn y dyfodol y cytunwyd arnynt gan yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn welliant o 12 pwynt canrannol o gymharu â'r disgownt yn 2010 (58%).

Yn 2012/13 byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyfyngiadau ar gydnabyddiaeth ac ar yr un pryd yn cynnig cyflog digon cystadleuol i gyfarwyddwyr gweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r arweinwyr gorau at y dyfodol.

Rydym wedi cytuno ar Strategaeth Cyflog Uwch Reolwyr a Chyfarwyddwyr Gweithredol newydd â'r Ymddiriedolaeth ar gyfer 2011-15. Mae'r strategaeth hon yn nodi cyfeiriad polisi clir ar gyfer parhau i reoli cyflog cyfarwyddwyr gweithredol gan gynnwys parhau i rewi bonysau i gyfarwyddwyr gweithredol, disgowntio cyflog cyfarwyddwyr gweithredol a'n bwriad i leihau nifer yr uwch reolwyr yn y BBC ymhellach 70 erbyn diwedd 2015. Disgwyliwn gyflawni'r gostyngiadau hyn yn bennaf drwy gyfraddau gadael naturiol. Rydym hefyd wedi cael gwared ar y ddarpariaeth o ofal iechyd preifat a lwfans ceir i uwch aelodau o staff newydd y naill yn weithredol o 1 Awst 2011 a'r llall o 1 Ebrill 2012.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r BBC wedi arwain y ffordd o ran tryloywder ym maes cyflog swyddogion gweithredol drwy gyhoeddi, yn llawn, gyflogau ein huwch arweinwyr, ac ym mis Gorffennaf 2011 mabwysiadwyd yn gynnar lawer o'r egwyddorion a nodwyd yn Arolwg Hutton o Gyflog Teg yn y Sector Cyhoeddus gan gynnwys cyhoeddi'r gymhareb rhwng cyflog canolrifol cyfarwyddwyr gweithredol a chyflog canolrifol y BBC a ddarperir bob blwyddyn bellach yn ein hadroddiad ar gydnabyddiaeth. Drwy gyhoeddi'r lluosymiau cyflog hyn gall y cyhoedd weld yn union sut mae cydnabyddiaeth y rhai ar frig y BBC yn cymharu â gweddill y sefydliad. Gobeithiwn y bydd darlledwyr eraill a chyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus yn mabwysiadu dull gweithredu yr un mor dryloyw â'r BBC. Ers cyhoeddi'r lluoswm gyntaf ym mis Gorffennaf 2011, mae'r ffigur wedi lleihau fymryn o 8.9 i 8.7 (heb gynnwys effaith penderfyniad y Bwrdd Gweithredol i ildio mis o gyflog yn wirfoddol).

Mae'r Pwyllgor yn parhau'n ymrwymedig i sicrhau bod buddsoddiad y BBC yng nghyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnig gwerth a thryloywder i dalwyr ffi'r drwydded ar adeg pan fod y twf mewn cyflogau drwy'r economi gyfan yn fach iawn a phan fo llawer o dalwyr ffi'r drwydded yn byw ar incwm blynyddol is. Rydym yn falch o lwyddiant y sefydliad o ran sicrhau arbedion sylweddol yn y bil cyflog i uwch reolwyr ac ar yr un pryd gadw arweinwyr talentog a llawn cymhelliant. Wrth i ni barhau i leihau niferoedd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn canolbwyntio ar barhau i sicrhau gostyngiadau ac ar yr un pryd edrych yn fanwl ar gyfraddau cadw a chadernid y trefniadau olynu er mwyn sicrhau nad yw ein strategaeth cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn andwyol i safon na chymelliant ein harweinwyr yn awr ac yn y dyfodol.



**Marcus Agius**

**Cadeirydd Pwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol**

21 Mehefin 2012

# ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH
## PARHAD

### Cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol

#### Strategaeth ac ymagwedd ar gyfer 2011/12

Bwriedir i'r strategaeth a bennir gan yr Ymddiriedolaeth gynnig cydnabyddiaeth sy'n denu, yn cymell ac yn cadw'r dalent orau i arwain y BBC. Ym mis Gorffennaf 2011, cytunodd y Pwyllgor ar Strategaeth Cyflog Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr newydd â'r Ymddiriedolaeth. Nododd ffordd ddiwygiedig o ymdrin â chyflog ar gyfer y cyfnod 2011 hyd at 2015. Prif egwyddorion y strategaeth honno yw:

- llai o uwch reolwyr, gan barhau â'n strategaeth i leihau niferoedd uwch reolwyr a'u cost ym mhob rhan o'r BBC
- rhewi bonysau: bydd taliadau bonws cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u hatal am gyfnod amhenodol
- tegwch yn strwythur gwobrwyo'r BBC, drwy dynnu'n ôl yswiriant meddygol preifat a ariannwyd a lwfansau ceir i gyfarwyddwyr gweithredol ac uwch reolwyr newydd y naill yn weithredol o fis Awst 2011 a'r llall o fis Ebrill 2012
- mwy o dryloywder, drwy gyhoeddi lluosymiau cyflog (cyflog canolrifol y Bwrdd Gweithredol o'i gymharu â chyflog canolrifol y BBC) yn yr Adroddiad Blynyddol

Cytunodd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor i barhau â'r arfer o ddisgowntio cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn erbyn y sector masnachol. O ganlyniad, unwaith eto eleni adolygodd y Pwyllgor ddata cyflog y farchnad a ddarparwyd yn annibynnol er mwyn sicrhau bod lefelau cyflog yn gyson â'r strategaeth gyfredol y cytunwyd arni. Dangosodd data ar gyfer 2011 y caiff cyfanswm tâl uniongyrchol i'n cyfarwyddwyr gweithredol (cyflog sylfaenol ynghyd â thâl amrywiadwy), gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, ei ddisgowntio rhwng 64% a 78% o'r lefel a delir gan ein cystadleuwyr yn y sector masnachol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r symiau ychwanegol sylweddol o dâl amrywiadwy (gan gynnwys dyfarndaliadau ar ffurf cyfanddaliadau) a ddarperir yn y sector masnachol.

#### Lluosymiau cyflog

Yn 2011 cyhoeddodd Wil Hutton ei arolwg o Gyflog Teg yn y Sector Cyhoeddus lle argymhellodd y dylai sefydliadau olrhain, cyhoeddi ac esbonio eu lluosymiau cyflog dros amser – a'r mesur mwyaf priodol fyddai enillion lefel uchaf i ganolig. Byddai hyn yn sicrhau bod sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn atebol am y berthynas rhwng cyflog eu cyfarwyddwyr gweithredol a'r gweithlu ehangach.

**Tabl 1: Cymharu Cyfanswm Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol 2010/11 i 2011/12**

| 2010/11 Cyfarwyddwr Gweithredol | 2010/11 Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd[4] £000oedd | 2011/12 Cyfarwyddwr Gweithredol | 2011/12 Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd[4] £000oedd |
|---|---|---|---|
| Mark Thompson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 779 | Mark Thompson<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 622 |
| Jana Bennett<br>Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol | 440 | George Entwistle<br>Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Gweledol | 261 |
| Mark Byford<br>Cyfarwyddwr Grŵp Newyddiaduraeth | 447 | Helen Boaden<br>Cyfarwyddwr, Grŵp Newyddion | 354 |
| Tim Davie<br>Cyfarwyddwr, Sain a Cherddoriaeth | 422 | Tim Davie<br>Cyfarwyddwr, Sain a Cherfforiaeth | 349 |
| Erik Huggers<br>Cyfarwyddwr, Cyfryngau a Technolegau'r Dyfodol | 414 | | |
| Ralph Rivera<br>Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol[1] | 26 | Ralph Rivera<br>Cyfarwyddwr, Cyfryngau'r Dyfodol | 309 |
| Zarin Patel<br>Prif Swyddog Ariannol | 403 | Zarin Patel<br>Prif Swyddog Ariannol | 337 |
| Caroline Thomson<br>Prif Swyddog Gweithredu | 385 | Caroline Thomson<br>Prif Swyddog Gweithredu | 328 |
| Lucy Adams[2]<br>Cyfarwyddwr, BBC People | 367 | Gweler nodyn 2 | – |
| Sharon Baylay[3]<br>Cyfarwyddwr, Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd | 254 | Daeth y rôl i ben | – |
| Peter Salmon[2]<br>Cyfarwyddwr, BBC North | 436 | Gweler nodyn 2 | – |
| **Cyfanswm** | **4,373** | **Cyfanswm** | **2,560** |

[1] Penodwyd Ralph Rivera i'r Bwrdd Gweithredol 1 Mawrth 2011.
[2] Ymddiswyddodd Lucy Adams a Peter Salmon o'r Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth 2011 ond maent yn parhau i ymgymryd â rolau yn y BBC sef Cyfarwyddwr Gweithrediadau Busnes a Chyfarwyddwr BBC North yn y drefn honno.
[3] Gadawodd Sharon Baylay y BBC ym mis Mehefin 2011.
[4] Mae cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog blynyddol a buddiannau trethadwy a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ond nid yw'n cynnwys iawndal am golli swydd.

## Tabl 2: Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol

Dangosir isod gydnabyddiaeth cyfarwyddwr y Bwrdd Gweithredol ac aelodau Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod y flwyddyn:

| | | BA 2010/11 | | | | | BA 2011/12 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ffi/cyflog sylfaenol £000 | Buddiannau trethadwy £000 | Cydnabyddiaeth arall £000[8] | Iawndal am golli swydd £000 | Cyfanswm y gydnabyddiaeth 2010/11 £000 | **Ffi/cyflog sylfaenol £000[6]** | **Buddiannau trethadwy £000** | **Cyfanswm y gydnabyddiaeth 2011/12 £000** |
| **Cyfarwyddwyr gweithredol** | | | | | | | | | |
| Helen Boaden | Penodwyd i Fwrdd y BBC 1 Ebrill 2011 | – | – | – | – | – | 340 | 14 | 354 |
| Tim Davie | | 335 | 15 | 72 | – | 422 | 335 | 14 | 349 |
| George Entwistle | Penodwyd i Fwrdd y BBC 1 Mai 2011 | – | – | – | – | – | 248 | 13 | 261 |
| Zarin Patel | | 322 | 13 | 68 | – | 403 | 322 | 15 | 337 |
| Ralph Rivera[1] | Penodwyd i Fwrdd y BBC 1 Mawrth 2011 | 25 | 1 | – | – | 26 | 295 | 14 | 309 |
| Mark Thompson | | 613 | 3 | 163 | – | 779 | 613 | 9 | 622 |
| Caroline Thomson | | 307 | 15 | 63 | – | 385 | 307 | 21 | 328 |
| Lucy Adams | Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2011 | 293 | 15 | 59 | – | 367 | – | – | – |
| Sharon Baylay[2] | Ymddiswyddodd 30 Tachwedd 2010 | 207 | 10 | 37 | 392 | 646 | – | – | – |
| Jana Bennett | Gadawodd 6 Chwefror 2011 | 353 | 13 | 74 | – | 440 | – | – | – |
| Mark Byford[3] | Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2011 | 435 | 12 | – | 949 | 1,396 | – | – | – |
| Erik Huggers | Gadawodd 25 Chwefror 2011 | 345 | 13 | 56 | – | 414 | – | – | – |
| Peter Salmon | Ymddiswyddodd 31 Mawrth 2011 | 344 | 17 | 75 | – | 436 | – | – | – |
| **Cyfanswm y cyfarwyddwyr gweithredol** | | 3,579 | 127 | 667 | 1,341 | 5,714 | 2,460 | 100 | 2,560 |
| **Cyfarwyddwyr anweithredol[5]** | | | | | | | | | |
| Marcus Agius | | 47 | – | – | – | 47 | 47 | – | 47 |
| Simon Burke | Ymunodd 1 Ionawr 2011 | 10 | – | – | – | 10 | 37 | – | 37 |
| Sally Davis | Ymunodd 1 Ionawr 2012 | – | – | – | – | – | 6 | – | 6 |
| Mike Lynch | | 33 | – | – | – | 33 | 33 | – | 33 |
| Brian McBride | Ymunodd 1 Mawrth 2012 | – | – | – | – | – | – | – | – |
| Dame Fiona Reynolds | Ymunodd 1 Ionawr 2012 | – | – | – | – | – | 7 | – | 7 |
| Val Gooding | Gadawodd 31 Rhagfyr 2011 | 37 | – | – | – | 37 | 31 | – | 31 |
| Robert Webb[4] | Gadawodd 29 Chwefror 2012 | 123 | – | – | – | 123 | 115 | – | 115 |
| David Robbie | Gadawodd 31 Rhagfyr 2010 | 31 | – | – | – | 31 | – | – | – |
| Samir Shah | Gadawodd 31 Rhagfyr 2010 | 27 | – | – | – | 27 | – | – | – |
| **Cyfanswm y cyfarwyddwyr anweithredol** | | 308 | – | – | – | 308 | 276 | – | 276 |
| **Cyfanswm y Bwrdd Gweithredol** | | 3,887 | 127 | 667 | 1,341 | 6,022 | 2,736 | 100 | 2,836 |
| **Cyfanswm yr Ymddiriedolwyr[7]** | | | | | | 588 | | | 492 |
| **Cyfanswm** | | 3,887 | 127 | 667 | 1,341 | 6,610 | 2,736 | 100 | 3,328 |

1 Rhoddwyd pecyn adleoli i Ralph Rivera ar adeg ei benodiad i'r BBC (cyn cael ei benodi i'r Bwrdd). Y gwariant ar adleoli yn ystod y flwyddyn 2011/12 oedd £14,231, nid yw'r gwerth hwn wedi'i gynnwys yn y ffigurau uchod.

2 Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 y byddai Sharon Baylay yn ymddiswyddo o'r Bwrdd Gweithredol ar 30 Tachwedd 2010 ac yn gadael y BBC ym mis Mehefin 2011. Fel rhan o gyfanswm y gydnabyddiaeth yn 2010/11 mae iawndal am golli swydd gwerth £392,000, a dalwyd yn ystod 2011/12.

3 Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 y byddai Mark Byford yn ymddiswyddo o'r Bwrdd Gweithredol ar 31 Mawrth 2011 ac yn gadael y BBC ym mis Mehefin 2011. Fel rhan o gyfanswm y gydnabyddiaeth yn 2010/11 mae iawndal am golli swydd gwerth £949,000, a dalwyd yn ystod 2011/12.

4 Yn ogystal â'i rôl fel cyfarwyddwr anweithredol roedd Robert Webb yn Gadeirydd anweithredol BBC Commercial Holdings Limited a BBC Worldwide Limited. Yn gydnabyddiaeth am y cyfrifoldebau ychwanegol hyn cafodd ffioedd gwerth £82,500 yn ystod y flwyddyn ariannol 2011/12. Gadawodd Robert y BBC ym mis Chwefror 2012.

5 Penodir cyfarwyddwyr anweithredol am gyfnod o ddwy flynedd i ddechrau, ac eithrio'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a benodir am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Ildiodd Sally Davis, Brian McBride a'r Fonesig Fiona Reynolds fis o ffioedd ym mis Mawrth 2012.

6 Gwneir cyfraniadau pensiwn cyflogeion fel arfer drwy drefniant aberthu cyflog fel cyfraniad y cyflogwr, gyda gostyngiad cyfatebol mewn cyflog. Nid yw cyflogau sylfaenol cyfarwyddwyr gweithredol wedi'u haddasu i adlewyrchu effaith y cyflog a aberthir er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymharu â blynyddoedd blaenorol cyn cyflwyno aberthu cyflog. Cyfanswm y cyflog a aberthwyd gan gyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn oedd £98,178 (2011: £94,000). Hefyd mae cyfarwyddwyr gweithredol wedi ildio mis ychwanegol o gyflog sylfaenol yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012. (Nid yw hyn yn cynnwys aelodau newydd Ralph Rivera, Helen Boaden a George Entwistle, y daeth eu penodiadau yn weithredol ar 1 Mawrth 2011, 1 Ebrill 2011 a 1 Mai 2011 yn y drefn honno).

7 Ceir manylion llawn cyflog Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol 2011/12 yn Rhan 1 o'r adroddiad hwn.

8 Roedd cydnabyddiaeth arall yn 2010/11 yn ymwneud â threfniadau pensiwn, symiau ariannol atodol i gyfarwyddwyr hyd at derfyn blynyddol. Tynnwyd y symiau ariannol atodol yn ôl yn wirfoddol o 1 Ebrill 2011.

# ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH
## PARHAD

Er nad oedd yn ofynnol i'r BBC gydymffurfio ag argymhellion yr adroddiad hwn, cytunodd Bwrdd Gweithredol y BBC â'r Ymddiriedolaeth i gyhoeddi, olrhain ac esbonio ein lluosymiau cyflog yn wirfoddol bob blwyddyn fel y gall y cyhoedd weld sut yn union mae cydnabyddiaeth y rhai ar y lefel uchaf yn y BBC yn cymharu â gweddill y sefydliad. Y fethodoleg a ddefnyddiwn yw cymharu cyflog canolrifol aelodau'r Bwrdd Gweithredol â chyflog canolrifol gweddill y BBC.

Ar 31 Mawrth 2012 lluoswm enillion canolrifol yn y BBC o'i gymharu ag enillion canolrifol cyfarwyddwyr gweithredol (gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol) oedd 8.3 (o gymharu ag 8.5 y flwyddyn flaenorol). Mae'r ffigur hwn yn ystyried enillion is y Bwrdd Gweithredol yn sgil penderfyniad rhai aelodau o'r Bwrdd Gweithredol i ildio mis o gyflog yn 2011 a 2012. O ddefnyddio eu cyflog blynyddol parhaol y lluoswm canolrifol yw 8.7 (o gymharu ag 8.9 flwyddyn ynghynt).

Lluoswm enillion canolrifol y BBC o'i gymharu ag enillion y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer 2012 yw 15.1, o ystyried yr enillion is yn sgil penderfyniad i ildio mis o gyflog. O ddefnyddio cyflog blynyddol parhaol y Cyfarwyddwr Cyffredinol y lluoswm yw 16.5.

**Lluosymiau cyflog (gan ddefnyddio cyflogau parhaol)**

| Blwyddyn | 2012 | 2011 |
|---|---|---|
| Enillion canolrifol y Cyfarwyddwr Cyffredinol | **16.5** | 16.8 |
| Enillion canolrifol y Bwrdd Gweithredol | **8.7** | 8.9 |

Mae'r cyfrifiad o enillion yn cynnwys: cyflog sylfaenol, bonws, lwfansau sy'n parhau, goramser a lwfansau eraill nad ydynt yn parhau. Cyfrifir ffigurau enillion canolrifol drwy ddefnyddio cyflogau parhaol y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Bwrdd Gweithredol.

Yn ogystal ag ystyried y lluosymiau cyflog hyn wrth bennu ac ystyried cyflog y Bwrdd Gweithredol, mae'r Pwyllgor yn ystyried pob elfen o becyn cydnabyddiaeth cyfan y cyfarwyddwyr gweithredol fel y'u dangosir yn y paragraffau canlynol.

### Cyflog sylfaenol

Tri ffactor sy'n pennu lefel y cyflog sylfaenol a roddir i gyfarwyddwr gweithredol:

- A fyddai'r gyfradd yn cael ei chydnabod yn deg gan y farchnad (cwmnïau sy'n gystadleuwyr) ar gyfer y swydd?
- A yw perfformiad personol y cyfarwyddwr gweithredol yn cyfiawnhau lefel y cyflog sylfaenol?
- A yw'r lefel yn fforddiadwy i'r BBC ac ni fernir ei bod yn ormodol?

Pennir cyflog sylfaenol yn gyson â chanolrif cyfanswm cydnabyddiaeth y farchnad, wedi'i ddisgowntio o ffactor o 50–80% er mwyn sicrhau nad yw'r BBC yn arwain y farchnad o ran cyflog cyfarwyddwyr gweithredol yn sector y cyfryngau.

### Tâl amrywiadwy

Mae bonysau perfformiad hyd at 10% o'r cyflog sylfaenol wedi cael eu talu'n hanesyddol i gyfarwyddwyr gweithredol am gyflawni targedau effeithlonrwydd ac amcanion eraill a nodwyd. Fodd bynnag, o dan y strategaeth gyflog gyfredol, mae bonysau wedi'u hatal am gyfnod amhenodol. O ganlyniad, ni thalwyd unrhyw fonysau yn ôl disgresiwn yn 2011/12.

### Buddiannau

Yn ogystal â phensiynau, y prif fuddiannau cytundebol eraill yw lwfans car ac aswiriant bywyd. Mae gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol hawl i gael car â gyrrwr o dan drefniadau cynharach ond nid oes ganddo hawl i lwfans car personol na lwfans tanwydd. Yn ystod 2011/12 cafodd car â gyrrwr ei ddyrannu dros dro at ddefnydd y Prif Swyddog Gweithredu ac aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol a Grŵp BBC Direction am oes y brydles ceir sy'n weddill. Parheir i ddarparu yswiriant iechyd preifat i'r cyfarwyddwyr gweithredol presennol, ond ni chaiff ei gynnig mwyach fel budd i unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn y dyfodol.

### Pensiwn

Mae aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a ymunodd â'r BBC cyn 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i fod yn rhan o Gynllun Pensiwn y BBC, sy'n darparu buddiannau pensiwn ar sail buddiannau diffiniedig.

O ran cyflogeion a ymunodd â'r Cynllun hwn cyn 1 Tachwedd 2006, y gyfradd gronni yw 1/60 o'r cyflog pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. I'r grŵp hwn o gyflogeion, yr oedran pensiwn arferol yw 60. I gyflogeion a ymunodd â'r Cynllun ar/ar ôl 1 Tachwedd 2006 a chyn 1 Rhagfyr 2010, mae'r buddiannau yn cronni ar sail cyfartaledd gyrfa a'r gyfradd gronni yw 1.67% o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth, wedi'i haddasu yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Manwerthu. I'r grŵp hwn yr oedran pensiwn arferol yw 65.

I'r rhai a ymunodd â'r Cynllun ar ôl 31 Mai 1989 mae cyflog pensiynadwy yn destun uchafswm terfyn blynyddol (£129,600 y flwyddyn ar gyfer 2011/12). Ni chymhwysir terfyn blynyddol at y rhai a ymunodd ar neu cyn 31 Mai 1989. Mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer ymddeol yn gynnar am resymau meddygol ac aswiriant bywyd bedair gwaith y cyflog pensiynadwy hyd at derfyn a ragnodwyd.

Yn sgil cyflwyno terfyn blynyddol o 1% ar gynnydd mewn cyflog pensiynadwy (cyn cymhwyso'r uchafswm terfyn blynyddol o dan y Cynllun) ar gyfer pob cyflogai yn y Cynllun, o 1 Ebrill 2011 cyflwynodd y BBC adran newydd o dan y Cynllun y gallai aelodau presennol ymuno â hi, am gyfnod cyfyngedig, drwy ymeithrio o'u hadran bresennol. Nid oes unrhyw derfyn blynyddol o 1% ar gynnydd mewn cyflog pensiynadwy yn yr adran newydd hon. Mae buddiannau yn cronni ar sail cyfartaledd gyrfa a'r gyfradd gronni yw 1.67% o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth, fel arfer wedi'i haddasu yn unol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr hyd at uchafswm o 4% y flwyddyn. O dan yr adran hon yr oedran pensiwn arferol yw 65. Ceir hefyd uchafswm terfyn blynyddol ar gyflog

pensiynadwy, sef £127,800 y flwyddyn ar gyfer 2011/12.

Mae aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a ymunodd â'r BBC ar neu ar ôl 1 Rhagfyr 2010 yn gymwys i ymuno â LifePlan, sef trefniant cyfraniad diffiniedig y BBC. Mae'r BBC yn talu cyfraniadau i LifePlan ar raddfa gyfatebol neu ychydig yn well, gan ddechrau gyda chyfraniad o 4% i gyflogeion sy'n talu 4% o'u cyflog pensiynadwy hyd at uchafswm o 10% i gyflogeion sy'n talu 8% o'u cyflog pensiynadwy neu fwy. Nid oes unrhyw uchafswm cyflog pensiynadwy i'r rhai sy'n cyfrannu i LifePlan.

### Cydnabyddiaeth a dderbyniwyd

Mae Tabl 1 (ar dudalen 2-48) yn rhoi cymhariaeth gryno o gydnabyddiaeth cyfarwyddwyr gweithredol fesul unigolyn o 2010/11 i 2011/12. Mae Tabl 2 (ar dudalen 2-49) yn rhoi manylion llawn y gydnabyddiaeth a dderbyniwyd gan holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol ac aelodau Ymddiriedolaeth y BBC (gyda'i gilydd) ar gyfer 2011/12 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Contractau cyflogaeth

Mae contractau cyflogaeth cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys cyfnod rhybudd o hyd at 12 mis, ond gellir eu terfynu'n gynt os oes rheswm. Nid oes unrhyw hawl gytundebol i unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol os caiff contract ei derfynu'n gynnar ac eithrio yn achos terfynu contract am fod swydd wedi'i dileu.

### Buddiannau allanol

Gyda chytundeb ymlaen llaw y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor Enwebiadau, gall aelodau gweithredol y Bwrdd Gweithredol ddal un swydd cyfarwyddwr allanol, a chaniateir hyd at 15 diwrnod y flwyddyn i gyflawni'r dyletswyddau hyn. Gall yr unigolyn gadw'r gydnabyddiaeth sy'n deillio o swyddi cyfarwyddwr. Gall cyfarwyddwyr gweithredol hefyd ddal swyddi di-dâl y tu allan i'r BBC.

Yn ystod y flwyddyn ni ddaliwyd unrhyw swyddi cyfarwyddwr allanol â thâl gan y cyfarwyddwyr gweithredol. Er mwyn cael copi o gofrestr buddiannau'r Bwrdd Gweithredol ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/managementstructure/seniormanagement.

Cydnabyddir bod cyfarwyddwyr anweithredol yn debygol o ddal swyddi cyfarwyddwr eraill ac nad yw'r cyfyngiadau sy'n gymwys i gyfarwyddwyr gweithredol yn gymwys iddynt hwy.

### Cydnabyddiaeth ym musnesau masnachol y BBC

- Mae gan y BBC dri is-gwmni masnachol:
- BBC Worldwide
- BBC Studios and Post Production
- BBC World News

Mae polisi cydnabyddiaeth yr is-gwmnïau yn cynnwys darparu bonws blynyddol drwy gytundeb a chynlluniau cymell hirdymor (LTIP), sydd ar gael i staff parhaol cymwys, gan gynnwys cyfarwyddwyr. Caiff cost lawn cyflog sylfaenol, bonysau blynyddol a'r LTIPs eu hunanariannu gan refeniw masnachol pob is-gwmni ac ni chânt eu cymorthdalu drwy ffi'r drwydded.

Ni reolir cydnabyddiaeth yn yr is-gwmnïau masnachol gan bolisi cydnabyddiaeth na threfniadau llywodraethu'r BBC.

### Cynlluniau buddiannau diffiniedig

| Cyfarwyddwyr gweithredol | Oedran ar 31 Mawrth 2012 | Adran | Cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd dros y flwyddyn £000 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2012 £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2012 £000 | Gwerth trosglwyddo'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2011 £000 | Cyfraniadau'r cyfarwyddwr (ac eithrio cyfraniadau a dalwyd drwy'r trefniant aberthu cyflog)) £000 | Cynnydd mewn gwerth trosglwyddo llai cyfraniadau'r cyfarwyddwr £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Helen Boaden[1] | 56 | Hen Fuddiannau | 6 | **62** | **1,213** | 991 | 0 | 222 |
| Tim Davie[2] | 44 | Buddiannau Newydd | 2 | **14** | **164** | 127 | 0 | 37 |
| | | CAB2011 | 1 | **1** | **4** | 0 | 0 | 4 |
| George Entwistle[3] | 49 | Hen Fuddiannau | 5 | **59** | **877** | 710 | 0 | 167 |
| Zarin Patel | 51 | Buddiannau Newydd | 3 | **29** | **436** | 349 | 0 | 87 |
| Ralph Rivera[4] | 50 | DC LifePlan | Gweler y nodiadau | | | | | |
| Mark Thompson | 54 | Buddiannau Newydd | 3 | **17** | **293** | 221 | 0 | 72 |
| Caroline Thomson | 57 | Hen Fuddiannau | 6 | **81** | **1,713** | 1,436 | 0 | 277 |

1 Penodwyd Helen Boaden yn gyfarwyddwr ar 1 Ebrill 2011, er iddi ymuno â'r Cynllun hwn ar 1 Chwefror 1993. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cynnnwys y cyfnod cyn iddi gael ei phenodi'n gyfarwyddwr.
2 Daeth Tim Davie yn aelod gweithredol o adran CAB2011 ar 1 Ionawr 2012 ac mae'n cadw pensiwn gohiriedig yn yr adran Buddiannau Newydd ar gyfer gwasanaeth hyd at y dyddiad hwnnw. Dangoswyd y gwerth trosglwyddo ar 31 Mawrth 2012 mewn perthynas â phob adran ar wahân yn y tabl hwn.
3 Penodwyd George Entwistle yn gyfarwyddwr ar 1 Mai 2011, er iddo ymuno â'r Cynllun ar 1 Awst 1990. Mae'r ffigurau a ddangosir yn cynnnwys y cyfnod cyn iddo gael ei benodi'n gyfarwyddwr.
4 Mae Ralph Rivera yn aelod o Gynllun Pensiwn Cyfraniadau Diffiniedig LifePlan. Gwneir cyfraniadau gwerth 25% o'i gyflog sylfaenol ar hyn o bryd, y mae 10% o'r swm hwn yn gyfraniadau gan y cyflogwr a rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012 talodd y BBC gyfanswm o £29,500 i'r Cynllun.

# ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol

Bu'r flwyddyn ddiwethaf, yn ôl y disgwyl, yn un heriol iawn i'r BBC. Yn ei raglen Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, mae'r BBC yn ymdrechu i leihau ei gost gweithredu ymhellach, tra'n cynnal cwmpas ei allbwn darlledu a gwella ei ansawdd. Mae hyn nid yn unig yn gofyn am ddychymyg a ffocws di-baid, ond hefyd ddatblygu ffyrdd newydd o weithio mewn sawl rhan o'r Gorfforaeth.

Ar adegau fel hyn, mae gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol ran bwysig i'w chwarae i ategu'r broses, ond hefyd i sicrhau y caiff ei llywodraethu a'i gweithredu'n dda, yn ogystal â rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y BBC ar y trywydd cywir i gyflawni'r targedau ariannol.

Felly rydym wedi buddsoddi cryn dipyn o amser yn Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf eleni, a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i'r rhaglen fynd rhagddi. At hynny, rydym wedi mynd i'r afael â rhai materion pwysig eraill. Aethom ati i adolygu rheolaethau'r BBC dros brosiectau cyfalaf allweddol, dechrau ar y gwaith o ailwampio'r broses asesu risg, ystyried agweddau ar y ffordd y rheolir y portffolio eiddo, a gweithio i gyflymu'r broses o weithredu ar argymhellion yr archwilwyr mewnol. Cynhaliwyd ymchwiliad arbennig hefyd i daliadau a wnaed mewn cysylltiad â newyddiaduraeth ymchwilio a bu'r canlyniadau yn rhan o gyflwyniad y BBC i Ymchwiliad Leveson.

Ochr yn ochr â hyn, parhawyd â'n gweithgarwch rheolaidd a rhoesom sylw manwl i ganfyddiadau adran Archwilio Mewnol y BBC, gan ofyn am waith dilynol lle y bo'n briodol, a chymeradwyo ei chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn i ddod. Adolygwyd adroddiadau ariannol y BBC a chyfarfuom yn rheolaidd ag archwilwyr allanol y BBC, gan ystyried eu dulliau archwilio gyda hwy a thrafod unrhyw faterion y dymunant eu dwyn i'n sylw.

Mae'r Pwyllgor yn rhoi barn annibynnol i reolwyr y BBC, sydd wedi'i llywio gan waith campus y tim Archwilio Mewnol a chan wahanol safbwyntiau a phrofiadau ei aelodau. Ein nod yw helpu'r BBC i gyflawni ei nodau a bod yn well sefydliad, sydd bob amser yn ystyriol o flaenoriaethau cynulleidfaoedd a rhoi gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Nodwn isod adroddiad ffurfiol y Pwyllgor Archwilio, sy'n ymdrin â'r rhan fwyaf o'r pethau pwysig a ystyriwyd gennym yn ystod y flwyddyn.



**Simon Burke**

**Cadeirydd Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol**

21 Mehefin 2012

## Aelodaeth a chylch gwaith Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Gweithredol

Prif ddiben y Pwyllgor yw adolygu a goruchwylio trefniadau llywodraethu corfforaethol y BBC yn enwedig o ran adroddiadau ariannol, rheolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, y mae'n rhaid bod un ohonynt yn meddu ar brofiad ariannol diweddar a pherthnasol. Yr aelodau yw:

- Simon Burke
- Mike Lynch
- Fiona Reynolds (a benodwyd 1 Ionawr 2012)
- Val Gooding (tan fis Rhagfyr 2011)

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod gan Simon Burke brofiad ariannol sylweddol, diweddar a pherthnasol. Lle y bo'n briodol, mae'n ategu sgiliau a phrofiadau ei aelodau drwy gyngor gan archwilwyr proffesiynol mewnol ac allanol – er enghraifft ar faterion megis datblygiadau ym maes adroddiadau ariannol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd, a chynrychiolwyr yr adran archwilio mewnol, rheoli risg a'r archwilwyr allanol KPMP LLP hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cyfarfod â'r archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol yn breifat, heb aelodau o'r staff rheoli yn bresennol, yn rheolaidd.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor ar gael i'r Bwrdd Gweithredol ac i Ymddiriedolaeth y BBC. At hynny mae Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod ar unrhyw faterion lle mae angen cymryd camau neu wella perfformiad. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn cyflwyno adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd bob blwyddyn.

## Meysydd allweddol ffocws y pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn 2011/12. Y prif feysydd y canolbwyntiwyd arnynt oedd:

Rheolaethau mewnol: Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y system o reolaethau mewnol, gan ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd gan y rheolwyr eu bod yn mynd i'r afael â'r materion rheoli a nodwyd.

Adroddiadau ariannol: Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y grŵp. Er mwyn cynorthwyo gyda'r arolwg hwn, ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau gan reolwyr a chan archwilwyr allanol o ran cydymffurfiaeth â safonau cyfrifyddu, barnau allweddol a luniwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol a chydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rheoliadol.

Rheoli risg: Ystyriodd y Pwyllgor y prosesau o reoli risgiau sylweddol yn y BBC, gan gynnwys cyflwyniad gan reolwyr ynglŷn â sut mae'r BBC yn ceisio lleihau risg i'r eithaf a sicrhau'r gwerth mwyaf o'i bortffolio eiddo yn y DU. Ystyriodd y Pwyllgor welliannau gan y rheolwyr i'r prosesau o reoli risgiau sylweddol yn y BBC.

Prosesau canfod twyll a threfniadau chwythu'r chwiban: Adolygodd y Pwyllgor y prosesau a'r trefniadau hyn.

Cynllun gwaith yr Archwilwyr Mewnol: Parhaodd y Pwyllgor i oruchwylio gwaith yr Archwilwyr Mewnol. Cymeradwyodd y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod gan gynnwys gwaith sicrwydd penodol ar raglen drawsnewid y BBC.

Rheoli prosiectau allweddol: Adolygodd y Pwyllgor y rheolaethau sydd ar waith i sicrhau bod y portffolio o brosiectau allweddol yn cael ei reoli'n effeithiol. Ystyriodd y Pwyllgor rôl swyddfa rheoli rhaglenni'r BBC sy'n ymgymryd â rôl ddeuol sef rhoi sicrwydd a meithrin gallu.

Taliadau am newyddiaduraeth ymchwiliol: Gofynnodd y Pwyllgor am arolwg o bob taliad a wnaed at ddiben newyddiaduraeth ymchwiliol. Cyflwynwyd canlyniadau'r arolwg hwn fel rhan o dystiolaeth y BBC i Ymchwiliad Leveson.

Arolygon ôl-fuddsoddi: Ystyriodd y Pwyllgor arolygon ôl-fuddsoddi o fuddsoddiadau mawr.

Y berthynas â'r archwilwyr allanol: Goruchwyliodd y Pwyllgor y berthynas â'r archwilwyr allanol, gan gynnwys cwmpas eu gwaith a'u dulliau gweithredu, eu ffioedd, eu perfformiad a'u hannibyniaeth (gan gynnwys cymeradwyo polisi ar waith nad yw'n waith archwilio a chydymffurfio ag ef).

**Prosesau atebolrwydd a rheolaeth fewnol y BBC**

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am reolaeth weithredol y BBC (heblaw am Uned yr Ymddiriedolaeth). Mae hyn yn cynnwys diogelu ei asedau a chael gwerth am arian drwy sicrhau bod proses ar waith ar gyfer rheoli risgiau sylweddol i'r BBC.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am bennu effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y BBC, ei gynnal a'i adolygu ac am sicrhau y caiff camau angenrheidiol eu cymryd i unioni unrhyw fethiannau neu wendidau sylweddol a nodwyd. Dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr rhag camddatgan perthnasol neu golled y gall systemau o'r fath ei roi. Mae ein system reolaeth wedi'i chynllunio i reoli (yn hytrach na dileu) risg methiant i gyflawni amcanion y busnes a rhoi sicrwydd rhesymol y caiff yr asedau eu diogelu, y caiff trafodion eu hawdurdodi'n briodol ac y caiff gwallau perthnasol neu achosion o afreoleidd-dra eu hatal neu eu canfod yn amserol.


Mae elfennau allweddol ein system o reolaeth fewnol yn cynnwys:

Nodi a rheoli risg: Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cydlynu ac yn monitro gweithgarwch rheoli risg yn y BBC. Bu ein proses o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i'r BBC, sy'n unol â chanllawiau Turnbull (Rheolaeth Fewnol: Canllawiau i Gyfarwyddwyr), ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y BBC eleni. Dangosir prif elfennau'r gweithgarwch rheoli a goruchwylio risg yn y BBC ar dudalennau 2-42 i 2-43.

Adroddiadau ar strategaethau ac adroddiadau ariannol: Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo cynllun busnes gyda'r nod o gyflawni strategaeth y BBC a gymeradwywyd gan yr Ymddiriedolaeth. Mae prosesau adrodd misol, chwarterol a blynyddol cynhwysfawr, yn y grwpiau busnes a hyd at lefel y Bwrdd Gweithredol, yn cynwys gwaith monitro ariannol yn erbyn y cynllun, llunio rhagolygon yn rheolaidd, dadansoddiad o amrywiannau ac arolygon o berfformiad sy'n olrhain cyflawniadau yn erbyn y cynllun busnes a strategaethau.

Polisïau busnes: Maepolisïau a gweithdrefnau ffurfiol ar waith ar gyfer pob proses fusnes berthnasol i sicrhau cydymffurfiaeth â phob cyfraith a rheoliad sy'n gymwys, y caiff risgiau eu rheoli a bod gwybodaeth amserol, perthnasol a dibynadwy ar gael drwy'r busnes cyfan.

**Prosesau rheoli a goruchwylio risg**



# ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO
## PARHAD

Rheoli arian: Mae'r BBC yn paratoi adroddiadau trysorlys ac arian parod rheolaidd, sy'n dadansoddi gofynion ariannu a hylifedd.

Gweithdrefnau awdurdodi: Mae terfynau a phrosesau awdurdodi ffurfiol clir yn cwmpasu pob trafodyn ariannol.

Gallu staff: Mae prosesau ar waith i sicrhau bod ein staff yn broffesiynol ac yn gymwys. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau recriwtio, arfarniadau o berfformiad a rhaglenni datblygu.

### Proses archwilio mewnol y BBC

Mae'r adran Archwilio Mewnol, Rheoli Risg a Gwasanaethau Ymchwilio yn dod ynghyd i ffurfio ein swyddogaeth Sicrwydd Busnes, a arweinir gan y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd. Sicrheir awdurdod ac annibyniaeth yr adran Archwilio Mewnol gan fynediad annibynnol ac uniongyrchol y Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Pwyllgor.

Mae'r adran Archwilio Mewnol yn profi systemau rheoli a phrosesau busnes craidd y BBC yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cael eu cymhwyso'n gyson. Cytunir ar y cynllun gwaith, sy'n seiliedig ar asesiad parhaus o risgiau allweddol, yn flynyddol gyda'r Pwyllgor ac mae'n cwmpasu rheolaethau ariannol, gweithredol a chydymffurfiaeth, gan gynnwys arfer hawl y BBC i archwilio cyflenwyr allanol megis cwmnïau cynhyrchu annibynnol a darparwyr gwasanaethau. Cyflwynir adroddiad ar unrhyw fethiannau neu wendiddau sylweddol mewn rheolaethau i reolwyr ar lefelau priodol. Cyflwynir adroddiad ar statws camau unioni i'r Pwyllgor.

### Annibyniaeth archwilwyr allanol y BBC

Rydym yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ar gynnal perthynas briodol â'r archwilwyr allanol. Penododd y BBC KPMG LLP yn archwilwyr allanol yn ystod 2008, yn dilyn proses dendro ffurfiol.

Mae'r Pwyllgor wedi gosod polisi clir sy'n pennu'r trothwy lle mae'n rhaid i waith nad yw'n waith archwilio a gynigir, y dylai KPMG LLP ei gynnal, gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Pwyllgor. Mae hefyd yn pennu pryd y mae'n rhaid iddo fod yn destun tendr cystadleuol, a hynny er mwyn diogelu a chefnogi gallu'r archwilwyr allanol i barhau'n ddi-duedd a gwrthrychol. Nid ystyrir rhoi gwaith i KPMG a allai beryglu ei allu i roi barn annibynnol ar ddatganiadau ariannol y BBC. Mae angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pwyllgor cyn y gellir recriwtio aelod o staff KPMG i unrhyw swydd uwch reoli yn y BBC.

### Trefniadau chwythu'r chwiban

Mae gennym bolisi 'chwythu'r chwiban' (datgelu wedi'i ddiogelu) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu cyfrinachol drwy nifer o lwybrau am unrhyw achos lle amheuir i godau'r BBC gael eu torri. Rydym yn cydnabod y gallai materion sensitif godi o ran achosion gwirioneddol neu achosion a amheuir ac felly rydym yn darparu llinell gymorth 'chwythu'r chwiban' a weinyddir gan gwmni allanol annibynnol i sicrhau y gellir codi mater yn ddi-enw.

Cynhelir ymchwiliad annibynnol i bob achos neu amheuaeth a godir mewn modd cyfrinachol, rhoddir ymateb a chymerir camau fel y bo'n briodol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gynnal ymchwiliad cymesur i faterion y rhoddwyd gwybod amdanynt ac i gymryd camau dilynol priodol.

# ADRODDIAD AR FASNACHU TEG

**Aelodaeth a chylch gwaith Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol**

Prif swyddogaeth Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol yw goruchwylio cydymffurfiaeth Bwrdd Gweithredol y BBC â'n rhwymedigaethau o ran Masnachu Teg. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol; sef y Fonesig Fiona Reynolds (Cadeirydd), Marcus Agius a Sally Davis. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Cyllid, Rheolwr Masnachu Teg a Swyddog Cydymffurfiaeth y BBC, y Cwnsler Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Risg a Sicrwydd hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd. Ymhlith cyfrifoldebau'r Pwyllgor mae:

- adolygu Canllawiau Masnachu Teg y BBC
- ymdrin â chwynion ynglŷn â Masnachu Teg yn erbyn y BBC drwy benodi Panel Cwynion Masnachu Teg a gadeirir gan gyfarwyddwr anweithredol ac sy'n cynnwys mwyafrif o gyfarwyddwyr anweithredol
- adolygu cydymffurfiaeth â Phedwar Maen Prawf Masnachol y BBC yn barhaus
- comisiynu archwiliad blynyddol o Fasnachu Teg gan archwilwyr annibynnol

Mae gan y BBC fframwaith Masnachu Teg gweithredol manwl sy'n gymwys i'n holl weithgareddau ac fe'i hamlinellir yn ein Canllawiau ar Fasnachu Teg, a geir yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/fairtrading.html.

Caiff y trefniadau hyn eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilwyr annibynnol ac maent wedi cael eu hachredu ar wahân â safon ansawdd ISO 9001:2008. Nodir adroddiad yr Archwilydd ar dudalen 2-56.

Mae Cytundeb y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Gweithredol y BBC sicrhau bod ein holl wasanaethu masnachol yn bodloni'r meini prawf canlynol. Mae'n rhaid i wasanaethau masnachol:

- fod yn addas at y diben
- dangos effeithlonrwydd masnachol
- peidio â pheryglu enw da'r BBC na gwerth brand y BBC
- cydymffurfio â Chanllawiau'r BBC ar Fasnachu Teg, ac yn benodol osgoi aflunio'r farchnad

Ar ôl derbyn adroddiadau gan uwch reolwyr perthnasol, mae Bwrdd Gweithredol y BBC yn fodlon bod pob gwasanaeth masnachol wedi bodloni'r meini prawf uchod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012.

Mae gan y BBC broses gwyno ac apelio ar gyfer Masnachu Teg, yn www.bbc.co.uk/bbctrust/about/complaints_appeals/fair_trading/.

**Adroddiad Cadeirydd Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol**

Mae gan y BBC drefn sefydledig iawn ar gyfer Masnachu Teg y creffir arni yn fewnol ac yn allanol. Fel cyfarwyddwr anweithredol newydd ymgymerais â'r cyfrifoldeb o fod yn Gadeirydd Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol oddi wrth Val Gooding yn ystod y flwyddyn a hoffwn ddiolch i Val am ei chyfraniad pwysig yn y rôl hon. Byddaf yn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddangos ei ymrwymiad i rwymedigaethau o ran Masnachu Teg a'i gyflawni.

Yn erbyn cefndir o newid parhaus yn y cyfryngau, yn ystod y flwyddyn hon gwelwyd rhai newidiadau sylweddol i'r drefn Masnachu Teg hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys Polisi wedi'i ddiweddaru ar Fasnachu Teg a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth (o ganlyniad, mae Canllawiau'r Bwrdd Gweithredol ar Fasnachu Teg yn cael eu diweddaru) ac arolwg yr Ymddiriedolaeth o lywodraethu a ddaeth i ben ac sy'n egluro ymhellach rolau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Ymhlith pethau eraill mae hyn wedi hwyluso newid yng nghyfansoddiad y Pwyllgor sydd bellach yn cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol yn unig, a throsglwyddo cyfrifoldeb am gomisiynu'r archwiliad annibynnol blynyddol o Fasnachu Teg i'r Bwrdd Gweithredol.

Yn gyffredinol, mae'r drefn Masnachu Teg yn parhau i weithredu'n effeithiol gyda barn archwilio ddiamod, mae systemau a phrosesau Masnachu Teg yn parhau i fod wedi'u hachredu â safon ISO 9001:2008 a lefel gymharol isel o gwynion yngŷn â Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn sef pedair.

Canolbwyntiaf ar sicrhau bod Masnachu Teg yn parhau i fod ar frig agenda'r Bwrdd Gweithredol ac y gall pob rhanddeiliad, gan gynnwys talwyr ffi'r drwydded a'r rhai y gallai gweithgareddau'r BBC effeithio arnynt, barhau i fod yn ffyddiog bod y BBC yn parhau'n ymrwymedig i'w rwymedigaethau Masnachu Teg ac yn cydymffurfio â hwy.



**Y Fonesig Fiona Reynolds**

**Cadeirydd Pwyllgor Masnachu Teg y Bwrdd Gweithredol**

21 Mehefin 2012

Cafodd y BBC bedair cwyn sy'n ymwneud â Masnachu Teg yn ystod y flwyddyn. Gellir cael manylion y rhain, ynghyd â'r rhai y cyflwynwyd apêl yn eu cylch i Ymddiriedolaeth y BBC, yn ein Bwletin ar Fasnachu Teg yn www.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/policiesandguidelines/fairtrading/complaints_bulletins.html ac ar dudalen apeliadau Ymddiriedolaeth y BBC yn www.bbc.co.uk/bbctrust/our_work/complaints_appeals/fair_trading/appeal_findings.shtml.

# ADRODDIAD AR FASNACHU TEG
## PARHAD

**Adroddiad archwilwyr annibynnol masnachu teg i'r BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012**

Yn ein rôl fel archwilwyr masnachu teg y BBC, rydym wedi archwilio'r system o reolaethau mewnol a sefydlwyd yn y BBC i roi sicrwydd rhesymol i'r BBC bod Bwrdd Gweithredol y BBC ('y Bwrdd Gweithredol') wedi cydymffurfio â gofyniad Codau Polisi Masnachu Teg ac Effaith Gystadleuol Ymddiriedolaeth y BBC o 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Hydref 2011, Polisïau a Fframwaith Masnachu Teg Ymddiriedolaeth y BBC o 1 Tachwedd 2011 hyd at 31 Mawrth 2012 a'r Canllawiau ar Fasnachu Teg (lle nad ydynt yn gyson â'r Polisïau na'r Fframwaith ar Fasnachu Teg) o 1 Ebrill 2001 hyd at 31 Mawrth 2012 ('y Cytundebau Masnachu Teg').

Cytunwyd ar ein cyfarwyddiadau ar gyfer yr ymrwymiad hwn, gan gynnwys cwmpas y gwaith sydd i'w wneud, ar y cyd â Phwyllgor Masnachu Teg Bwrdd Gweithredol y BBC. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn cynnwys cytundeb y dylai ein harchwiliad gael ei gynnal yn unol â'r Safon Ryngwladol ar Ymrwymiadau Sicrwydd (ISAE) 3000, cytundeb ynglŷn â therfyn ein hatebolrwydd o ran y gwaith hwn a chytundeb mai i'r BBC yn unig y mae arnom ddyletswydd gofal o ran y gwaith hwn. Rydym yn fodlon bod cwmpas ein harchwiliad y cytunwyd arno yn ddigonol i'n galluogi i fynegi'r farn a nodir isod.

### Priod gyfrifoldebau Ymddiriedolaeth y BBC, Bwrdd Gweithredol y BBC a'r archwilwyr masnachu teg

Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn masnachu'n deg. Mae hefyd yn gyfrifol am baratoi'r adran yn Adroddiad Blynyddol y BBC sy'n dwyn y teitl 'Masnachu'n Deg', sy'n cynnwys datganiad am fasnachu teg.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi dyletswydd ar y Bwrdd Gweithredol i sefydlu a gweithredu system o reolaethau mewnol gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â Threfniadau Masnachu Teg y BBC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012, gan gynnwys nodi ac asesu'r risgiau a allai beryglu masnachu teg a llunio a gweithredu ymatebion i risgiau o'r fath.

Fel archwilwyr masnachu teg y BBC, ein cyfrifoldeb yw llunio barn annibynnol, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio, ynglŷn â'r graddau y mae'r BBC wedi sefydlu, ac wedi cymhwyso, system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion ei Drefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012. Dim ond i'r graddau ag sy'n angenrheidiol i lunio barn ar y ffordd y cymhwysir y system o reolaethau mewnol rydym wedi adolygu penderfyniadau penodol a wnaed gan y BBC mewn perthynas â materion masnachu teg. Rydym hefyd wedi adolygu a yw datganiad yr Ymddiriedolaeth am fasnachu teg yn adlewyrchu ein canfyddiadau ynglŷn â chydymffurfiaeth y BBC â'i system o reolaethau mewnol a nodwn os nad yw'n gwneud hynny.

Paratowyd ein barn ar ran y BBC a'r BBC yn unig yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddwyd i ni ac y cytunwyd arnynt â'r Pwyllgor ar ran y BBC. Wrth roi'r farn hon, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddiben arall neu i unrhyw berson arall ac eithrio'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y mae'n cael ei roi iddo, ac ni fydd hawl gan unrhyw berson arall i ddibynnu ar ein barn, oni chytunwn i hynny'n ysgrifenedig ymlaen llawn.

### Ein dull gweithredu

Rydym wedi cynnal ymrwymiad sicrwydd rhesymol fel y'i diffinnir yn ISAE 3000. Amcan ymrwymiad sicrwydd rhesymol yw cynnal y cyfryw weithdrefnau er mwyn cael gwybodaeth ac esboniadau sy'n angenrheidiol, yn ein barn ni, i roi tystiolaeth ddigonol i ni fynegi casgliad ar gydymffurfiaeth y BBC â'i Gytundebau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.

Roedd ein gwaith yn cynnwys ymchwiliad a phrofion i'n galluogi i lunio barn ynghylch a oedd system briodol o reolaethau mewnol ar waith. Adolygwyd hefyd y ffordd y proseswyd sampl o drafodion perthnasol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol i ni i'r system o reolaethau mewnol gael eu cymhwyso.

### Cyfyngiadau annatod

Fel yn achos unrhyw system reoli, nid yw'n ymarferol sicrhau nad oes unrhyw wallau nac achosion o afreoleidd-dra wedi digwydd heb gael eu canfod. Roedd ein gwaith archwilio wedi'i gynllunio i roi sicrwydd rhesymol i'r Bwrdd Gweithredol ynglŷn â digonolrwydd y system o reolaethau mewnol a oedd ar waith ac yn cael ei chymhwyso i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012. At hynny, oherwydd bod materion masnachu teg yn gofyn am farn a allai yn y pen draw gael ei brofi mewn llys barn, gan yr awdurdod cystadleuaeth neu yn rhywle arall, mae bob amser risg o her hyd yn oed lle y dilynwyd y system o reolaethau mewnol a lle y gwnaed penderfyniadau gyda'r gofal mwyaf.

### Barn

Yn seiliedig ar ganlyniadau ein gweithdrefnau, yn ein barn ni, mae'r BBC wedi sefydlu ac wedi cymhwyso system o reolaethau mewnol sy'n rhoi sicrwydd rhesymol iddo gydymffurfio â gofynion y Trefniadau Masnachu Teg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012.

**Deloitte LLP**

**Cyfrifwyr Siartredig**

**Llundain**

21 Mehefin 2012




# RHEOLI EIN CYLLID

Mae'n rhaid i'r BBC reoli ei gyllid mewn modd cyfrifol, gan roi cyfrif am y ffordd y mae'n defnyddio ffi'r drwydded ac incwm arall er budd y cyhoedd. Mae'r adran hon yn dangos sut mae'r BBC yn defnyddio ei adnoddau ariannol, gan gynnwys y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau effeithlonrwydd a gwneud darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol.



Jenny Culshaw yn cyflwyno o Ganolfan Chwaraeon y BBC yn MediaCityUK.

# AROLWG Y PRIF SWYDDOG ARIANNOL

**Mae rheolaeth ariannol ofalus o ffi'r drwydded a'n busnesau masnachol eleni wedi gosod seiliau cadarn i drawsnewid y ffordd rydym yn gweithio dros y pum mlynedd nesaf a'n galluogi i fforddio ein rhwymedigaethau yn y dyfodol, yn ogystal ag ariannu prif ddigwyddiadau darlledu 2012.**



**Sail ariannol gref**

Yn ystod 2011/12 rydym wedi atgyfnerthu ein sefyllfa ariannol er mwyn paratoi ar gyfer gofynion a heriau'r dyfodol. Bu cydweithio ar draws y BBC i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, nid yn unig i weithredu o fewn setliad ffi'r drwydded gyda gostyngiad termau real o 16% mewn cyllid, ond hefyd i ailfuddsoddi yn y datblygiadau gwasanaeth allweddol y bydd ein cynulleidfaoedd yn eu disgwyl gennym.

Mae'r gwaith o reoli cyllid y BBC yn ofalus wedi golygu, yn ogystal ag ariannu rhaglenni a chynnwys arall sydd wedi cyrraedd y cynulleidfaoedd mwyaf erioed, ein bod wedi cymryd camau cynnar i ddarparu cyllid ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol.

Caiff gwarged y grŵp ei chwyddo gan ddwy eitem anghylchol: gwerthu busnes Cylchgronau BBC Worldwide (am elw o £95miliwn) ac enillion sy'n ymwneud â'n cynllun pensiwn (£45miliwn). Felly, mae gennym warged sylfaenol o £249miliwn. Mae angen y swm hwn arnom i dalu am y cynnydd yn y gwariant ar raglenni yn 2012 i gwmpasu'r Gemau Olympaidd a'r Jiwbilî Ddiemwnt, ond hefyd i dalu am gostau sy'n ymwneud â gweithredu ein cynlluniau effeithlonrwydd a ffyrdd newydd o weithio drwy ein mentrau cyfryngau digidol a'r broses o symud i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd. Yn ogystal â'r elw untro yn sgil gwaredu'r busnes Cylchgronau, mae gwarged y grŵp yn cynnwys £127miliwn o elw o'n gweithgareddau masnachol a gaiff ei fuddsoddi mewn rhaglenni ac i sicrhau refeniw masnachol yn y dyfodol.

Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd o £93miliwn yn yr incwm o ffi'r drwydded. Gellir priodoli £74miliwn ohono i gynnydd mewn gweithgarwch newid i ddigidol. Gwelwyd cynnydd o £19miliwn yn yr incwm sylfaenol a gasglwyd o ffi'r drwydded yn sgil cynnydd yn nifer y cartrefi, er ei fod yn arafach na'r hyn a welwyd yn hanesyddol. Roedd hefyd yn adlewyrchu ein gallu i gynnal lefel cyfraddau osgoi talu er gwaethaf amodau economaidd anodd a phwysau ar gyllidebau cartrefi. Eleni, llofnodwyd contract casglu newydd sy'n lleihau costau casglu ac yn ystyried ffyrdd o ostwng cyfraddau osgoi talu yn y dyfodol i wrthbwyso'r risg y ceir cyfraddau arafach o ran twf cartrefi.

Ein balans arian parod cyffredinol oedd £262miliwn, heb gynnwys £145miliwn o arbedion a neilltuwyd o'n gweithgarwch newid i ddigidol (y Cynllun Cymorth a Digital UK). Mae'r £145miliwn hwnnw'n ddyledus i'r Llywodraeth ar ben y £214miliwn a ad-dalwyd eleni o arbedion a gronnwyd ym mlynyddoedd cynharach y rhaglen. Bydd balans arian parod y gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y gwaith ailstrwythuro sydd ei angen i gyflawni'r arbedion a'r ffyrdd newydd o weithio sydd eu hangen ar gyfer ein cynllun Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf. Bydd hefyd yn ariannu taliadau pellach i adfer diffygion pensiwn a chynnydd a gynlluniwyd mewn gwariant ar gynnwys yn ystod blwyddyn y Gemau Olympaidd a'r Jiwbilî Ddiemwnt ar y lefel a ddisgwylir gan ein cynulleidfaoedd. Eleni, rydym wedi newid y ffordd y caiff ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon eu cyflwyno i'w gwneud yn symlach ac i gyflwyno sefyllfa ariannol y BBC mewn ffordd fwy rhesymegol.

**Yn barod i gyflawni**

Edrychwn ymlaen at yr heriau ariannol fel sefydliad sydd wedi llwyddo yn y gorffennol i sicrhau arbedion gwirioneddol, nid toriadau. Ar ddiwedd pedwaredd blwyddyn ein rhaglen Gwelliant Parhaus, y flwyddyn olaf ond un, cyflawnwyd £499miliwn o arbedion parhaus, gan ddod â'r cyfanswm cronnol i £1,498miliwn. Mae hyn yn gyfystyr ag alldro rhagamcanedig sy'n gyfwerth â 3.6% o arbedion blynyddol cyfartalog, sy'n rhagori ar y targed o 3% a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer cyfnod presennol ffi'r drwydded. Daeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i gasgliad cadarnhaol ynghylch y rhaglen eleni yn sgil archwiliad manwl. Yn ogystal â'r her a wynebir o ran arbedion, ni allwn anghofio, wrth i ni edrych ymlaen, mai 2012/13 fydd un o'r blynyddoedd darlledu pwysicaf yn hanes y BBC, gyda chynulleidfaoedd yn disgwyl ymdriniaeth gynhwysfawr, heb ei hail o ddigwyddiadau hanesyddol y flwyddyn. Y tu hwnt i 2012, byddwn yn wynebu heriau sylweddol. Mae angen ffocws ariannol craff er mwyn rheoli'r gostyngiad o 16% mewn cyllid sydd ei angen i ariannu rhwymedigaethau ariannol ychwanegol BBC World Service, BBC Monitoring ac S4C o ffi'r drwydded. Rwy'n hyderus bod y BBC mewn sefyllfa ariannol gref i ymateb i'r her hon.

**Zarin Patel**
**Prif Swyddog Ariannol**
21 Mehefin 2012

# CRYNODEB O BERFFORMIAD ARIANNOL

## Gwariant Grŵp PSB y DU

- Gwariwyd 71c o bob £1 o ffi'r drwydded yn uniongyrchol ar raglenni neu'r seilwaith eiddo a thechnoleg sy'n ategu'r gwaith o'u cynhyrchu ...
- … ac mae 6c arall o bob £1 yn cael ei wario ar ddarparu ein gwasanaethau i gynulleidfaoedd drwy analog, Teledu Daearol Digidol (DTT) a'r rhyngrwyd
- Cost casglu ffi'r drwydded yw 3.4c am bob £1 a gesglir


### Dadansoddiad o wariant Grŵp PSB y DU 2011/12

| | £m | % |
|---|---|---|
| Trwyddedau gwasanaeth – gwariant uniongyrchol ar gynnwys | 2,356 | 61 |
| Gwariant uniongyrchol arall ar gynnwys | 90 | 2 |
| Dosbarthu | 208 | 6 |
| Eiddo a thechnoleg | 315 | 8 |
| Seilwaith a chymorth arall | 304 | 8 |
| Eitemau eraill gan gynnwys casglu ffi'r drwydded a newid i ddigidol | 387 | 10 |
| Costau ailstrwythuro | 101 | 3 |
| Talu diffygion pensiwn | 89 | 2 |
| **Cyfanswm** | 3,850 | 100 |

## Arbedion effeithlonrwydd

- Cyflawnwyd £1.5biliwn o arbedion cynaliadwy ers dechrau'r Rhaglen Gwelliant Parhaus heb i ni weld dirywiad yn ansawdd ein cynnwys
- £559miliwn o arbedion effeithlonrwydd blynyddol cylchol
- Byddwn yn rhagori ar ein targed arbedion blynyddol o 3%
- Rhagwelir cyfanswm arbedion gros o £2.1biliwn (cyn costau gweithredu)

### Arbedion effeithlonrwydd gros cronnol £m




O 2012/13 byddwn yn cyflawni arbedion blynyddol parhaus o £559miliwn.

## Perfformiad masnachol

- Cynnydd o 5.4% yng ngwerthiannau gros BBC Worldwide (heb gynnwys Cylchgronau) o gymharu â'r llynedd
- Refeniw hysbysebu BBC World News yn parhau'n gyson mewn marchnad anodd
- BBC S&PP yn parhau i ehangu ei sylfaen cwsmeriaid
- BBC Worldwide yn dychwelyd £216miliwn, y swm uchaf erioed, i Public Service Broadcasting yn ystod y flwyddyn

| | Incwm Masnachol | | Prif elw | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011/12 £m** | 2010/11 £m | **2011/12 £m** | 2010/11 £m |
| Grŵp PSB y DU gan gynnwys BBC World Service a BBC Monitoring* | **230** | 213 | **dd/g** | dd/g |
| BBC Worldwide** | **1,085** | 1,030 | **155** | 144 |
| BBC World News | **70** | 72 | **4** | 9 |
| Studios & Post Production (S&PP) | **52** | 59 | **5** | 6 |

* Nid yw prif elw yn gymwys i'r Grŵp hwn.
** Mae incwm masnachol yn cynnwys refeniw cyd-fentrau ond nid Cylchgronau.

# TROSOLWG ARIANNOL

**Gyda setliad ffi'r drwydded yn weithredol tan 2017, gellid ystyried bod y BBC mewn sefyllfa fwy sefydlog na busnesau masnachol eraill, ond mae ffi'r drwydded sefydlog ac ymrwymiadau ariannu newydd (gan gynnwys BBC World Service) yn golygu bod y BBC yn wynebu gostyngiad mewn termau real o 16% yn y cyllid sydd ar gael o ffi'r drwydded.**

Yn ogystal â delio â'i heriau ariannol ei hun, mae'r BBC hefyd yn agored i effeithiau'r dirywiad economaidd:

- mae'r pwysau ar gyllidebau cartrefi yn y DU yn her barhaus o ran casglu ffi'r drwydded. Rydym wedi llwyddo i sicrhau bod cyfraddau osgoi talu yn aros yn ddigyfnewid ar 5% am nifer o flynyddoedd bellach drwy waith casglu wedi'i dargedu a thrwy helpu talwyr ffi'r drwydded i ddod o hyd i'r dull mwyaf addas o dalu
- mae amodau masnachu anodd mewn rhai marchnadoedd wedi rhoi pwysau ar weithrediadau masnachol y BBC, er i hyn gael ei leddfu i ryw raddau gan lwyddiannau mewn marchnadoedd newydd
- mae'n rhaid rheoli pwysau chwyddiannol sylweddol drwy sicrhau effeithlonrwydd
- mae BBC World Service wedi gweld gostyngiadau mewn lefelau cymorth grant fel y gwelwyd yng ngweddill y sector cyhoeddus
- mae'r elw isel sydd ar gael ar farchnadoedd ariannol y byd yn gosod pwysau sylweddol ar bob cynllun pensiwn, gan gynnwys cynllun y BBC

Rydym wedi wynebu'r heriau hyn drwy fynd ati i leihau ein costau ac adolygu ein modelau busnes. Yn ogystal â'n cynlluniau effeithlonrwydd, a adolygir yn ddiweddarach yn yr adran hon, rhoddwyd nifer o fentrau eraill ar waith. Mae contract newydd wedi'i lofnodi ar gyfer casglu ffi'r drwydded ac rydym yn parhau i gynnig nifer o ddulliau o dalu'r ffi.

Mae'r BBC yn gwneud elw o'i raglenni drwy BBC Worldwide. Mae BBC Worldwide yn buddsoddi rhan o'i elw er mwyn sicrhau na chaiff ei adael ar ôl yn sgil y trawsnewid digidol a welir mewn marchnadoedd cyfryngau masnachol.

Rydym wedi ailstrwythuro llawer o'n contractau strategol er mwyn dileu mynegeion awtomatig sy'n seiliedig ar gyfraddau chwyddiant cyhoeddedig.

Rydym yn parhau i ddilyn cynllun ad-dalu diffygion pensiwn er mwyn dod â chydbwysedd yn ôl i'n cynllun pensiwn mewn ffordd sy'n deg i'n staff ac i dalwyr ffi'r drwydded a chynulleidfaoedd nawr ac yn y dyfodol.



Rhoddwyd y sgôr AI uchaf i BBC Two ar gyfer *The Choir: Military Wives* (93).

Rydym yn falch o'r ffaith y bydd strwythurau a chynlluniau ariannol y BBC yn sicrhau y bydd y BBC yn parhau i fod yn gryf, er gwaetha'r pwysau hyn. Ni fydd unrhyw wasanaethau yn dod i ben yn sgil y cynlluniau, a chaiff y gwasanaethau hynny a werthfawrogir fwyaf gan ein cynulleidfaoedd eu diogelu i raddau helaeth. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio adnoddau ar y blaenoriaethau golygyddol y gwyddom sydd bwysicaf i'n cynulleidfaoedd.

**Ein cyflawniadau o ran effeithlonrwydd eleni**
Yn ogystal â chynllunio effeithlonrwydd ar gyfer y dyfodol o dan Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, rydym wedi parhau i wneud arbedion effeithlonrwydd cynaliadwy o dan ein rhaglen Gwelliant Parhaus sydd bellach wedi dod i ddiwedd ei phedwaredd blwyddyn, sef y flwyddyn olaf ond un.

Eleni, gwnaed £499miliwn arall o arbedion, gan ddod â'r cyfanswm cronnol ers 2008/09 i £1,498miliwn. Mae ein rhaglen lawn ar y trywydd iawn i ragori ar y targed a bennwyd gan yr Ymddiriedolaeth sef 3% o arbedion blynyddol cyfartalog, gydag alldro rhagamcanedig o 3.6% a chyfanswm arbedion cronnol a ragwelir o fwy na £2biliwn erbyn diwedd 2012/13. Cyflawnwyd hyn heb beryglu ansawdd ein hallbwn a chan sicrhau'r ffigurau gorau posibl o ran gwerthfawrogiad cynulleidfaoedd.

Caiff ein harbedion blynyddol eu hadolygu gan ein harchwilwyr, KPMG LLP. Yn ogystal, aeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ati i archwilio'r rhaglen Gwelliant Parhaus am y tro cyntaf eleni. Roedd eu hadroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011, yn canmol y rhaglen a'r ffordd y'i rheolwyd. Cadarnhaodd ein bod ar y trywydd iawn i ragori ar ein targed, gyda chymorth cymhellion clir i reolwyr o ran cyflawni'r targedau arbedion a bennwyd ar gyfer eu his-adrannau. Gwnaethant argymhellion defnyddiol hefyd o ran nodi mentrau trawsadrannol a sicrhau gwelliannau pellach wrth olrhain perfformiad. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf.

**Arbedion effeithlonrwydd fesul categori**

| Categori | % o gyfanswm yr arbedion |
|---|---|
| **Pobl**<br>Ailbennu ffocws er mwyn sicrhau bod y cymysgedd cywir o bobl ar gael i barhau i ddarparu allbwn nodedig a werthfawrogir gan gynulleidfaoedd. Rydym yn ymrwymedig i leihau gwariant ar dalent mewn termau real. | 13% |
| **Cynhyrchu a gwella prosesau**<br>Defnyddio technoleg arloesol i wella'r ffordd rydym yn gwneud pethau a lleihau costau ym mhob un o'n gweithrediadau, o amserlennu i ffilmio. | 29% |
| **Caffael a chontractau**<br>Rhyddhau arian ar gyfer rhaglenni a chynnwys gan wneud arbedion drwy swmp-brynu, cynnig gwaith ar gontractau allanol ac ailnegodi contractau. | 23% |
| **Eiddo a thechnoleg**<br>Trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, er enghraifft drwy ddefnyddio dulliau digidol, di-dâp i gynhyrchu cynnwys aml-lwyfan yn fwy effeithlon nag erioed o'r blaen. | 7% |
| **Sicrhau cynnwys o'r ansawdd gorau**<br>Mae Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf yn adeiladu ar ein rhaglen effeithlonrwydd bresennol ac yn canolbwyntio ar ddyrannu gwariant comisiynu yn fwy effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ar gynulleidfaoedd. | 28% |

Mae llwyddiant y rhaglen Gwelliant Parhaus yn dangos bod y BBC wedi ymgorffori yn ei weithrediadau ddiwylliant o effeithlonrwydd y gallwn ei ddefnyddio i sicrhau'r arbedion fwyfwy heriol y bydd angen eu gwneud yn y dyfodol.

**BBC World Service**
Gwelwyd effaith Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 ar BBC World Service am y tro cyntaf yn 2011/12, ac mae'r darlledwr wedi bod yn canolbwyntio ar sicrhau'r gyfran gyntaf o arbedion a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011. Collwyd tua 450 o swyddi yn ystod y flwyddyn, er i lefelau uwch o adleoli nag a ragwelwyd yn wreiddiol arwain at arbedion sylweddol o ran costau gweithredu.

# TROSOLWG ARIANNOL
## PARHAD

**Datganiad Incwm Cyfunol Cryno**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | 2012 £m | 2011 £m |
|---|---|---|
| Incwm o ffi'r drwydded | **3,606** | 3,513 |
| Incwm a refeniw arall | **1,480** | 1,480 |
| **Cyfanswm incwm** | **5,086** | 4,993 |
| Costau gweithredu (ac eithrio costau ailstrwythuro ac incwm pensiwn eithriadol) | **(4,750)** | (4,789) |
| Budd pensiwn eithriadol | **45** | 250 |
| Costau ailstrwythuro | **(103)** | (63) |
| **Cyfanswm y costau gweithredu** | **(4,808)** | (4,602) |
| Cyfran o ganlyniadau partneriaethau cyswllt a chyd-fentrau | **21** | 27 |
| Budd o werthu gweithrediadau a gwaredu asedau sefydlog | **100** | 96 |
| Treth ac incwm ariannu net | **(10)** | (31) |
| **Gwarged weithredu'r Grŵp** | **389** | 483 |

Mae incwm wedi codi yn sgil mwy o weithgarwch newid i ddigidol a thwf cyfyngedig yn nifer y cartrefi

Mae incwm masnachol wedi aros yn ddigyfnewid mewn hinsawdd economaidd heriol

Er gwaethaf pwysau chwyddiannol sylweddol a mwy o weithgarwch newid i ddigidol, mae costau wedi aros yn sefydlog fwy neu lai, gan adlewyrchu effaith ein rhaglenni effeithlonrwydd ac arbedion

Budd pensiwn eithriadol yn sgil y penderfyniadau a wnaed gan aelodau o'r cynllun pensiwn o dan y gwaith diwygio pensiynau diweddar

Costau ailstrwythuro sy'n ymwneud yn bennaf â mentrau Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf

Mae a wnelo'r budd eleni yn bennaf â gwerthu busnes Cylchgronau BBC Worldwide

**Datganiad incwm**
Mae ein canlyniadau eleni yn dangos ein bod wedi parhau i reoli ein heriau ariannol yn llwyddiannus, a gwneud paratoadau cadarn ar gyfer y dyfodol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y Datganiad Incwm am y flwyddyn.

Roedd gwarged ein grŵp yn £389miliwn. Roedd hyn yn cynnwys ennill actiwaraidd o £45miliwn a ddeilliodd o gwblhau'r gwaith o ddiwygio buddiannau pensiwn a wnaed yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac elw o £95miliwn o waredu busnes Cylchgronau BBC Worldwide, a oedd yn symudiad pellach tuag at ganolbwyntio gweithgareddau masnachol ar sianelau a llwyfannau â brand y BBC.

Ar ôl eithrio'r ddwy eitem hyn, roedd y warged sylfaenol yn £249miliwn, neu 4.9% o'n hincwm gros. Caiff y cyllid a gawn o ffi'r drwydded ei reoli dros gyfnod ffi'r drwydded, ac ni fydd y costau yn cyfateb i'r incwm ym mhob blwyddyn. Mae'r warged eleni yn adlewyrchu arbedion a wnaed i gwmpasu'r costau a ragwelwyd o ran y cynnydd yn y gwariant ar ddarlledu yn 2012 (Gemau Olympaidd, Jiwbilî Ddiemwnt, pencampwriaethau pêl-droed Ewrop) ond hefyd ddarpariaethau ailstrwythuro er mwyn sicrhau bod modd gwneud arbedion yn y dyfodol ac ariannu prosiectau mawr fel y broses o symud i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd a'r ffyrdd digidol newydd o weithio. Yn ein Cynllun Gwaith ar gyfer 2012/13 a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rydym yn rhagweld diffyg o £137miliwn am y flwyddyn, a gaiff ei ariannu gan warged eleni.

**Incwm ffi'r drwydded**
Gwelwyd cynnydd o £93miliwn yn yr incwm o ffi'r drwydded eleni, er na welwyd cynnydd yn ffi'r drwydded. Mae ffi flynyddol y drwydded yn cynnwys swm i ariannu gweithgareddau'r Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol yn ogystal â Digital UK. Mae'n rhaid i unrhyw danwariant gael ei ad-dalu i'r Llywodraeth ac felly ni chaiff ei gynnwys yn ein hincwm. Gwelwyd mwy o weithgarwch newid i ddigidol eleni o gymharu â'r llynedd, gan gyfrif am £74miliwn o'r £93miliwn o gynnydd yn ein hincwm. Roedd y gweddill yn deillio o dwf bach mewn cartrefi. Rydym hefyd wedi cadw cyfraddau osgoi talu ffi'r drwydded ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol er gwaethaf y pwysau ar gyllidebau cartrefi drwy dargedu ein gweithgarwch casglu a hysbysu talwyr ffi'r drwydded am ffyrdd haws o dalu.

**Gweithrediadau masnachol**
Caiff ffi'r drwydded ei hategu gan incwm sy'n deillio o fanteisio'n fasnachol ar gynnwys a seilwaith a ariennir gan ffi'r drwydded drwy dri is-gwmni masnachol – BBC Worldwide, BBC World News a BBC Studios & Post Production (S&PP).

O ganlyniad i'w weithgareddau yn 2011/12, dychwelodd BBC Worldwide £216miliwn mewn arian parod i'r BBC (2010/11: £182miliwn), y swm mwyaf erioed, sy'n cyfateb i 6% o'r incwm o ffi'r drwydded. Er gwaethaf natur anrhagweladwy rhai o'i farchnadoedd, mae'r cwmni wedi parhau i dyfu. Gwelwyd cynnydd o 5.4% mewn gwerthiannau sylfaenol (ac eithrio gwerthiannau Cylchgronau) i £1,085miliwn a chynnydd yn y prif elw (ac eithrio eitemau eithriadol) i £155miliwn.

Yn ystod y flwyddyn, dibrisiodd BBC Worldwide werth cario ei fuddsoddiad yn Lonely Planet £16miliwn o ganlyniad i gynnydd parhaus yng ngwerth doler Awstralia. Ar ddyddiad yr arolwg lleihad mewn gwerth blynyddol ym mis Ionawr 2012, roedd doler Awstralia ar ei uchaf ers 28 mlynedd yn erbyn y sterling. Mae rheolwyr Lonely Planet wedi cymryd camau i leihau sail costau'r cwmni yn Awstralia er mwyn lleddfu effaith bosibl unrhyw gynnydd pellach.

Parhaodd BBC World News i ddarparu gwasanaethau newyddiaduraeth o safon uchel i gynulleidfa ryngwladol. Er i refeniw ac elw ostwng ychydig yn sgil amodau economaidd anodd, gwelwyd pwysau ar refeniw hysbysebu yn benodol. Ar y llaw arall, gwelwyd cynnydd bach mewn refeniw dosbarthu. Cafodd y cwmni fudd hefyd yn sgil blwyddyn lawn gyntaf cynllun arbedion sylweddol.

Mewn amgylchedd masnachu anodd, cofnododd S&PP brif elw o £5miliwn eleni. Parhaodd y cwmni i ehangu ei sylfaen cwsmeriaid gan wneud iawn am yr incwm a gollwyd yn sgil adleoli gweithgareddau BBC Sport a BBC Children i Salford lle nad oes gan S&PP safle gweithredu.



Darlledwyd Proms y BBC yn fyw ar BBC Radio 3 ac aeth dros 300,000 o bobl i'r cyngherddau.

# TROSOLWG ARIANNOL
## PARHAD

**Gwariant Grŵp Darlledwyr Cyhoeddus y DU (UK PSB)**

| Gwasanaeth | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | **Cyfanswm 2012 £m** | Cyfanswm 2011 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| BBC One | 1,041.1 | 54.8 | 241.7 | **1,337.6** | 1,400.8 |
| BBC Two | 416.6 | 19.3 | 101.2 | **537.1** | 527.4 |
| BBC Three | 83.8 | 4.4 | 24.7 | **112.9** | 110.0 |
| BBC Four | 49.2 | 3.5 | 15.1 | **67.8** | 67.0 |
| CBBC | 81.9 | 3.6 | 21.8 | **107.3** | 99.2 |
| CBeebies | 29.2 | 3.9 | 9.3 | **42.4** | 39.7 |
| BBC HD | 1.2 | 15.0 | 1.6 | **17.8** | 11.8 |
| BBC ALBA | 5.0 | 1.7 | 1.3 | **8.0** | 7.6 |
| Sianel BBC News | 42.4 | 6.9 | 8.2 | **57.5** | 61.0 |
| BBC Parliament | 2.1 | 5.8 | 1.4 | **9.3** | 8.0 |
| BBC Red Button | 13.5 | 18.3 | 5.4 | **37.2** | 39.5 |
| **Teledu** | 1,766.0 | 137.2 | 431.7 | **2,334.9** | 2,372.0 |
| BBC Radio 1 | 38.4 | 4.6 | 7.6 | **50.6** | 48.1 |
| BBC Radio 2 | 47.2 | 4.6 | 8.7 | **60.5** | 59.1 |
| BBC Radio 3 | 37.8 | 4.7 | 10.0 | **52.5** | 50.7 |
| BBC Radio 4 | 88.1 | 8.6 | 19.2 | **115.9** | 119.7 |
| BBC Radio Five Live | 51.1 | 5.8 | 12.4 | **69.3** | 72.8 |
| BBC Radio Five Live Sports Extra | 2.6 | 1.2 | 1.5 | **5.3** | 4.9 |
| BBC 1Xtra | 7.2 | 1.3 | 2.6 | **11.1** | 11.0 |
| BBC 6Music | 7.8 | 1.3 | 2.6 | **11.7** | 10.7 |
| BBC Radio 4 Extra | 5.0 | 1.3 | 1.9 | **8.2** | 8.2 |
| BBC Asian Network | 8.5 | 1.5 | 3.0 | **13.0** | 12.6 |
| Radio Lleol y BBC | 112.7 | 8.1 | 25.7 | **146.5** | 147.3 |
| BBC Radio Scotland | 23.2 | 3.0 | 5.9 | **32.1** | 32.3 |
| BBC Radio nan Gàidhael | 3.6 | 1.4 | 1.0 | **6.0** | 6.1 |
| BBC Radio Wales | 13.0 | 1.5 | 3.2 | **17.7** | 17.0 |
| BBC Radio Cymru | 11.4 | 1.6 | 2.9 | **15.9** | 16.0 |
| BBC Radio Ulster/BBC Radio Foyle | 17.3 | 2.0 | 4.5 | **23.8** | 21.6 |
| **Radio** | 474.9 | 52.5 | 112.7 | **640.1** | 638.1 |
| BBC Ar-lein | 115.3 | 18.7 | 52.8 | **186.8** | 193.9 |
| **Ar-lein** | 115.3 | 18.7 | 52.8 | **186.8** | 193.9 |
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | 2,356.2 | 208.4 | 597.2 | **3,161.8** | 3,204.0 |

Yr elfen fwyaf o wariant y BBC yw cost rhaglenni a chynnwys arall a ddarperir i gynulleidfaoedd a defnyddwyr o dan y 28 o drwyddedau gwasanaeth a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth i ddwyn rheolwyr y BBC i gyfrif.

Dengys cyfanswm y gwariant ar gynnwys fesul gwasanaeth fod ein gwariant wedi gostwng i £2,356miliwn (2010/11: £2,475miliwn). Mae hyn yn adlewyrchu effaith barhaus ein rhaglen effeithlonrwydd, a'r cylch eilflwydd arferol o gostau darlledu. Cynhaliwyd Cwpan Pêl-droed y Byd yn ystod y flwyddyn flaenorol ond ni chafwyd unrhyw ddigwyddiad cyfatebol yn 2011/12.

Nid oedd gwariant unrhyw drwydded gwasanaeth yn uwch na'r trothwy sylfaenol a ganiatawyd ar gyfer y gyllideb yn ystod 2011/12. Gwelwyd tanwariant o fwy na 10% gan bum gwasanaeth:

- cafodd sianel BBC HD fudd o gostau is cynyrchiadau manylder uwch
- sicrhaodd BBC 1Xtra, BBC Radio 5 Live a BBC Radio 4 Extra arbedion cynnar yn sgil Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf
- gwariodd BBC Red Button lai na'r hyn a gyllidebwyd ar ei gyfer yn sgil penderfyniad i ohirio rhai darllediadau tan 2012/13 ac effeithlonrwydd y broses o adleoli i Salford

Ym mhob achos, ni pheryglwyd perfformiad golygyddol y gwasanaethau perthnasol yn sgil yr arbedion.

Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd y gwaith parhaus o gyflawni effeithlonrwydd at leihad yn nifer y staff yng ngweithrediadau'r BBC a ariennir gan ffi'r drwydded ac mewn is-gwmnïau masnachol. Gwelwyd gostyngiad o 4.2% yn nifer y staff yng Ngrŵp y BBC o 22,899 i 21,940 yn ystod y flwyddyn a gostyngiad o 2.1% yn y cyflogau a dalwyd i staff. O ran Grŵp PSB y DU, gwelwyd gostyngiad o 2.2% yn nifer y staff o 17,242 i 16,858 a gostyngiad o 0.8% yn y bil cyflog (ac eithrio costau ailstrwythuro a thaliadau adfer diffygion pensiwn).

## Cyfanswm gwariant Grŵp y Darlledwyr Cyhoeddus

| | Cynnwys £m | Dosbarthu £m | Seilwaith/ cymorth £m | Eitemau eraill £m | **Cyfanswm 2012 £m** | Cyfanswm 2011 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant wedi ei reoleiddio gan drwydded gwasanaeth** | 2,356.2 | 208.4 | 597.2 | – | **3,161.8** | 3,204.0 |
| Costau casglu ffi'r drwydded | – | – | – | 126.1 | **126.1** | 123.6 |
| Cerddorfeydd a grwpiau perfformio | 23.6 | – | 5.4 | – | **29.0** | 24.0 |
| S4C | 23.2 | – | 6.0 | – | **29.2** | 32.2 |
| Gwariant ar ymchwil a datblygu | 42.7 | – | 9.8 | – | **52.5** | 32.8 |
| Taliad lleihau diffygion pensiwn Grŵp PSB y DU | – | – | – | 89.1 | **89.1** | – |
| Costau yr aed iddynt i gynhyrchu incwm o fewn y grŵp | – | – | – | 156.8 | **156.8** | 152.6 |
| Costau yr aed iddynt i gynhyrchu incwm trydydd parti | – | – | – | 55.9 | **55.9** | 64.6 |
| **Gwariant arall sy'n ymwneud â chynnwys** | 89.5 | – | 21.2 | 427.9 | **538.6** | 429.8 |
| Costau ailstrwythuro | – | – | – | 100.6 | **100.6** | 29.6 |
| **Cyfanswm gwariant gwasanaethau cyhoeddus y DU ar gynnwys** | 2,445.7 | 208.4 | 618.4 | 528.5 | **3,801.0** | 3,663.4 |
| Newid i ddigidol (Digital UK Limited) | – | – | – | 40.8 | **40.8** | 25.0 |
| Newid i ddigidol (DSHS Limited) | – | – | – | 89.7 | **89.7** | 55.3 |
| **Cyfanswm gwariant Grŵp PSB y DU** | 2,445.7 | 208.4 | 618.4 | 659.0 | **3,931.5** | 3,743.7 |
| Ailddosbarthu prydlesau | – | – | – | (81.7) | **(81.7)** | (58.2) |
| **Gwariant Grŵp PSB y DU** | 2,445.7 | 208.4 | 618.4 | 577.3 | **3,849.8** | 3,685.5 |

## Mae costau seilwaith a chymorth yn cynnwys:

| | **2012 £m** | 2011 £m |
|---|---|---|
| Eiddo | **186.9** | 150.0 |
| Adnoddau dynol a hyfforddiant | **46.2** | 48.8 |
| Polisi a strategaeth | **9.6** | 10.8 |
| Cyllid a busnes | **56.8** | 61.3 |
| Marchnata, cynulleidfaoedd a chyfathrebu | **72.0** | 70.5 |
| Uned Weithredol | **2.7** | 4.4 |
| Cyfanswm costau canolog | **374.2** | 345.8 |
| Technoleg | **128.0** | 85.8 |
| Llyfrgelloedd, cymorth dysgu a digwyddiadau cymunedol | **36.1** | 38.6 |
| Costau rhedeg adrannol | **63.7** | 63.3 |
| Uned Ymddiriedolaeth y BBC (ac eithrio ailstrwythuro) | **11.9** | 13.3 |
| Arall | **4.5** | (5.4) |
| **Cyfanswm costau seilwaith/cymorth** | **618.4** | 541.4 |

Mae holl gostau adrannau canolog wedi lleihau eleni mewn termau real. Y ddau eithriad yw Eiddo a Thechnoleg, sy'n adlewyrchu'n uniongyrchol y buddsoddiad sylweddol a wnaed gan y BBC yn ei dechnoleg a'i seilwaith gweithredu yn ystod y blynyddoedd diwethaf (e.e. MediaCityUK, y Ganolfan Ddarlledu yn Llundain W1, Menter y Cyfryngau Digidol). O ganlyniad uniongyrchol i'r buddsoddiad hwn, mae costau dibrisiant a rhedeg blynyddol ar gyfer eiddo a thechnoleg wedi cynyddu eleni.

Mae'r buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn cefnogi'r ffyrdd newydd o weithio a darparu'r adnoddau a'r gallu technolegol, i alluogi'r BBC i gynhyrchu'r cynnwys dynamig y mae cynulleidfaoedd a defnyddwyr yn ei ddisgwyl gennym mewn economi ddigidol lle bydd y llwyfannau a ddefnyddir i ddarparu cynnwys yn parhau i ddatblygu'n gyflym fel y gwelwyd eisoes. Wrth i ni roi cynlluniau ar waith i leihau ein hôl troed eiddo, mae'n rhaid i ni dalu costau safleoedd cynhyrchu gwag, wrth i ni baratoi i'w defnyddio a hyd at y broses o'u gwaredu. Caiff y treuliau eiddo hyn sydd dros ben eu cynnwys mewn seilwaith a chymorth. Bydd y broses o waredu safleoedd (y Ganolfan Deledu (TVC), White City) yn ystod y blynyddoedd i ddod yn sicrhau arbedion sylweddol yn erbyn lefelau costau cyfredol.

# TROSOLWG ARIANNOL
## PARHAD

**Mantolen Gyfunol Gryno**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | 2012 £m | 2011 £m |
|---|---|---|
| Asedau anghyfredol | **1,920** | 1,947 |
| Asedau cyfredol | **2,069** | 2,052 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | **(1,259)** | (1,314) |
| Rhwymedigaethau anghyfredol (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) | **(1,206)** | (1,357) |
| Asedau net (ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn) | **1,524** | 1,328 |
| Rhwymedigaethau pensiwn net | **(1,179)** | (927) |
| Asedau net | **345** | 401 |
| Cynrychiolir gan | | |
| Cronfeydd wrth gefn y BBC | **338** | 394 |
| Buddiannau heb reolaeth | **7** | 7 |
| | **345** | 401 |

Mae llawer o'r prosiectau adeiladu a thechnoleg yr aethom i'r afael â hwy dros y blynyddoedd diwethaf bellach yn weithredol ac mae hyn wedi cynyddu dibrisiant. Mae hyn wedi arwain at leihad yng ngwerth asedau anghyfredol. Mae TVC wedi'i ailddosbarthu fel ased cyfredol 'a ddelir i'w werthu'

Mae'r amcangyfrif o rwymedigaethau net y cynllun pensiwn yn adlewyrchu newidiadau i fuddiannau'r cynllun, y taliadau ar gyfer lleihau'r diffyg a newidiadau i brisiad asedau ar y farchnad

### Mantolen

**Offer, eiddo a chyfarpar (PP&E)**

Gwelwyd cryn gynnydd eto eleni o ran y gwaith o ddatblygu ein hystad weithredu a thechnoleg er mwyn gwneud arbedion parhaus drwy dechnoleg newydd a threfniadau cydweithio, yn ogystal â'r gwaith o wella allbwn rhaglenni. Yn ystod y flwyddyn agorodd MediaCityUK yn Salford a'n Pentref Drama newydd ym Mhorth y Rhath yng Nghaerdydd. Mae BBC World Service wedi symud i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd yn Llundain W1 hefyd. Mae'r prosiect Fabric (ein system cynhyrchu digidol newydd) wedi arwain y gwaith o ddatblygu ein seilwaith technoleg. Buddsoddwyd cyfanswm o £175miliwn eleni, gyda W1 (£44miliwn), North (£37miliwn) a Fabric (£38miliwn) ymhlith yr elfennau allweddol.

Wrth i'r eiddo a'r seilwaith technoleg newydd hwn ddod yn weithredol, rydym yn dechrau mynd i ddibrisiant ac mae'r gost ychwanegol, ynghyd â'r broses o drosglwyddo asedau cyfredol TVC, fel ased a ddelir i'w werthu, yn golygu bod lleihad net yng ngwerth llyfr PP&E eleni. Gwelwyd cynnydd o £20miliwn yn ein tâl dibrisiant eleni o ganlyniad uniongyrchol i'r buddsoddiad yn ein heiddo a'n seilwaith technoleg.

Mae ein cyfleusterau gweithredu sylweddol newydd yn Salford, Glasgow a Chaerdydd yn golygu bod y BBC mewn sefyllfa gref i gyflawni ei darged o wario 50% o'r gyllideb teledu rhwydwaith y tu allan i Lundain erbyn 2016.

**Rhwymedigaethau pensiwn**

Bu'n flwyddyn o ansicrwydd i'r marchnadoedd ariannol wrth i fuddsoddwyr bryderu ynghylch y posibilrwydd o ddirwasgiad dwbl yn y byd datblygedig, 'glaniad caled' yn Nhsieina a dyfodol Ardal yr Ewro. Perfformiodd marchnadoedd bondiau yn arbennig o gryf, a gostyngodd arenillion gilt cwponau sefydlog confensiynol i'w lefel isaf mewn 300 mlynedd yn ôl y sôn.

Defnyddir arenillion gilt i gyfrifo'r gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau ein cynllun pensiwn yn y dyfodol, ac mae'r gostyngiad o gymharu â'r llynedd wedi achosi cynnydd yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaethau hyn. Mae hon yn broblem sy'n wynebu pob cynllun buddiannau diffiniedig arall yn yr amgylchedd economaidd cyfredol. Y cynnydd hwn yng ngwerth rhwymedigaethau'r cynllun oedd y prif reswm dros gynnydd ym mhrisiad cyfrifyddu diffygion y cynllun pensiwn i £1,179miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, o gymharu â £927miliwn 12 mis yn gynharach. Cynhelir prisiad actiwaraidd nesaf y cynllun ym mis Ebrill 2013, ac rydym yn parhau i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan y cynllun lleihau diffygion y cytunwyd arno gydag ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, gan wneud taliadau blynyddol o rhwng £60miliwn a £100miliwn hyd at 2021/22.

Ddeuddeg mis yn ôl, roedd y BBC wrthi'n gwneud gwaith sylweddol i ddiwygio pensiynau er mwyn lleihau baich pensiynau ar ffi'r drwydded yn y dyfodol. O ganlyniad, bu'n rhaid i ni wneud tybiaethau ynghylch y dewisiadau y byddai'r staff yn eu gwneud o ran yr opsiynau gwahanol. Rydym bellach yn gwybod dewisiadau'r staff, ac mae hyn wedi arwain at fwy o arbedion na'r hyn a ragamcanwyd yn wreiddiol felly rydym wedi nodi £45miliwn o enillion cwtogi pellach yn y cyfrifon eleni.

**Darpariaeth ailstrwythuro**

Mae'r Grŵp wedi darparu £103miliwn o gostau ailstrwythuro eleni, sy'n ymwneud yn bennaf â chostau ein cynlluniau Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf sy'n ddigon datblygedig i hysbysu staff a rhanddeiliaid allweddol eraill amdanynt. Mae'r gwariant hwn yn hanfodol er mwyn cyrraedd ein targed hirdymor o £700miliwn o arbedion blynyddol. Disgwylir darpariaethau pellach yn 2012/13 wrth i adrannau eraill ddatblygu eu cynlluniau gweithredu a rhoi gwybod amdanynt.

**Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol Cryno**
Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

| | 2012 £m | 2011 £m |
|---|---|---|
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **266** | 475 |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | **(203)** | (146) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau ariannol | **(136)** | (113) |
| (Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **(73)** | 216 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | **513** | 264 |
| Effaith newidiadau yn y gyfradd gyfnewid dramor ar arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **(1)** | (1) |
| Symudiad mewn arian parod a ddelir fel cronfeydd cyfyngedig | **(32)** | 34 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | **407** | 513 |

Gwarged arian parod weithredu'r Grŵp cyn dibrisiant ac amorteiddio. Mae'r lleihad yn adlewyrchu'r warged weithredu is a'r rhestr hwy o raglenni

Mae'r cynnydd hwn yn ymwneud yn bennaf â phrynu asedau anniriaethol ychwanegol gwerth £53miliwn o'r flwyddyn flaenorol

Llog a delir ar brydlesau eiddo yw hwn yn bennaf

Mae ffigur 2012 yn cynrychioli: £145miliwn – tanwariant digidol; £33miliwn – cwmnïau masnachol; £229miliwn – Grŵp PSB y DU, BBC World Service a BBC Monitoring

## Rhaglenni i'w darlledu yn y dyfodol

Mae'r fantolen hefyd yn adlewyrchu cynnydd o 11.7% yng ngwerth rhaglenni a gwblhawyd, rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu a blaendaliadau ar gyfer hawliau chwaraeon. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu croniad yn ein stoc o raglenni arbennig a hawliau chwaraeon cytundebol ar gyfer blwyddyn pan fydd y BBC yn cyflwyno darllediadau o Gemau Olympaidd Llundain a dathliadau Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines i'w gynulleidfaoedd.

## Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol Cryno

Roedd ein balans arian parod cyffredinol yn £262miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, ac eithrio £145miliwn o arbedion a neilltuwyd o'n gweithgarwch newid i ddigidol (y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol a Digital UK). Delir £33miliwn o'r swm hwn gan ein gweithrediadau masnachol i'w fuddsoddi mewn gwaith datblygu. Bydd y £229miliwn o arian parod sy'n weddill yn darparu ar gyfer y canlynol:

- y cyllid cronnol i ddarparu £107miliwn o gostau ailstrwythuro er mwyn cyflawni effeithlonrwydd a ffyrdd newydd o weithio, yn bennaf fel rhan o'r cynllun Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf (darparwyd £82miliwn hyd yn hyn ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf, ond bydd y swm hwnnw'n cynyddu wrth i gynlluniau gael eu datblygu ymhellach)
- taliadau pellach ar gyfer adfer diffygion pensiwn blynyddol (mae'r taliad nesaf sy'n ddyledus yn £60miliwn)
- cynnydd a gynlluniwyd yn y gwariant ar gynnwys yn ystod blwyddyn nodedig y Gemau Olympaidd a'r Jiwbilî Ddiemwnt
- costau'n ymwneud â symud i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd yn W1 ac ymsefydlu yno a chwblhau ein system cynhyrchu digidol ar gyfer teledu (Fabric)

## Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol

Caiff y Cynllun Cymorth Newid i Ddigidol ei redeg gan y BBC i gynorthwyo pobl hŷn a phobl anabl i newid i deledu digidol. Bu'r gwaith o gynllunio rhaglen gofal cymdeithasol a'i gweithredu ledled y DU yn ymgymeriad newydd i'r BBC. Mae mwy na 1.2 miliwn o bobl wedi manteisio ar y cymorth ymarferol hwn wrth i deledu digidol gael ei gyflwyno ym mhob cwr o'r DU fesul rhanbarth. Dim ond Tyne Tees a Gogledd Iwerddon sy'n weddill bellach. Rhagorwyd ar dargedau gwerth am arian a gwasanaethau cwsmeriaid.


Roedd llawer o'r bobl a oedd yn gymwys i gael cymorth i baratoi eu setiau teledu ar gyfer y newid i ddigidol eisoes wedi newid i ddigidol cyn i'r Cynllun Cymorth gyrraedd eu hardal. O ganlyniad, mae'r gwariant ar y cymorth i newid i ddigidol wedi bod yn is na'r disgwyl, a byddwn yn dychwelyd yr arian parod o ffi'r drwydded a neilltuwyd at y diben hwn gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS).

Ar ddiwedd 2010/11, roedd £266miliwn yn ddyledus i DCMS ac, yn unol â'r cynllun ad-dalu y cytunwyd arno, gwnaethom ddychwelyd £214miliwn yn ystod 2011/12. Gwnaethpwyd arbedion pellach o £93miliwn ar y cynllun yn ystod 2011/12, gan olygu bod swm rhagamcanedig o £145miliwn yn ddyledus at ei gilydd, y caiff £92miliwn ohono ei ad-dalu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

## Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf

Fel y disgrifiwyd eisoes, bydd angen costau ailstrwythuro ymlaen llaw er mwyn sicrhau arbedion drwy ein cynlluniau Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf. Bydd y costau hyn yn cynnwys costau dileu swyddi, yn ogystal â rhywfaint o fuddsoddiad ychwanegol mewn technoleg newydd. Mae angen i ni neilltuo'r arian parod nawr er mwyn ariannu'r eitemau eithriadol hyn o wariant.

**Symudiadau mewn arian parod £m**



# CASGLU FFI'R DRWYDDED

Mae'r ffordd y caiff y BBC ei ariannu yn rhan greiddiol o'r gydberthynas unigryw rhwng y sefydliad a'i gynulleidfaoedd. Mae angen i'r BBC sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn parhau i ymddiried yn y ffordd y mae'n gofalu am eu harian. Yn ogystal â gwario ffi'r drwydded mor effeithlon â phosibl ar raglenni a gwasanaethau a werthfawrogir gan ein cynulleidfaoedd, mae angen i ni hefyd sicrhau ei bod yn hawdd i bawb sydd angen trwydded deledu dalu'r ffi.

Mae ein contract casglu newydd gyda Capita, sy'n cynnwys cymhellion i leihau cyfraddau osgoi talu tra'n cynnal canfyddiadau o degwch ar yr un pryd, yn dechrau ym mis Gorffennaf 2012. Credwn y bydd targedu cyfraddau osgoi talu is a gwneud arbedion ar y contract yn gwneud iawn am dwf arafach mewn cartrefi yn y dyfodol o gymharu â'r hyn a welwyd yn hanesyddol. Bydd y contract wyth mlynedd hefyd yn sicrhau arbedion o £220miliwn o ran ein costau casglu (yn seiliedig ar gyfraddau casglu cyfredol), gan olygu y bydd mwy o arian ar gael i'w wario ar raglenni a gwasanaethau.

Llwyddwyd i wneud yr arbedion yn sgil ein hymgyrchoedd i annog talwyr ffi'r drwydded i ddefnyddio opsiynau hunan-wasanaeth ar y we i reoli eu cyfrif, a'r gyfran uchel o dalwyr ffi'r drwydded sydd bellach yn talu drwy Ddebyd Uniongyrchol.

Bydd Capita yn gwneud gwelliannau pellach i'r wefan Trwyddedu Teledu, gan ei gwneud hyd yn oed yn haws i dalwyr ffi'r drwydded ryngweithio gyda Trwyddedu Teledu mewn ffordd sy'n addas iddynt.

Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i gynnig y cynlluniau talu arian parod a werthfawrogir gan gymaint o'n cwsmeriaid.

Am yr ail flwyddyn, rydym wedi paratoi datganiad o refeniw ffi'r drwydded. Mae'r cyfrif hwn yn nodi'r symiau a gasglwyd gennym yn ystod y flwyddyn, ac a dalwyd i DCMS. Mae'r NAO yn archwilio'r datganiad. Ochr yn ochr â'i gwaith archwilio, mae NAO yn archwilio agwedd ar ein trefniadau casglu ac yn cyflwyno adroddiad arni i'r Senedd. Eleni, edrychodd NAO ar y dyddiadau y daw trwyddedau i ben a phrosesau adnewyddu gan gynnwys trwyddedau a ganslwyd, ad-daliadau a chonsesiynau ar gyfer ffi'r drwydded.



# EDRYCH YMLAEN YN HYDERUS

Yn wyneb llawer o heriau parhaus, gellid ystyried bod 2011/12 wedi bod yn flwyddyn gref i'r BBC yn ariannol a bod y sefydliad mewn sefyllfa ardderchog i ymateb i'r heriau y bydd yn eu hwynebu yn y dyfodol, yn benodol:

- gwneud 2012 yn flwyddyn o allbwn eithriadol yn ystod blwyddyn 'unwaith mewn cenhedlaeth'
- cwblhau'r broses o symud i Lundain W1 a Salford gan sicrhau ei bod, yn ogystal â gweithgarwch adleoli, yn brosiect sy'n ysgogi ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau y gall y BBC ymateb i'r heriau pellach sydd i ddod
- gwneud £700miliwn o arbedion er mwyn galluogi'r BBC i weithredu o fewn ei gyllideb yn dilyn setliad ffi'r drwydded yn 2010
- bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog gogyfer â'r drafodaeth ar adnewyddu'r Siarter yn 2017

Rydym wedi ymrwymo drwy Sicrhau Ansawdd yn Gyntaf i sicrhau £700miliwn o arbedion cynaliadwy y flwyddyn erbyn diwedd 2016/17, sy'n cyfateb i 20% o'r hyn rydym yn ei wario ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ein galluogi i ariannu BBC World Service, BBC Monitoring ac S4C drwy ffi'r drwydded a chefnogi'r gwaith o ddatblygu sianelau teledu lleol yn ogystal â chyflwyno band eang yn y DU. Mae'r ymrwymiadau newydd hyn yn gyfystyr â 16% o gostau 2011/12. Bydd 4% ychwanegol o arbedion yn darparu cronfa ailfuddsoddi a fydd yn ein galluogi i gadw'n wastad â'r dechnoleg ddiweddaraf a bodloni disgwyliadau fwyfwy heriol ein cynulleidfaoedd. Bydd angen i ni gyflawni hyn oll heb gynnydd yn ffi'r drwydded tan 2016/17 ac mewn hinsawdd economaidd ansicr lle erys chwyddiant yn uchel.

Bydd angen gwneud rhai dewisiadau anodd wrth fynd ati i lunio cynllun i gyflawni'r arbedion hyn tra'n sicrhau ei fod yn cael yr effaith leiaf bosibl ar ein cynulleidfaoedd. Dyna pam ein bod yn canolbwyntio ein gwariant ar ein pum maes blaenoriaeth golygyddol:

- y newyddiaduraeth orau yn y byd
- gwybodaeth, diwylliant a cherddoriaeth sy'n ysbrydoli
- drama a chomedi uchelgeisiol o'r DU
- cynnwys eithriadol i blant
- cynnwys sy'n dod â'r genedl a chymunedau ynghyd.

Yn unol â hyn, rydym wedi dewis cynnal yn fras y lefelau gwariant cyfredol ar BBC One, BBC Radio 4, CBBC a CBeebies. Byddwn yn lleihau gwariant ar arlwy BBC Two yn ystod y dydd, ac yn sicrhau bod cylch gwaith BBC Four yn canolbwyntio ar wyddoniaeth a'r celfyddydau.

Un o nodweddion allweddol y rhaglen yw y bydd meysydd cymorth y BBC yn gwneud arbedion uwch anghymesur o 25% erbyn 2016/17, er mwyn diogelu ein his-adrannau gwneud rhaglenni cymaint â phosibl. Byddwn hefyd yn ceisio lleihau ein hôl troed eiddo draean ac yn gadael Gorllewin Llundain yn gyfan gwbl yn y pen draw. Bydd y broses hon yn dechrau yn 2013 wrth i ni ymadael â TVC ac adeilad gwreiddiol White City. Bydd y broses o symud pob un o newyddiadurwyr Llundain i'r Ganolfan Ddarlledu Newydd yn rhoi cyfleoedd newydd hefyd i rannu cyfleusterau a deunydd rhwng timau domestig a rhyngwladol, gan gynyddu effeithlonrwydd y naill a'r llall.




Dathlu'r sêr: cyflwynwyr *Stargazing Live*, yr Athro Brian Cox a Dara O'Briain. Roedd y rhaglen yn rhan o weithgarwch BBC Outreach.

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD

**Datganiad ariannol cryno**
Mae'r datganiad ariannol cryno yn cynnwys Datganiad Incwm Cryno'r BBC ar dudalen 2-62, Mantolen Gryno ar dudalen 2-66 a Datganiad Llif Arian Parod Cryno ar dudalen 2-67. Mae'r rhain yn cynnwys y prif ddata allweddol o'r datganiadau ariannol llawn sydd ar gael ar-lein yn y ganolfan lawrlwytho yn www.bbc.co.uk/annualreport.

Nid yw'r datganiad ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i ddeall yn llwyr ganlyniadau na sefyllfa Grŵp y BBC fel y ceir yn y datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae archwilwyr annibynnol y BBC, KPMG LLP, wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiad ariannol cryno, gan gynnwys yr adroddiad Llywodraethu ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, gan y Bwrdd Gweithredol a'i lofnodi ar ei ran ar 21 Mehefin 2012 gan:



**Mark Thompson**
Cyfarwyddwr Cyffredinol



**Zarin Patel**
Prif Swyddog Ariannol

**Datganiad yr archwiliwr annibynnol i ymddiriedolwyr y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig ("BBC")**
Rydym wedi archwilio'r datganiad ariannol cryno am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol Cryno ar dudalen 2-62, y Fantolen Gyfunol Gryno ar dudalen 2-66, y Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol Cryno ar dudalen 2-67 ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar dudalennau 2-47 i 2-51.

Mae ymddiriedolwyr y BBC wedi ein penodi i archwilio'r datganiad ariannol cryno a baratowyd fel petai'r BBC yn gwmni a restrir a chanddo'r hawl i baratoi datganiad o'r fath o dan Adran 426 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Gwneir y datganiad hwn yn unswydd i Ymddiriedolwyr y BBC fel corff ar delerau rydym wedi cytuno arnynt. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu hysbysu ymddiriedolwyr y BBC o'r materion hynny rydym wedi cytuno i'w hysbysu ohonynt mewn datganiad o'r fath ac nid at unrhyw ddiben arall. Hyd y caniateir o dan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r BBC ac Ymddiriedolwyr y BBC fel corff, am ein gwaith, am y datganiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

### Priod gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr, yr Ymddiriedolwyr a'r archwiliwr
Yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am baratoi arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC fel petai Adran 428 o'r Ddeddf Cwmnïau yn gymwys i'r BBC a'i fod yn gwmni a restrir.

Ein cyfrifoldeb ni, yn unol â thelerau ein penodiad, yw rhoi ein barn i chi ar gysondeb y datganiad ariannol cryno yn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol, a'i gydymffurfiaeth â gofynion perthnasol adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC a'i fod yn gwmni a restrir.

Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn arolwg ac asesiad Bwrdd Gweithredol y BBC ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os deuwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysondebau perthnasol â'r datganiad ariannol cryno.

### Sail y farn
Gwnaethom gynnal ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 *Datganiad yr archwiliwr ar y datganiad ariannol cryno yn y Deyrnas Unedig* a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn y BBC yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol hynny ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol.

### Barn
Yn ein barn ni mae'r datganiad ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol blynyddol llawn ac Adroddiad Cydnabyddiaeth y Bwrdd Gweithredol ar gyfer y BBC am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ac mae'n cydymffurfio â gofynion cymwys adran 428 o Ddeddf Cwmnïau 2006 a'r rheoliadau a wnaed yn unol â hi fel petaent yn gymwys i'r BBC a'i fod yn gwmni a restrir.



**Scott Cormack**
**Dros ac ar ran KPMG LLP,**
**Archwiliwr Statudol**
15 Canada Square
London E14 5GL
21 Mehefin 2012

# GEIRFA

## Rydym wedi defnyddio rhai termau yn yr adroddiad hwn i egluro sut rydym yn gweithredu, a allai fod yn anghyfarwydd i'n darllenwyr. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi diffiniadau ar gyfer rhai o'r termau mwyaf cyffredin.

| | |
|---|---|
| Rhaglenni a gaffaelir | Prynir **rhaglenni a gaffaelir** mewn cyflwr gorffenedig oddi wrth gyflenwr arall. Rhoddir enghreifftiau o raglenni a gaffaelir ar dudalen 2-32. |
| Mynegai Gwerthfawrogi neu AI | **Mynegai Gwerthfawrogi** neu **AI** yw cyfanswm faint y nododd pobl eu bod yn mwynhau rhaglenni unigol, wedi'i fynegi fel rhif allan o 100. |
| Economi greadigol | Mae **economi greadigol** y DU yn cynnwys y sefydliadau a'r bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau dylunio a'r cyfryngau, gan gynnwys cwmnïau annibynnol, actorion ac awduron. |
| BARB | **BARB** (Broadcasters Audience Research Board) yw'r sefydliad annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu'r mesur swyddogol o gynulleidfaoedd teledu'r DU. |
| Cost fesul Awr Defnyddiwr | Mae **Cost fesul Awr Defnyddiwr** neu **Gost fesul Awr Gwrandäwr** yn cyfuno gwariant a defnydd o'r gwasanaeth er mwyn helpu i lywio asesiad o werth am arian. |
| Newid i ddigidol | Mae'r broses o **newid i ddigidol** yn golygu diffodd system ddarlledu teledu analog y DU erbyn 2012. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.helpscheme.co.uk. |
| Freesat | Mae **Freesat** yn wasanaeth teledu lloeren a ddarlledir am ddim a ddarperir gan y BBC ac ITV, lle mae defnyddwyr yn talu am yr offer ond ddim yn talu tanysgrifiad misol. Ewch i www.freesat.co.uk/. Mae Freesat gan Sky hefyd ar gael am daliad untro: www.freesatfromsky.co.uk/ |
| Freeview | **Freeview** yw prif wasanaeth teledu daearol digidol y DU a ddarlledir drwy erial a chan ddefnyddio blwch pen set. Nid oes angen tanysgrifiad. Freeview yw'r llwyfan teledu digidol a ddefnyddir fwyaf. Mae wedi bod ar gael mewn HD ers mis Ebrill 2010. Gweler www.freeeview.co.uk. |
| HDTV | Mae **HDTV** – neu deledu manylder uwch – ar gael naill ai drwy flwch pen set neu deledu digidol integredig, ac mae'n rhoi darluniau eglur iawn o ansawdd gwell i wylwyr. |
| Effaith | Mae **effaith** yn dangos pa mor gofiadwy yw rhaglen neu wasanaeth neu faint y mae'n cael ei ganmol, a gellir mesur yr effaith yn ôl sawl gwobr a enillir gan wasanaeth, neu'r sylwadau (cadarnhaol neu negyddol) a geir yn y wasg. |
| Oriau brig | Mae **oriau brig** gwasanaethau teledu'r BBC rhwng 6pm a 10.30pm. Mae radio'n wahanol iawn, ac fel arfer diffinnir oriau brig fel amser brecwast ac oriau cymudo. |
| PSB | Darlledwyr Cyhoeddus y DU (**PSBs**) yw'r BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 ac S4C. |
| Rajar | **Rajar** (Radio Joint Audience Research) yw'r corff swyddogol sy'n gyfrifol am fesur cynulleidfaoedd radio yn y DU. Mae'r BBC a'r RadioCentre yn berchen arno ar y cyd ar ran y sector masnachol. |
| Cyrhaeddiad | **Cyrhaeddiad** ar *deledu* yw nifer neu ganran grŵp cynulleidfa sy'n gwylio rhaglen neu sianel (15 munud yn olynol bob wythnos yw mesur arferol y BBC, o gymharu â thair munud ar deledu masnachol); ac ar y *radio* dyma nifer neu ganran y bobl 15+ oed sy'n gwrando ar o leiaf bum munud o radio mewn cyfnod o 15 munud yn ystod wythnos arferol. |
| Cyfran | **Cyfran** o gyfanswm y gwylwyr neu'r gwrandawyr sy'n gwylio neu'n gwrando ar raglen neu wasanaeth penodol dros gyfnod penodol o amser, wedi ei mynegi fel canran o gyfanswm yr oriau gwylio/gwrando. |
| Defnyddwyr unigryw | Mae **defnyddwyr unigryw** neu borwyr unigryw yn fesur ar gyfer defnyddwyr gwefannau. Nid yw'n arolwg traddodiadol o 'bobl', ond fe'i mesurir yn awtomatig gan ddefnyddio naill ai logiau gweinyddwyr neu drwy dag a ymgorfforir yn y tudalennau gwe. |
| WoCC | Mae'r Ffenestr Cystadleuaeth Greadigol (**WoCC**) yn sicrhau bod 25% o oriau teledu cymwys a 10% o oriau radio cymwys yn destun cystadleuaeth rydd rhwng timau cynhyrchu mewnol y BBC a chynhyrchwyr allanol. Mae WoCCs yn ychwanegol at leiafsymiau Ofcom a lleiafsymiau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes. |

Os hoffech gael gwybodaeth neu os hoffech wybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg, ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc.

# CYSYLLTU Â NI
# MWY O WYBODAETH

**Credydau a hawlfraint**
Mae gan y BBC hawlfraint dros y ffotograffau neu cânt eu defnyddio o dan delerau cytundeb PACT ac eithrio tudalen 2-25, llun o'r Frenhines yn MediaCityUK (h) Jon Super. Mae'n rhaid cael caniatâd deiliaid yr hawlfraint cyn atgynhyrchu unrhyw ffotograffau.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y gwneir hynny mewn ffordd gywir nad yw'n gamarweiniol. Mae'n rhaid ei achredu i'r BBC.

**Dyluniad**
luminous.co.uk

**Cyfieithiad**
Prysg Cyf

**Cysylltu â'r BBC**
Os hoffech wybod mwy am berfformiad blwyddyn lawn y BBC hyd at fis Mawrth 2012 – gan gynnwys datganiadau ariannol llawn a pherfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei Ddatganiad o Bolisi Rhaglenni, yn ogystal ag ymrwymiadau cyhoeddus eraill, ewch i www.bbc.co.uk/annualreport.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fersiwn sain.

Os hoffech gael gwybodaeth neu os hoffech gael gwybod mwy am sut y caiff y BBC ei redeg ewch i www.bbc.co.uk/aboutthebbc. Yma hefyd ceir blog lle mae uwch aelodau o staff ac arbenigwyr yn rhoi cipolwg mewnol a rheolaidd ar yr hyn sy'n digwydd yn y BBC.

Am docynnau i sioeau, teithiau a digwyddiadau, ewch i www.bbc.co.uk/showsandtours.

Os oes gennych sylw, gwerthfawrogiad neu gŵyn am raglenni a gwasanaethau'r BBC ewch i www.bbc.co.uk/feedback.

Neu ysgrifennwch i:

BBC Audience Services
PO Box 1922
Darlington
DL3 0UR

Llinell ffôn sylwadau: 03700 100 222
Llinell ffôn ymholiadau eraill: 03700 100 123
Ffôn testun: 03700 100 212

Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Efallai y caiff galwadau eu monitro neu eu recordio at ddibenion hyfforddiant.

**Ymddiriedolaeth y BBC**
Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am waith Ymddiriedolaeth y BBC, gallwch gysylltu â hi'n uniongyrchol drwy'r post, drwy e-bost neu dros y ffôn.

BBC Trust Unit
1st Floor
180 Great Portland Street
London W1W 5QZ

E-bost: trust.enquiries@bbc.co.uk
www.bbctrust.co.uk

Ffôn:
Llinell BBC Information 03700 103 100
Ffôn testun: 03700 100 212

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.30am a 5.30pm.

**Cynghorau Cynulleidfa'r BBC**
Mae'r Cynghorau Cynulleidfa yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn helpu Ymddiriedolaeth y BBC i ddeall anghenion a phryderon cynulleidfaoedd ledled y DU.

I gysylltu â'r Cynghorau Cynulleidfa:

Cyngor Cynulleidfa Cymru
E-bost: acw@bbc.co.uk

Audience Council England
E-bost: audiencecouncil.england@bbc.co.uk

Audience Council Scotland
E-bost: acs@bbc.co.uk

Audience Council Northern Ireland
E-bost: audiencecouncil.ni@bbc.co.uk

www.bbctrust.co.uk/bbctrust/who_we_are/audience_councils



www.bbc.co.uk/annualreport

British Broadcasting Corporation
Broadcasting House
London WIA IAA
bbc.co.uk
(h) BBC 2012